# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2011**
**Tuesday, 28 June 2011**

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

37 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

41 Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

43 Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011
Motion to Approve the Welsh Language Commissioner (Appointment) Regulations 2011

50 Dadl ar Wasanaethau Cymdeithasol
Debate on Social Services

73 Dadl ar yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen
Debate on the Front-line Resources Review

94 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

105 Dadl Fer
Short Debate

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Biwrocratiaeth yn y Diwydiant Ffermio

### Farming Red Tape

***1. Antoinette Sandbach:*** *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i leihau biwrocratiaeth yn y diwydiant ffermio. OQA(4)0066(FM)*

***1. Antoinette Sandbach:*** *What plans does the Welsh government have to reduce farming red tape. OQA(4)0066(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes will deliver a written statement in July outlining the way forward on reducing bureaucracy and providing better regulation within the farming industry in Wales, reflecting on the recently published Macdonald report in England.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Bydd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd yn darparu datganiad ysgrifenedig ym mis Gorffennaf yn amlinellu'r ffordd ymlaen ar leihau biwrocratiaeth a darparu gwell rheoleiddio yn y diwydiant ffermio yng Nghymru, gan fyfyrio ar adroddiad Macdonald a gyhoeddwyd yn Lloegr yn ddiweddar.

**Antoinette Sandbach:** The Macdonald review into farming red tape opens with the frank admission that,

'in many instances we have become slaves to the process of regulation and lost sight of the outcomes we have been trying to achieve.'

This is a statement that will resonate with farmers from every corner of Wales faced with a mountain of bureaucracy for cattle movements and passports, sheep electronic identification, installing simple renewable schemes on top of duplicated inspections and penalties that are completely disproportionate to the offence. First Minister, do you agree with the findings of this report that there is an urgent need for fundamental change in the culture of regulation in government, and do you accept that it would be better for your Government, and better for the industry, to put an end to gold-plating and to move to a system of farm regulation and inspection based on risk, which focuses enforcement

**Antoinette Sandbach:** Mae adolygiad Macdonald ar fiwrocratiaeth yn y byd ffermio yn dechrau gyd'r cyfaddefiad di-flewyn ar dafod:

'mewn llawer o achosion rydym wedi dod yn gaethweision i'r broses reoleiddio ac wedi colli golwg ar y canlyniadau yr ydym wedi bod yn ceisio eu cyflawni.'

Mae hwn yn ddatganiad a fydd yn taro tant gyda ffermwyr o bob cwr o Gymru sy'n wynebu mynydd o fiwrocratiaeth wrth drefnu symudiadau a phasbortau gwartheg, adnabod defaid yn electronig a gosod cynlluniau ynni adnewyddadwy syml a hyn ar ben dyblygu arolygiadau a chosbau sy'n gwbl anghymesur â'r drosedd. Brif Weinidog, a ydych yn cytuno â chanfyddiadau'r adroddiad hwn bod angen brys am newid sylfaenol yn y diwylliant rheoleiddio mewn llywodraeth, ac a ydych yn derbyn y byddai'n well i'ch Llywodraeth chi, ac yn well i'r diwydiant, i roi diwedd ar y goreuro hwn a symud i system o reoleiddio ac arolygu ffermydd yn seiliedig ar risg, sy'n canolbwyntio ar

where it is actually needed and rewards excellence with less interference?

orfodaeth lle mae ei angen mewn gwirionedd ac yn gwobrwyo rhagoriaeth gyda llai o ymyrraeth?

**The First Minister:** Arrangements are in place to join up inspections where possible. I know that local authorities and the rural inspectorate are sharing inspection lists to avoid duplicate inspections. I know that cattle identification inspections are combining visits with local veterinary inspectors who are undertaking TB testing. Ninety per cent of land-based inspections are now completed using remote sensing rather than on-farm inspections, and the major difference between Wales and England is that in Wales, farmers get paid on time.

**Y Prif Weinidog:** Mae trefniadau ar waith i uno arolygiadau lle bo hynny'n bosibl. Gwn fod awdurdodau lleol a'r arolygiaeth wledig yn rhannu rhestrau arolygu i osgoi dyblygu arolygiadau. Gwn fod arolygiadau adnabod gwartheg yn cael eu cyfuno ag ymweliadau gan arolygwyr milfeddygol lleol sy'n cynnal profion TB. Mae 90 y cant o arolygiadau ar y tir yn cael eu cwblhau erbyn hyn gan ddefnyddio synhwyro o bell yn hytrach nag arolygiadau ar y fferm, a'r gwahaniaeth mawr rhwng Cymru a Lloegr yw bod ffermwyr yn cael eu talu ar amser yng Nghymru.

**Llyr Huws Gruffydd:** Clywch, clywch. Byddwch yn ymwybodol, Brif Weinidog, bod Cymru wedi colli nifer fawr o ladd-dai bach dros y blynyddoedd diwethaf, a hynny’n bennaf oherwydd y baich biwrocrataidd, y tâp coch a’r costau sy’n dod yn sgîl hynny i gyd. Yn sgîl penderfyniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ddiweddar i adhawlio costau llawn arolygu cig mewn lladd-dai o Ebrill nesaf, a wnewch edrych ar ddichonoldeb datganoli cyfrifoldebau a chyllidebau’r Asiantaeth Safonau Bwyd i Lywodraeth Cymru?

**Llyr Huws Gruffydd:** Hear, hear. You will be aware, First Minister, that Wales has lost many small abattoirs over the last few years, mainly as a result of the bureaucratic burden, the red tape and the associated costs. Given the Food Standards Agency’s recent decision to claw-back all costs associated with meat inspection in abattoirs from next April, will you consider the feasibility of devolving the responsibilities and the budgets of the Food Standards Agency to the Welsh Government?

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny’n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Mae adroddiad wedi cael ei gyhoeddi yn awr, nid ar ladd-dai, ond ar y ffordd mae’r ddeddfwriaeth ynglŷn â bwyd yn cael ei defnyddio yng Nghymru. Byddwn yn ystyried pob rhan o waith yr asiantaeth fwyd er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn cael ei rhoi gerbron y Cynulliad i ddelio â phob agwedd ar fwyd yng Nghymru.

**The First Minister:** That is something that we are currently considering. A report has recently been published, not on abattoirs but on the way in which food legislation is used in Wales. We will consider all aspects of the work of the FSA in order to ensure that new legislation is put before the Assembly to deal with all aspects of food in Wales.

### Sector Adeiladu

***2. David Rees:*** *Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi’r sector adeiladu yn yr hinsawdd economaidd bresennol. OAQ(4)0058(FM)*

### Construction Sector

***2. David Rees:*** *What action will the Welsh government be taking to support the construction sector in the current economic climate. OAQ(4)0058(FM)*

**The First Minister:** Aside from significant levels of public investment, we continue to work with the industry on skills development to help move to a more resource-efficient,

**Y Prif Weinidog:** Ar wahân i lefelau sylweddol o fuddsoddiad cyhoeddus, rydym yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu sgiliau i helpu i symud tuag at

low-carbon and economically sustainable industry.

ddiwydiant sy’n fwy effeithlon o ran adnoddau, yn garbon isel ac yn economaidd gynaliadwy.

**David Rees:** As many Members from across the Chamber have mentioned over the last few weeks, the construction industry in Wales makes a substantial contribution to the Welsh economy, with an estimated turnover of over £3 billion per annum. The Assembly itself procures construction work, the benefits of which are tied into other Government objectives, such as providing employment and apprenticeships for the local people, delivering a lifeline to some communities. However, some companies are avoiding their commitments by not honouring their social obligations and apprenticeship quotas. Therefore, will the Welsh Government ensure that when companies are submitting bids for major projects within Wales, they establish strict criteria for procurement contracts, in which pre-qualification questionnaires will identify the needs of the locality and local people? Will the Welsh Government also consider stating that the ratio of apprentices should be based on the total value of the contract rather than the number of people locally employed, to ensure that companies fulfil their commitments?

**David Rees:** Fel mae llawer o Aelodau o bob rhan o'r Siambr wedi sôn yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, mae'r diwydiant adeiladu yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru, gydag amcangyfrif o drosiant o dros £3 biliwn y flwyddyn. Mae’r Cynulliad ei hun yn caffael gwaith adeiladu, manteision sydd ynghlwm ag amcanion eraill y Llywodraeth, megis darparu gwaith a phrentisiaethau i bobl leol, gan roi cymorth mawr i rai cymunedau. Fodd bynnag, mae rhai cwmnïau yn osgoi eu hymrwymiadau drwy beidio ag anrhydeddu eu rhwymedigaethau cymdeithasol a chwotâu prentisiaeth. Felly, a wnaiff Llywodraeth Cymru sicrhau pan fydd cwmnïau’n cyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau mawr yng Nghymru, eu bod yn sefydlu meini prawf caeth ar gyfer contractau caffael, lle y bydd holiaduron cyn-gymhwyso yn nodi anghenion yr ardal a'r bobl leol? A wnaiff Llywodraeth Cymru hefyd ystyried datgan y dylai'r gymhareb prentisiaid fod yn seiliedig ar gyfanswm gwerth y contract yn hytrach na nifer y bobl a gyflogir yn lleol, i sicrhau bod cwmnïau’n cyflawni eu hymrwymiadau?

**The First Minister:** As a rule, it is the Welsh Government that procures construction work, rather than the Assembly. However, it is right to say that we have a community benefits initiative that is led by Value Wales, which supports the public sector in realising the additional benefits for communities from the procurement expenditure that is put in place. These community benefits focus on areas such as improving training, education, recruitment opportunities and supply-chain initiatives. A tool to measure the impact of community benefits is currently being piloted for introduction in the near future. In March of this year, the Minister for Finance wrote to all public-sector bodies in Wales encouraging the adoption of the community benefits approach.

**Y Prif Weinidog:** Fel rheol, Llywodraeth Cymru sy’n caffael gwaith adeiladu, yn hytrach na'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae'n iawn dweud bod gennym gynllun manteision cymunedol sy'n cael ei arwain gan Gwerth Cymru, sy'n cefnogi'r sector cyhoeddus i wireddu'r manteision ychwanegol i gymunedau o'r gwariant caffael sydd ar waith. Mae'r manteision cymunedol hyn yn canolbwyntio ar feysydd fel gwella hyfforddiant, addysg, cyfleoedd recriwtio a mentrau yn ymwneud â’r gadwyn gyflenwi. Mae offeryn i fesur effaith y buddion cymunedol yn cael ei dreialu ar hyn o bryd er mwyn ei gyflwyno yn y dyfodol agos. Ym mis Mawrth eleni, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid at holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn annog mabwysiadu'r dull o fanteision cymunedol.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, access to broadband and information technology is a critical component for businesses to be able to access tender documents and plan their

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, mae mynediad i fand eang a thechnoleg gwybodaeth yn elfen hanfodol er mwyn i fusnesau allu cael mynediad i ddogfennau

business profiling. Reports released today indicate that the contract that the Welsh Government was going to issue back in the spring to assist the roll-out of high-speed broadband in Wales has not been forthcoming. Are you in a position to say when that contract will be forthcoming and what will be the closing date for the tender?

tendro a chynllunio eu proffiliau busnes. Mae adroddiadau a gyhoeddwyd heddiw yn dangos nad yw’r contract yr oedd Llywodraeth Cymru yn mynd i’w roi yn ôl yn y gwanwyn i gynorthwyo'r broses o gyflwyno band eang cyflym yng Nghymru wedi dod i law. A ydych mewn sefyllfa i ddweud pryd y bydd y contract yn dod i law a beth fydd y dyddiad cau ar gyfer y tendr?

**The First Minister:** All that I can tell you is that we, as a Government, have a commitment in our manifesto to introduce next-generation broadband in Wales by 2015. That is something that we continue to press for, but it is important that we get a contract that provides value for money and delivers the kind of broadband speeds that we require.

**Y Prif Weinidog:** Y cyfan y gallaf ei ddweud yw ein bod ni, fel Llywodraeth, wedi ymrwymo yn ein maniffesto i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf yng Nghymru erbyn 2015. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn parhau i bwyso amdano, ond mae'n bwysig ein bod yn cael contract sy'n cynnig gwerth am arian ac yn darparu’r math o gyflymder band eang sydd ei angen arnom.

**Alun Ffred Jones:** Dros nifer o flynyddoedd, mewn ymdrech i gael gwell bargen, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gwthio llywodraeth leol i greu rhwydweithiau tendro, yn enwedig yn y meysydd cynnal tai, ffyrdd a gwelliannau amgylcheddol. O ganlyniad, mae llawer o gwmnïau lleol a llai eu maint yn methu hyd yn oed â dod yn rhan o’r rhwydweithiau hyn, felly mae llawer o’r gwaith hwn yn mynd y tu allan i Gymru, gyda cholled wedyn mewn arbenigedd ac mewn swyddi i gwmnïau lleol. A fyddech yn fodlon gwneud gwaith ymchwil i weld beth yw’r effaith ar y sector adeiladu yng Nghymru? Mae gen i deimlad bod perygl ein bod yn gwneud niwed mawr oherwydd ein bod, yn ddigon naturiol, yn ceisio cael y fargen orau. Mewn gwirionedd, mae hynny’n cael effaith andwyol ar gwmnïau a’r sector preifat yng Nghymru.

**Alun Ffred Jones:** Over a number of years, in an attempt to secure a better deal, the Assembly Government has been pushing local government to create tendering networks, especially in housing maintenance, roads and environmental improvements. As a result, many local and smaller companies are unable to even become part of these networks, with much of the work, therefore, going to companies outside Wales, resulting in a loss of expertise and jobs for local firms. Would you be prepared to undertake research into the effect on the construction sector in Wales? I have a feeling that there is a danger that we are doing great harm as a result of our wish, which is natural enough, to secure the best deal. That is, in reality, having a detrimental effect on companies and on the private sector in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae’r mater hwn wedi cael ei godi sawl gwaith yn y Siambr. Byddaf yn ystyried y mater unwaith eto ac yn ysgrifennu atoch ynglŷn â beth sy’n cael ei wneud i sicrhau bod mwy o gwmnïau bach yn gallu gwneud cais am gytundebau.

**The First Minister:** This issue has been raised several times in the Chamber. I will consider the issue once again and write to you with what is being done to ensure that more small companies are able to tender for contracts.

**Joyce Watson:** One of the other challenges facing the construction industry is the shortage of trade skills. The construction skills network forecasts that Wales will need over 4,000 new entrants every year between 2011 and 2015, so training is vital to the future of the industry. Does the First Minister

**Joyce Watson:** Un o'r heriau eraill sy'n wynebu'r diwydiant adeiladu yw prinder sgiliau crefft. Mae'r rhwydwaith sgiliau adeiladu yn rhagweld y bydd angen dros 4,000 o newydd-ddyfodiaid ar Gymru bob blwyddyn rhwng 2011 a 2015, felly mae hyfforddiant yn hanfodol i ddyfodol y

agree with me and the National Training Awards' judges that the shared apprenticeship scheme in Carmarthenshire is an excellent model for how to plug the skills gap? Since 2008, the Welsh Government scheme has been running in partnership with Coleg Sir Gâr, Carmarthenshire Construction Training Association Ltd and local construction companies. When it comes to an end next year, it will have trained 170 apprentices.

diwydiant. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi a beirniaid y Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol bod y cynllun prentisiaeth ar y cyd yn sir Gaerfyrddin yn fodel ardderchog ar gyfer sut i gau'r bwlch sgiliau? Ers 2008, mae cynllun Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhedeg mewn partneriaeth â Choleg Sir Gâr, Carmarthenshire Construction Training Association Cyf a chwmnïau adeiladu lleol. Pan ddaw i ben y flwyddyn nesaf, bydd wedi hyfforddi 170 o brentisiaid.

**The First Minister:** The shared apprenticeship scheme is an example of a made-in-Wales solution to issues facing employers in Wales, particularly in this sector. The pilot started in 2008 and has provided us with a clear idea of what works. We have mainstreamed this programme through our work-based learning delivery from 2011 onward.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cynllun prentisiaeth a rennir yn enghraifft o ddatrysiad Cymreig i faterion sy'n wynebu cyflogwyr yng Nghymru, yn enwedig yn y sector hwn. Dechreuodd y cynllun peilot yn 2008 ac mae wedi rhoi syniad clir i ni o'r hyn sy'n gweithio. Rydym wedi prif ffrydio'r rhaglen hon drwy ein darpariaeth dysgu yn y gwaith o 2011 ymlaen.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** During an interview with the BBC at the weekend, the Minister for Education and Skills admitted that the Government had taken its eye off the ball in relation to getting a robust measurement of pupils' performance. Could you explain to the Chamber how your Government plans to monitor and improve pupils' performance?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Mewn cyfweliad â'r BBC dros y penwythnos, cyfaddefodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau bod y Llywodraeth wedi colli golwg o ran sicrhau mesuriad cadarn o berfformiad disgyblion. A allech chi esbonio i'r Siambr sut y mae eich Llywodraeth yn bwriadu monitro a gwella perfformiad disgyblion?

**The First Minister:** We want to ensure that parents are able to understand how schools are operating. We are now looking at ways of ensuring that parents are able to understand how their children are doing and that we provide a holistic picture of how each school in Wales is doing, with a view to improving standards.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym am sicrhau bod rhieni yn gallu deall sut mae ysgolion yn gweithredu. Yr ydym yn awr yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod rhieni yn gallu deall sut mae eu plant yn perfformio a'n bod yn darparu darlun cyfannol o sut mae pob ysgol yng Nghymru yn perfformio, gyda golwg ar wella safonau.

**Kirsty Williams:** Thank you for that answer, First Minister. The Minister for education has suggested that a grading system for schools is the way forward, but said that he was not interested in crude and simplistic league tables. First Minister, could you explain to the Assembly the difference between league tables and the approach that you have just outlined?

**Kirsty Williams:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae'r Gweinidog addysg wedi awgrymu mai system raddio ar gyfer ysgolion yw'r ffordd ymlaen, ond dywedodd nad oedd ganddo ddiddordeb mewn tablau cynghrair crai a syml. Brif Weinidog, a allech egluro i'r Cynulliad y gwahaniaeth rhwng tablau cynghrair a'r dull gweithredu yr ydych newydd ei amlinellu?

**The First Minister:** League tables look simply at results. They are far too crude to be used as a measurement of how a school is doing, especially with regard to comparing it with schools that have a similar socioeconomic background. Therefore, the criteria that will be developed will be far more holistic and far broader, and will give a much better picture of how a school is performing.

**Y Prif Weinidog:** Mae tablau cynghrair yn edrych yn syml ar ganlyniadau. Maent yn llawer rhy amrwd i'w defnyddio i fesur sut mae ysgol yn ei wneud, yn enwedig o ran ei chymharu ag ysgolion sydd â chefndir economaidd-gymdeithasol tebyg. Felly, bydd y meini prawf a gaiff eu datblygu yn llawer mwy cyfannol ac yn llawer ehangach, ac yn rhoi darlun llawer gwell o sut mae ysgol yn perfformio.

**Kirsty Williams:** I welcome that, and I recognise the limitations of a league table that is based just on results. Could you therefore outline the elements of that holistic approach?

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn croesawu hynny, ac yr wyf yn cydnabod cyfyngiadau tabl cynghrair sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn unig. Felly, a allech amlinellu elfennau o'r dull cyfannol hwnnw?

**The First Minister:** That will be made clear over the next few weeks. The Government is considering the matter, and we hope to bring proposals and details before the Assembly very soon.

**Y Prif Weinidog:** Bydd hynny'n cael ei wneud yn glir yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Mae'r Llywodraeth yn ystyried y mater, ac rydym yn gobeithio cyflwyno cynigion a manylion gerbron y Cynulliad yn fuan iawn.

**Kirsty Williams:** It is clear that the Government knows what it is not in favour of, but it is less clear that it knows what it is in favour of.

**Kirsty Williams:** Mae'n amlwg fod y Llywodraeth yn gwybod beth nad yw hi o'i blaid, ond mae'n llai amlwg ei bod yn gwybod beth mae hi o'i blaid.

Finally, the Minister for education promised to

Yn olaf, addawodd y Gweinidog addysg i

'integrate PISA assessments into school assessment at 15'

'ymgorffori asesiadau PISA o fewn asesiadau ysgolion ar gyfer disgyblion 15 oed'

and to

ac i

'ask all schools to work with their year 8 and 9 students who will face PISA next time and work with them on their skills .'

'ofyn i bob ysgol i weithio gyda'u myfyrwyr blwyddyn 8 a 9 myfyrwyr a fydd yn wynebu PISA y tro nesaf a gweithio ar eu sgiliau gyda nhw.'

First Minister, as you know, the Programme for International Student Assessment assesses the application of knowledge, whereas GCSEs assess the acquisition of knowledge. Do you foresee that the Minister for education's new instructions will cause tension with regard to what teachers should be doing to meet their expectations? Which is more important to the Government, PISA or GCSEs?

Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yn asesu'r defnydd o wybodaeth, tra bod TGAU yn asesu'r modd o gaffael gwybodaeth. A ydych yn rhagweld y bydd cyfarwyddiadau newydd y Gweinidog addysg yn achosi tensiwn o ran yr hyn y dylai athrawon fod yn ei wneud i fodloni eu disgwyliadau? Pa un sydd fwyaf pwysig i'r Llywodraeth, PISA neu TGAU?

**First Minister:** Both are important. We want to make sure that pupils in Wales can excel at

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ddau yn bwysig. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod

whatever they do. The two are not mutually exclusive; they run together.

disgyblion yng Nghymru yn gallu rhagori yn beth bynnag maent yn ei wneud. Nid yw'r ddau yn gwbl annibynnol ar ei gilydd; maent yn rhedeg gyda'i gilydd.

**The Leader of the Opposition (Paul Davies):** First Minister, I have received several representations from constituents about lengthy waits at accident and emergency departments, and I had personal experience of that yesterday. My mother had to wait 12 hours in a wheelchair at an accident and emergency department before being given a bed. Is that acceptable in a twenty-first century health service?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Paul Davies):** Brif Weinidog, yr wyf wedi cael nifer o sylwadau gan etholwyr ynglŷn â chyfnodau hir o aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, a chefais brofiad personol o hynny ddoe. Bu'n rhaid i fy mam aros am 12 awr mewn cadair olwyn mewn adran ddamweiniau ac achosion brys cyn cael gwely. A yw hynny'n dderbyniol mewn gwasanaeth iechyd yn yr unfed ganrif ar hugain?

**The First Minister:** As we know, accident and emergency departments are benefiting from substantial investment—particularly capital investment—with a view to ensuring that they are of a sufficient size to admit people as quickly as possible.

**Y Prif Weinidog:** Fel y gwyddom, mae adrannau damweiniau ac achosion brys yn elwa o fuddsoddiad sylweddol—yn enwedig buddsoddiad cyfalaf—gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn ddigon o faint i drin pobl mor gyflym ag y bo modd.

**Paul Davies:** My mother's experience is not an isolated incident. The Welsh Labour Government sets a target of four hours for waiting times for treatment in accident and emergency departments. Your own figures show that you are failing to meet that target—in fact, you did not meet the target once during the third Assembly. What do you intend to do about it?

**Paul Davies:** Nid yw profiad fy mam yn ddigwyddiad ynysig. Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn pennu targed o bedair awr ar gyfer amseroedd aros am driniaeth mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae eich ffigurau eich hun yn dangos eich bod yn methu â chyrraedd y targed hwnnw—yn wir, ni wnaethoch gyrraedd y targed unwaith yn ystod y trydydd Cynulliad. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud am y peth?

**The First Minister:** We certainly know where doctors like to work: in Wales. They do not want to work in England. They see the shambles across the border, where GP services are being decimated. Doctors who work in the service understand full well that the NHS in Wales is in far better hands than the NHS in England.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn sicr yn gwybod lle mae meddygon yn hoffi gweithio: yng Nghymru. Nid ydynt eisiau gweithio yn Lloegr. Maent yn gweld yr annibendod sy'n bodoli ar draws y ffin, lle mae gwasanaethau meddygon teulu yn cael eu dinistrio. Mae meddygon sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn deall yn iawn bod y GIG yng Nghymru mewn dwylo llawer gwell na'r GIG yn Lloegr

**Paul Davies:** Let us stick to waiting lists, First Minister. When you became First Minister, there were 227,000 patients on NHS waiting lists; now, there are more than 341,000. That is an increase of 50 per cent under your watch. Do you accept that waiting lists are not improving and that they are, in fact, getting worse?

**Paul Davies:** Gadewch i ni gadw at restrau aros, Brif Weinidog. Pan ddaethoch yn Brif Weinidog, yr oedd 227,000 o gleifion ar restrau aros y GIG; yn awr, mae dros 341,000. Mae hynny'n gynnydd o 50 y cant o dan eich gwyliadwraeth. A ydych yn derbyn nad yw'r rhestrau aros yn gwella a'u bod, mewn gwirionedd, yn gwaethygu?

**The First Minister:** No. Let us have a look

**Y Prif Weinidog:** Nac ydw. Gadewch inni

at English waiting lists. The number of patients in England who wait longer than 36 weeks is 44,568, whereas the figure for Wales is 5,844. That is a far smaller number and percentage. With regard to those waiting over 52 weeks, there are 13,435 such patients in England, whereas there are 686 in Wales. In England, patients are having to wait longer and longer. We know what happens when Conservatives get their hands on health policy.

gael golwg ar restrau aros yn Lloegr. Mae nifer y cleifion yn Lloegr sy'n aros dros 36 wythnos yn 44,568, tra bod y ffigur ar gyfer Cymru yn 5,844. Mae hynny'n nifer a chanran llawer llai. O ran y rhai sy'n aros dros 52 wythnos, mae 13,435 o gleifion o'r fath yn Lloegr, tra bod 686 yng Nghymru. Yn Lloegr, mae cleifion yn gorfod aros yn hirach ac yn hirach. Rydym yn gwybod beth sy'n digwydd pan mae'r Ceidwadwyr yn cael gafael ar bolisi iechyd.

**Paul Davies:** The Government's own figures show that waiting times are increasing. In a letter obtained by the Welsh Conservatives, your own officials admit that the increase in the demand for services and the commitment in 'One Wales' to reducing the use of the private sector constrained capacity. In other words, your Government's policy has resulted in an increase in waiting times. First Minister, will you therefore consider using all means at your disposal, including the private sector, to reduce waiting times: yes or no?

**Paul Davies:** Mae ffigurau'r Llywodraeth ei hun yn dangos bod amseroedd aros yn cynyddu. Mewn llythyr a ddaeth i law'r Ceidwadwyr Cymreig, mae eich swyddogion eich hun yn cyfaddef bod y cynnydd yn y galw am wasanaethau a'r ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i leihau'r defnydd o'r sector preifat wedi cyfyngu ar gapasiti. Mewn geiriau eraill, mae polisi eich Llywodraeth wedi arwain at gynnydd mewn amseroedd aros. Brif Weinidog, a wnewch chi, felly, ystyried defnyddio pob dull sydd ar gael i chi, gan gynnwys y sector preifat, er mwyn lleihau amseroedd aros: gwnewch neu na wnewch?

**The First Minister:** GP commissioning is what we should have as far as the Conservatives are concerned. They are advocates for the private sector in the health service; that is all we see—they are not interested in public provision, but in private profit. We see what is happening to GP surgeries in England: companies will be coming in and running GPs' commissioning services and making a profit out of it. They have never been interested in public provision, only in private profit.

**Y Prif Weinidog:** Cyn belled ag y mae'r Ceidwadwyr yn y cwestiwn, dylem gael comisiynu gan feddygon teulu. Maent yn eiriolwyr ar ran y sector preifat yn y gwasanaeth iechyd; dyna'r cyfan a welwn—nid oes diddordeb ganddynt yn y ddarpariaeth gyhoeddus, ond mewn elw preifat. Rydym yn gweld yr hyn sy'n digwydd i feddygfeydd meddygon teulu yn Lloegr: bydd cwmnïau'n dod ac yn rhedeg gwasanaethau comisiynu meddygon teulu ac yn gwneud elw allan ohono. Ni fu ganddynt erioed ddiddordeb yn y ddarpariaeth gyhoeddus, dim ond mewn elw preifat.

1.45 p.m.

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** O edrych yn ôl ar eich datganiad yr wythnos diwethaf ar adolygu'r setliad ariannol, a allwch gadarnhau mai'r unig bethau yr ydych chi fel Llywodraeth yn gofyn amdanynt yw llawr Barnett a phwerau benthyca?

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** I have taken another look at the statement that you made last week on a review of the financial settlement. Can you now confirm that the only things that you as a Government are asking for are a Barnett floor and borrowing powers?

**Y Prif Weinidog:** Na, yr ydym am weld fformiwla Barnett yn cael ei hadolygu hefyd.

**The First Minister:** No, we also want to see a review of the Barnett formula. That is

Mae hynny'n rhywbeth y mae'r Trysorlys yn ei osgoi, ac mae'n rhywbeth y mae Llywodraeth yr Alban yn ei erbyn. Byddai'r llawr yn rhan o adolygiad o fformiwla Barnett, ond nid y cyfan ohono. Yr ydym yn ceisio pwerau benthyca hefyd a'r tri phŵer treth y soniais amdanynt yr wythnos diwethaf.

something that the Treasury is avoiding, and that the Scottish Government opposes. The floor would be considered as part of a review of the Barnett formula, but it would not be the whole story. We are also seeking borrowing powers and the three taxation powers that I mentioned last week.

**Ieuan Wyn Jones:** Deuwn yn ôl at y pwerau trethu hynny yn y man, achos maent mewn categori gwahanol gennych yn y datganiad a dyna pam yr oeddwn am eich holi ynglŷn â hynny.

**Ieuan Wyn Jones:** We will return to those taxation powers in a moment because they were in a different category in your statement and that is why I wanted to question you on those.

Gan ichi ddweud eich bod am weld adolygiad llwyr o fformiwla Barnett, mae'n bwysig ichi ddweud eich bod am i hynny ddigwydd yn awr, oherwydd yr oedd datganiad wythnos diwethaf yn dweud yn ddigon clir eich bod yn gofyn am lawr Barnett yn y tymor byr a bod yn rhaid i adolygiad llwyr o Barnett ddigwydd rywdro yn y dyfodol. A wnewch chi hi'n glir eich bod yn galw am adolygiad llwyr o Barnett yn awr?

As you said that you want to see a full review of the Barnett formula, it is important for you to make it clear that you want that to happen now, because last week's statement made it quite clear that you are seeking a Barnett floor in the short term and that a full review of Barnett should be undertaken at some point in the future. Will you make it clear that you are calling for a full review of Barnett now?

O edrych ar raglen gyfalaf y Llywodraeth, ym maes iechyd, er enghraifft, mae'r cyfalaf yn gostwng o'i hanner a mwy rhwng 2010 a 2014. Gwelir gostyngiad o dros £215 miliwn. Ni fyddai pwerau benthyca a llawr Barnett byth yn ddigon i lenwi'r bwlch sylweddol hwnnw. Bydd rhaid i chi felly ganslo cynlluniau i adeiladu ysbytai a chanolfannau iechyd. Os ydym i ymateb i'r toriadau enfawr, onid oes rhaid i chi fod yn fwy uchelgeisiol?

If we look at the Government's capital programme, in health, for example, the capital is to be reduced by more than 50 per cent between 2010 and 2014. There will be a reduction of over £215 million. Borrowing powers and a Barnett floor will never be enough to fill that significant gap. You will therefore have to cancel plans to build hospitals and health centres. If we are to respond to the swingeing cuts, do you not need to be more ambitious?

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf, yr wyf am weld yr arian: y £300 miliwn a ddylai, yn ôl comisiwn Holtham, ddod i Gymru. Os mai'r ffordd o sicrhau hynny yw cynnal adolygiad o fformiwla Barnett, bydd yn rhaid cael adolygiad o fformiwla Barnett. Nid wyf yn dweud bydd hynny'n beth rhwydd i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ei wneud, o gofio bod Llywodraeth yr Alban yn hollol yn erbyn unrhyw adolygiad o fformiwla Barnett. Rhaid cael adolygiad ac yr ydym ni yn y Cynulliad wedi gofyn amdano sawl gwaith, yn drawsbleidiol, ac nid yw'r sefyllfa wedi newid.

**The First Minister:** In the first place, I want to see the money: the £300 million that the Holtham commission said should come to Wales. If the way to ensure that is to have a review of the Barnett formula, we must have a review of the Barnett formula. I am not saying that it will be an easy thing for the UK Government to do, bearing in mind that the Scottish Government is completely opposed to any review of the Barnett formula. We should have a review and we have asked for it a number of times as an Assembly, on a cross-party basis, and the situation has not changed.

O ran pwerau benthyca, yr hyn sydd dan sylw ar hyn o bryd yw cael yr un pwerau ag sydd

On borrowing powers, what we are looking at currently are the same powers that Northern

gan Ogledd Iwerddon i fenthyca arian. Byddai cael y pwerau hynny'n golygu y byddai llawer mwy o arian ar gael i ni yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gallu symud ymlaen gyda phrosiectau mawr sydd o les i'n pobl.

Ireland has to borrow money. Having those powers would mean that a lot more money would be available to us in Wales to ensure that we were able to proceed with major projects that would benefit our people.

**Ieuan Wyn Jones:** Gwelaf eich bod yn newid ychydig ar y termau a oedd yn eich datganiad yr wythnos diwethaf, ac yr wyf yn croesawu hynny, yn naturiol. Yn y datganiad hwnnw, o ran y pedair treth a enwyd, gan gynnwys trethi tirlenwi a stamp tai, dywedasoch pe bai Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn eu cynnig y byddech yn fodlon eu hystyried. Dyna'ch geiriau. Felly, a ydych yn dweud erbyn hyn y byddwch yn galw am i'r trethi hynny gael eu trosglwyddo i Gymru neu eich bod yn aros i weld a fydd Llundain yn eu cynnig?

**Ieuan Wyn Jones:** I see that you have made a slight change to the terms that were mentioned in your statement last week, and I welcome that, naturally. In that statement, with regard to the four taxes that you mentioned, including landfill tax and stamp duty, you said that if the UK Government were to offer them, you would be willing to consider them. Those were your words. Therefore, are you now saying that you will be calling for those taxation powers to be transferred to Wales or that you are waiting to see whether London will offer them?

**Y Prif Weinidog:** Y sefyllfa yw y byddem yn derbyn pwerau dros y trethi hynny, ond mae'n hynod o bwysig eu bod yn dod fel rhan o becyn cynhwysfawr. Nid wyf am i ni yng Nghymru gael pŵer dros y trethi hynny heb yr arian yr ydym yn ei haeddu yn ôl casgliadau adroddiad comisiwn Holtham. Y sefyllfa yw y byddem yn fodlon i gael y pwerau dros y trethi hynny, ac yr wyf yn hapus iawn i ofyn amdanynt, ond mae'n bwysig nad yw mater y trethi hynny yn cael ei ystyried heb y pecyn cynhwysfawr.

**The First Minister:** The position is that we would accept those taxation powers, but it is extremely important that they are devolved as part of a complete package. I do not want us in Wales to have those taxation powers without receiving the money that we deserve according to the findings of the Holtham commission. The situation is that we would be willing to have those taxation powers, and I would be very happy to ask for them, but it is important that the question of taxation should not considered without consideration of a comprehensive package.

**Ieuan Wyn Jones:** Ni chredaf fod gwahaniaeth barn rhyngom o ran y ffaith bod yn rhaid cael y ddau beth. Mae'n rhaid cael setliad ariannol, sy'n golygu bod adolygiad o fformiwla Barnett yn angenrheidiol, a rhaid cael y pwerau trethiannol ar yr un pryd. Ond mae'n anghyson â'ch datganiad yr wythnos diwethaf, pan ddywedasoch eich bod am gael pwerau benthyca, eich bod am weld adolygiad o lawr Barnett, ond nad ydych am ystyried y trethi eraill, gan gynnwys y dreth gorfforaeth, oni bai bod Llundain yn eu cynnig. Mae gwahaniaeth sylfaenol yn eich datganiad eich hun. Os ydych yn dweud eich bod yn fodlon gofyn am y rheini, ac nid disgwyl i Lundain eu cynnig, byddai hynny yn cryfhau eich dwylo a byddai gennych llawer iawn mwy o gefnogaeth gonsensws ar draws y Siambr. A wnewch ddatgan yn glir y byddwch, pan fyddwch yn trafod â David

**Ieuan Wyn Jones:** I do not believe that there is a difference of opinion between us on the fact that we need both things. We must have a financial settlement, which means that a review of the Barnett formula is essential, and we must also have taxation powers at the same time. However, that is inconsistent with the statement that you made last week, when you said that you wanted borrowing powers and a review of the Barnett floor, but that you would only want to consider the other taxes, including corporation tax, if London offered them to us. There is a fundamental difference in your own statement. If you are saying that you are willing to ask for those powers, and not wait for London to offer them, that would strengthen your hand and you would have much more consensual support across the Chamber. Will you state clearly that, when you enter negotiations with David Cameron

Cameron a George Osborne, yn gofyn am yr hawliau hyn, ac nid yn disgwyl iddynt eu cynnig?

and George Osborne, you will ask for those rights and not wait for them to offer them?

**Y Prif Weinidog:** Ni fyddaf yn gofyn am y fath hawliau heb gael gwarant ynghylch y cyllid i gyd-fynd â hwy yn rhan o'r pecyn. Nid wyf am fod mewn sefyllfa lle byddai'r pwerau'n cael eu trosglwyddo heb becyn ariannu cynhwysfawr—nid wyf yn credu y byddai unrhyw un eisiau hynny. Barn y Llywodraeth yw na fyddem yn edrych am bwerau dros dreth incwm; yr ydym wedi dweud hynny sawl gwaith. Yr wyf yn amheugar iawn ynglŷn â threth gorfforaethol, ond gan ei fod yn cael ei chynnig i Ogledd Iwerddon, mae'n rhaid i Gymru ei hystyried. O ran y pedwar treth arall y soniais amdanynt yr wythnos diwethaf, byddem yn ddigon parod i gymryd pwerau dros y trethi hynny fel rhan o becyn cynhwysfawr. Wrth gwrs, byddem barod i siarad am ba ffordd y byddai'r trethi hynny yn cael eu datganoli i Gymru.

**The First Minister:** I will not request such rights without guarantees about the funding to accompany them as part of a package. I do not want to be in a situation where those powers were to be transferred without a comprehensive funding package—I do not think that anyone would want that. The Government's view is that we would not seek income tax varying powers; we have said that many times. I am very sceptical about corporation tax varying powers, but because they are being offered to Northern Ireland, Wales must consider them. On the other four taxes that I mentioned last week, we would be more than willing to take powers over those taxes as part of a comprehensive package. Of course, we would be willing to discuss how those taxes could be devolved to Wales.

### Y GIG

### NHS

***3. Darren Millar:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y GIG yn ystod tymor hwn y Cynulliad. OAQ(4)0063(FM)*

***3. Darren Millar:*** *Will the First Minister outline his priorities for the NHS for the forthcoming Assembly term. OAQ(4)0063(FM)*

**The First Minister:** Our priorities for this Government include improving access to GP surgeries in evenings and on Saturdays, instigating annual health checks for the over 50s, improving cancer, cardiac and stroke services and children's health, improving ambulance response times and working to reduce the number of people who visit emergency departments unnecessarily.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein blaenoriaethau ni ar gyfer y Llywodraeth hon yn cynnwys gwella mynediad i feddygfeydd meddygon teulu gyda'r nos ac ar ddydd Sadwrn, cychwyn archwiliadau iechyd blynyddol i bobl dros 50 oed, gwella gwasanaethau canser, cardiaidd a strôc ac iechyd plant, gwella amseroedd ymateb ambiwlansys, a gweithio i leihau nifer y bobl sy'n ymweld ag adrannau achosion brys yn ddiangen.

**Darren Millar:** Thank you for that answer, First Minister. There is mounting concern in north Wales regarding the attitude of the Welsh Government towards cross-border NHS services. You will be aware that many patients from north Wales receive services at specialist treatment centres over the border in the north-west of England and elsewhere. However, not only did the previous Minister for health seek to force patients from north Wales to travel south for neurological treatment—an idea that I am glad to say was

**Darren Millar:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae pryder cynyddol yn y gogledd ynghylch ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at wasanaethau trawsffiniol y GIG. Byddwch yn ymwybodol bod llawer o gleifion o ogledd Cymru yn derbyn gwasanaethau mewn canolfannau triniaeth arbenigol dros y ffin yng ngogledd-orllewin Lloegr ac mewn mannau eraill. Fodd bynnag, nid yn unig oedd y Gweinidog iechyd blaenorol yn ceisio gorfodi cleifion o ogledd Cymru i deithio i'r de ar gyfer

dropped—but there is now talk of an all-Wales blood service, rather than a continuation of the current arrangement, which works well between the north-west of England and north Wales. Worse than that, I have a copy of a letter from the Department of Health, Social Services and Children, which notes that—

triniaeth niwrolegol—syniad, yr wyf yn falch o ddweud, y rhoddwyd y gorau iddo—ond mae sôn yn awr am wasanaeth gwaed Cymru gyfan, yn hytrach na pharhad o’r trefniant presennol, sy’n gweithio’n dda rhwng gogledd-orllewin Lloegr a gogledd Cymru. Yn waeth na hynny, mae gennyf gopi o lythyr gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, sy’n nodi bod—

**The Presiding Officer:** Order. Is the question in the quote?

**Y Llywydd:** Trefn. A yw’r cwestiwn yn y dyfyniad?

**Darren Millar:** It notes that the repatriation of Welsh patients from England is adding to waiting lists in Wales. Given that that seems to be the official line from the department for health, what assurances can you give to patients in north Wales and elsewhere in the country who rely on cross-border services that you are not going to draw a slate curtain along the Welsh border?

**Darren Millar:** Mae’n nodi bod dychweliad cleifion Cymru o Loegr yn ychwanegu at restrau aros yng Nghymru. O gofio ei bod yn ymddangos mai dyna linell swyddogol yr adran iechyd, pa sicrwydd y gallwch ei roi i gleifion yng ngogledd Cymru ac mewn mannau eraill yn y wlad sy’n dibynnu ar wasanaethau trawsffiniol nad ydych yn mynd i dynnu llen o lechi ar hyd ffin Cymru?

**The First Minister:** It is not our intention to do so. We realise that there are people in north-east Wales in particular, but not just in the north-east, who rely on hospital services in England. That remains the case. There is not a plan to force people to travel great distances to get acute treatment or treatment that is best delivered closer to them, whether that treatment is in England or in Wales. It is also important to realise that we are doing well in Wales in terms of referring our patients to treatment. The last thing that we would want to do is to force our people to travel to England to get medical treatment because we know that, in those circumstances, they would have to wait a lot longer. The Welsh health service is far better placed to deliver services for some people in Wales, although we recognise that there are many people in the north-east who will still have to travel to England for their treatment. However, they will also have to suffer longer waiting times because of the policies of the UK Government.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw’n fwriad gennym wneud hynny. Rydym yn sylweddoli bod pobl yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn benodol, ond nid yn unig yn y gogledd-ddwyrain, sy’n dibynnu ar wasanaethau ysbytai yn Lloegr. Erys hynny’n wir. Nid oes cynllun i orfodi pobl i deithio pellteroedd mawr i gael triniaeth acíwt neu driniaeth y mae’n well ei darparu yn nes atynt, boed y driniaeth honno yn Lloegr neu yng Nghymru. Mae hefyd yn bwysig sylweddoli ein bod yn gwneud yn dda yng Nghymru o ran cyfeirio ein cleifion i gael triniaeth. Y peth olaf y byddem am ei wneud yw gorfodi ein pobl i deithio i Loegr i gael triniaeth feddygol oherwydd gwyddom, yn yr amgylchiadau hynny, y byddai’n rhaid iddynt aros yn hirach o lawer. Mae gwasanaeth iechyd Cymru mewn sefyllfa well o lawer i ddarparu gwasanaethau i rai pobl yng Nghymru, er y cydnabyddwn nad oes llawer o bobl yn y gogledd-ddwyrain a fydd yn dal yn gorfod teithio i Loegr i gael eu triniaeth. Fodd bynnag, byddant hefyd yn gorfod dioddef amseroedd aros hirach oherwydd polisïau Llywodraeth y DU.

**Sandy Mewies:** First Minister, as you have already mentioned, the British Medical Association Cymru, which is meeting in Cardiff, has surveyed more than 5,000 doctors on whether they would prefer to work

**Sandy Mewies:** Brif Weinidog, fel yr ydych eisoes wedi crybwyll, mae Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru, sydd yn cwrdd yng Nghaerdydd, wedi holi mwy na 5,000 o feddygon a fyddai’n well ganddynt weithio

in Wales or England. Eighty-six per cent of the 5,000 said loud and clear that they are glad to be in Wales. One of the key reasons for that is that Welsh Governments have reduced the role played by the private sector in the NHS and therefore issues around the purchaser-provider split do not rise here, unlike in England, where the NHS is focused on the marketplace and the provision of service is all about competition. Do you agree that our policy in Wales has been firmly backed in the recent elections by patients and that we now have the word of practitioners to say that our principles are correct and that we should continue this way, now and in the future?

yng Nghymru neu yn Lloegr. Dywedodd 86 y cant o'r 5,000 yn uchel ac yn glir eu bod yn falch o fod yng Nghymru. Un o'r prif resymau dros hynny yw bod Llywodraethau Cymru wedi lleihau'r rôl a chwaraeir gan y sector preifat yn y GIG, ac felly nid yw materion yn ymwneud â'r rhaniad prynwr-darparwr yn codi yma, yn wahanol i Loegr, lle mae'r GIG yn canolbwyntio ar y farchnad ac mae darparu gwasanaeth yn ymwneud yn llwyr â chystadleuaeth. A ydych yn cytuno y cefnogwyd ein polisi yng Nghymru yn yr etholiadau diweddar gan gleifion a bod gennym bellach air yr ymarferwyr i ddweud bod ein hegwyddorion yn gywir ac y dylem barhau fel hyn, yn awr ac yn y dyfodol?

**The First Minister:** It is quite clear that the BMA Cymru survey that came out this week found that Welsh doctors are glad to be practising medicine in Wales, in light of the proposed reforms to the NHS in England. It shows, of course, what would happen in Wales if the Tories ever got their hands on the NHS. Luckily, the people of Wales have a lot more sense than that.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n eithaf clir bod arolwg BMA Cymru a ddaeth allan yr wythnos hon yn dangos bod meddygon Cymru yn falch i fod yn ymarfer meddygaeth yng Nghymru, yng ngoleuni'r diwygiadau arfaethedig i'r GIG yn Lloegr. Mae'n dangos, wrth gwrs, beth fyddai'n digwydd yng Nghymru pe bai'r Torïaid fyth yn cael eu dwylo ar y GIG. Yn ffodus, mae gan bobl Cymru lawer mwy o synnwyr na hynny.

**Elin Jones:** Brif Weinidog, mae'r byrddau iechyd yn ystyried ad-drefnu gwasanaethau mamolaeth ar hyn o bryd. A ydych yn credu y dylai ysbytai cyffredinol yng Nghymru gadw eu gwasanaethau mamolaeth wedi'u harwain gan ymgynghorwyr?

**Elin Jones:** First Minister, the health boards are looking to reorganise maternity services at present. Do you believe that general hospitals in Wales should retain their consultant-led maternity services?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig dros ben bod pob gwasanaeth yn cael ei gyflenwi mor lleol ag sy'n bosibl. Wrth gwrs, mae hynny'n wir am bob math o wasanaeth iechyd yng Nghymru.

**The First Minister:** It is exceptionally important that every service is delivered as locally as possible. Of course, that is true of every kind of health service in Wales.

**Julie Morgan:** Can the First Minister confirm that, despite the cuts imposed by Westminster, the investment in Velindre hospital in Cardiff North in new linear accelerators to improve the life chances of cancer patients in south, west and mid Wales will continue on schedule?

**Julie Morgan:** A all y Prif Weinidog gadarnhau, er gwaethaf y toriadau a orfodwyd gan San Steffan, y bydd y buddsoddiad yn Ysbyty Felindre yng Ngogledd Caerdydd mewn cyflymyddion unionlin newydd i wella cyfleoedd bywyd cleifion â chanser yn y de, gorllewin a chanolbarth Cymru yn parhau ar amser?

**The First Minister:** Yes, it is right to say that the Velindre NHS Trust is currently developing outline proposals for the redevelopment of the Velindre site, which will include additional linear capacity and the

**Y Prif Weinidog:** Ydy, mae'n iawn i ddweud bod Ymddiriedolaeth GIG Felindre wrthi'n datblygu cynigion amlinellol ar gyfer ailddatblygu safle Felindre, a fydd yn cynnwys capasiti unionlin ychwanegol ac

redevelopment of current linear accelerators once they reach the end of their useful life. Government funding will be made available upon approval of the necessary business case.

ailddatblygu cyflymyddion unionlin cyfredol unwaith iddynt gyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol. Bydd cyllid gan y Llywodraeth ar gael ar gymeradwyaeth yr achos busnes angenrheidiol.

**William Powell:** First Minister, throughout Mid and West Wales, ambulance response times are consistently below the targets set by your Government. I appreciate that, throughout rural Wales, we face particular challenges that pose extra difficulties. However, those are, nevertheless, challenges that need to be met. What does your Government propose to do to improve the situation with respect to ambulance response times?

**William Powell:** Brif Weinidog, ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn gyson yn is na'r targedau a bennwyd gan eich Llywodraeth. Sylweddolaf, ledled Cymru wledig, ein bod yn wynebu heriau penodol sy'n peri anawsterau ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r rheini, serch hynny, yn heriau y mae angen eu bodloni. Beth y mae'ch Llywodraeth chi'n bwriadu ei wneud i wella'r sefyllfa o ran amseroedd ymateb ambiwlansys?

**The First Minister:** We are looking to improve the ambulance response times, of course. However, that also means that we have to ensure that accident and emergency departments are able to receive people more quickly. That is being done through the capital investment that has been proposed for a number of hospitals over the next few years, despite the cuts that are being imposed by the UK Government.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn edrych i wella amseroedd ymateb ambiwlansys, wrth gwrs. Fodd bynnag, mae hynny hefyd yn golygu bod yn rhaid inni sicrhau y gall adrannau damweiniau ac achosion brys dderbyn pobl yn gyflymach. Gwneir hynny drwy'r buddsoddiad cyfalaf a gynigiwyd ar gyfer nifer o ysbytai dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, er gwaethaf y toriadau a orfodir gan Lywodraeth y DU.

**Lynne Neagle:** First Minister, yesterday, the Health Protection Agency issued a warning to all parents to ensure that their children have received the measles, mumps and rubella vaccine. This follows a significant increase in the number of measles cases in Wales. As you know, in previous years, the Welsh Government has initiated a number of MMR uptake campaigns. However, in view of the fact that MMR uptake rates remain at 87 per cent in Wales, well below the 95 per cent needed to deliver herd immunity to children, will you discuss this with the Minister for Health and Social Services to see whether there is any urgent action that the Welsh Government can take on this matter?

**Lynne Neagle:** Brif Weinidog, ddoe, cyhoeddodd yr Asiantaeth Diogelu Iechyd rybudd i bob rhiant i sicrhau bod eu plant wedi derbyn y brechlyn ar gyfer y frech goch, clwy'r pennau a rwbela. Mae hyn yn dilyn cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o frech goch yng Nghymru. Fel y gwyddoch, mewn blynyddoedd blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn nifer o ymgyrchoedd i annog pobl i dderbyn MMR. Fodd bynnag, o gofio'r ffaith bod cyfraddau brechu MMR ar 87 y cant yng Nghymru, ymhell islaw'r 95 y cant sydd ei angen i ddarparu imiwnedd i blant, a wnewch chi drafod hyn gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i weld a oes unrhyw gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd ar y mater hwn?

**The First Minister:** We continue to inform parents that the MMR vaccine is the best way to protect their children from those three illnesses. That much is true. We also need to ensure, and we are ensuring, that GP surgeries pass this information on to parents,

**Y Prif Weinidog:** Parhawn i hysbysu rhieni mai'r brechlyn MMR yw'r ffordd orau i amddiffyn eu plant rhag y tri afiechyd hynny. Mae hynny'n wir. Mae hefyd angen inni sicrhau, ac rydym yn sicrhau, bod meddygfeydd meddygon teulu yn pasio'r

given the fact that the so-called scare about the MMR vaccine was always groundless, whipped up entirely by the media without any basis in science. That is sad, but it is so important that we ensure that more parents take up the MMR vaccine for their children.

wybodaeth hon i rieni, o gofio'r bod yr ofn honedig ynglŷn â'r brechlyn MMR yn ddi-sail, wedi'i greu gan y cyfryngau heb unrhyw sail wyddonol. Mae hynny'n drist, ond mae'n bwysig felly ein bod yn sicrhau bod mwy o rieni'n manteisio ar y brechlyn MMR i'w plant.

**Cronfeydd Ynni Naturiol**

**Natural Energy Reserves**

***4. Julie James:*** *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i fanteisio ar gronfeydd ynni naturiol yn Ne Cymru. OAQ(4)0061(FM)*

***4. Julie James:*** *What plans does the Welsh government have to exploit natural energy reserves in South Wales. OAQ(4)0061(FM)*

**The First Minister:** The provision of secure and diverse sources of energy is a key aim of our energy policy statement, 'A Low Carbon Revolution'. The safe, clean and environmentally responsible development of our renewable, coal and gas resources has its place in this.

**Y Prif Weinidog:** Y ddarpariaeth o ffynonellau diogel ac amrywiol o ynni yw un o nodau allweddol ein datganiad polisi ynni, 'Chwyldro Carbon Isel'. Mae gan ddatblygiad diogel, glân ac amgylcheddol gyfrifol o'n hadnoddau adnewyddadwy, glo a nwy le yn hyn.

**Julie James:** Thank you for that, First Minister. As there are potentially £70 billion-worth of gas reserves under south Wales, has the UK Government made any representations to the Welsh Government with regard to developing a policy framework for shale gas in Wales? I am sure that the First Minister agrees with me that any resulting financial boost to the Welsh economy, infrastructure and potential jobs would be very welcome. Will the First Minister also agree that any UK policy consultation or Government review should consider Wales's proud record of sustainable development and environmental protection and the fact that any exploitation of these resources should put the best interests of Wales first?

**Julie James:** Diolch ichi am hynny, Brif Weinidog. Gan fod gwerth, o bosibl, £70 biliwn o gronfeydd nwy o dan dde Cymru, a yw Llywodraeth y DU wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Lywodraeth Cymru o ran datblygu fframwaith polisi ar gyfer nwy siâl yng Nghymru? Yr wyf yn siŵr bod y Prif Weinidog yn cytuno â mi y byddai unrhyw hwb ariannol canlyniadol i economi, seilwaith a swyddi posibl yng Nghymru i'w groesawu'n fawr. A wnaiff y Prif Weinidog hefyd gytuno y dylai unrhyw ymgynghoriad polisi gan y DU neu adolygiad Llywodraeth ystyried record falch Cymru o ddatblygu cynaliadwy ac amddiffyniad yr amgylchedd a'r ffaith y dylai unrhyw ymelwa ar yr adnoddau hyn roi buddiannau gorau Cymru yn gyntaf?

**The First Minister:** The licensing of shale gas operations is a matter for the UK Government. With regard to planning, it is a matter primarily for local authorities through the planning application process. However, it is absolutely clear that any kind of development of new technology has to be done in the most environmentally sensitive way. Of course, the Environment Agency has a strong role to play in ensuring that that is done.

**Y Prif Weinidog:** Mae trwyddedu gweithrediadau nwy siâl yn fater i Lywodraeth y DU. O ran cynllunio, mae'n fater, yn bennaf, i awdurdodau lleol drwy'r broses ceisiadau cynllunio. Fodd bynnag, mae'n gwbl glir bod yn rhaid i unrhyw fath o ddatblygiad technoleg newydd gael ei wneud yn y ffordd fwyaf amgylcheddol sensitif. Wrth gwrs, mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd rôl gref i'w chwarae i sicrhau bod hynny yn cael ei wneud.

**Russell George:** One of the issues that I

**Russell George:** Mae un o'r materion yr

would like to pick up on, First Minister, relates to your written statement on planning for renewable energy in Wales. You are clearly standing by TAN 8 in its present form, and you are committed to preventing the expansion of windfarms beyond the strategic search areas. You state in your statement that developer interest in those SSAs has now greatly exceeded the indicative figures set out in the TAN 8 guidance. When was the Government made aware that capacity levels in specific SSAs had been exceeded?

hoffwn fynd ar ei drywydd, Brif Weinidog, yn ymwneud â'ch datganiad ysgrifenedig ar gynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Rydych yn amlwg yn glynu wrth nodyn cyngor technegol 8 yn ei ffurf bresennol, ac rydych wedi ymrwymo i atal ehangu ffermydd gwynt y tu hwnt i'r ardaloedd chwilio strategol. Yr ydych yn dweud yn eich datganiad bod diddordeb datblygwyr mewn ardaloedd chwilio strategol yn awr lawer iawn yn uwch na'r ffigurau dangosol a nodir yng nghanllawiau TAN 8. Pryd gafodd y Llywodraeth ei wneud yn ymwybodol bod lefelau capasiti mewn ardaloedd chwilio strategol penodol wedi cael eu rhagori?

2.00 p.m.

**The First Minister:** That is a matter for the UK Government. Over the past week, after much provocation—although it eventually got there—it has stated clearly that responsibility for energy consents is not devolved, and that national policy statements will be the sole planning guidance for large windfarm developments in Montgomeryshire and elsewhere. It is quite clear that, as a result of that national policy statement, there will be no limit on the number of windfarms that can be built in Wales, nor will there be a limit on where they can be built. The national policy statement has completely overridden TAN 8. I greatly regret the fact that one arm of Government in London is telling developers that it fully supports them, while another arm of Government in London claims that windfarms are all the fault of the Welsh Government. It is about time that the UK Government took responsibility for this, considering that it is an area that is not devolved.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n fater i Lywodraeth y DU. Dros yr wythnos ddiwethaf, ar ôl llawer o bryfocio—er iddo gyrraedd yn y pen draw—mae wedi datgan yn glir nad yw cyfrifoldeb am gydsyniadau ynni wedi'i ddatganoli, ac mai datganiadau polisi cenedlaethol fydd yr unig ganllawiau cynllunio ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt mawr yn Sir Drefaldwyn ac mewn mannau eraill. Mae'n eithaf amlwg, o ganlyniad i'r datganiad polisi cenedlaethol hwnnw, na fydd terfyn ar nifer y ffermydd gwynt y gellir eu hadeiladu yng Nghymru, ac na fydd cyfyngiad ar ble y gallant gael eu hadeiladu. Mae'r datganiad polisi cenedlaethol wedi disodli TAN 8 yn llwyr. Yr wyf yn gresynu'n fawr fod un fraich o Lywodraeth yn Llundain yn dweud wrth ddatblygwyr ei fod yn eu cefnogi yn llawn, tra bod braich arall o Lywodraeth yn Llundain yn honni mai bai Llywodraeth Cymru yw'r holl ffermydd gwynt. Mae'n hen bryd i Lywodraeth y DU gymryd cyfrifoldeb am hyn, o ystyried ei fod yn faes nad yw wedi'i ddatganoli.

**Bethan Jenkins:** Mae fy nghwestiwn yn cyfeirio'n ôl at yr hyn a ddywedodd Julie James am nwy siâl a methan gwely glo. Mae ceisiadau wedi'u cyflwyno yn ardal Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, ac mae llawer o bobl leol yn darganfod nad ydynt yn deall yr hyn sy'n digwydd. Mae hon yn dechnoleg newydd i Gymru ond nid yw'n dechnoleg newydd i leoedd fel America. A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud o

**Bethan Jenkins:** My question refers back to what Julie James said about shale gas and coal-bed methane. Applications have been made in the Ogmore and Neath Port Talbot area, and many local people find that they do not understand what is happening. It is new technology in Wales, but it is not new technology in places like America. Is there anything that the Welsh Government could do in terms of providing planning advice to

ran rhoi cyngor cynllunio i awdurdodau lleol nad ydynt yn siŵr, ar hyn o bryd, beth i'w wneud â'r ceisiadau a ddaw i law, er mwyn iddynt drafod â phobl leol yr hyn sy'n fuddiol iddynt?

local authorities that do not quite know what to do with the applications that they receive, so that they can discuss with local people what is most beneficial to them?

**Y Prif Weinidog:** Mae canllawiau ar gael ar hyn o bryd fel rhan o bolisi cynllunio Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhan o unrhyw gais a wneir i awdurdodau lleol, er mwyn mynegi barn ar y ceisiadau hynny.

**The First Minister:** There is guidance in place at present within the Wales planning policy. However, it is very important that the Environment Agency should be part of any application made to local authorities, so that it can express its views on those applications.

**Trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

**Discussions with the Secretary of State**

***5. Peter Black:*** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch economi Cymru. OAQ(4)0062(FM)*

***5. Peter Black:*** *What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales about the Welsh economy. OAQ(4)0062(FM)*

**The First Minister:** I have regular discussions with the Secretary of State for Wales on a range of matters, including the Welsh economy.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ystod o faterion, gan gynnwys yr economi Gymreig.

**Peter Black:** Thank you for that answer, First Minister. You know, of course, that the Welsh Government does not hold all the tools in terms of the economy. Many of those tools are held at Westminster, as is reflected in the discussions currently taking place between the Welsh Government and the UK Government regarding matters like corporation tax, fiscal responsibility and so on—all of which can be used to help to bolster the Welsh economy if used correctly in the future. Given the importance of getting that message across to the UK Government, do you not think that it is important that we should engage at every possible level? Do you not regret the decision of your Minister for Business, Enterprise, Technology and Science not to give evidence to the Welsh Affairs Committee, where she could have used the opportunity to put the case for Wales to have those additional powers and responsibilities to deliver on a more prosperous economy?

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Rydych yn gwybod, wrth gwrs, nad yw Llywodraeth Cymru yn dal yr holl arfau o safbwynt yr economi. Mae llawer o'r arfau hwnnw yn cael eu cynnal yn San Steffan, fel yr adlewyrchir yn y trafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â materion fel y dreth gorfforaeth, cyfrifoldeb ariannol ac yn y blaen—pob un ohonynt y gellir eu defnyddio i helpu i atgyfnerthu economi Cymru os y'u defnyddir yn gywir yn y dyfodol. O ystyried pwysigrwydd cyfleu'r neges i Lywodraeth y DU, onid ydych yn meddwl ei bod yn bwysig inni gymryd rhan ar bob lefel posib? Onid ydych yn gresynu penderfyniad eich Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i beidio â rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig, lle y gallai fod wedi defnyddio'r cyfle i roi'r achos dros roi'r pwerau a'r cyfrifoldebau ychwanegol hynny i Gymru er mwyn sicrhau economi fwy llewyrchus?

**The First Minister:** You are right to say that we need those powers. It would be wholly wrong for any announcement about a Calman-style commission to focus narrowly

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn gywir i ddweud bod arnom angen y pwerau hynny. Byddai'n gwbl anghywir i unrhyw gyhoeddiad ynghylch comisiwn tebyg i

and simply on the question of funding. Clearly, that would not be right. It is important to continue to meet with UK Government Ministers. I will be meeting with the Chancellor next week, and the Prime Minister the following week. These points will be made to both of them, so that we can ensure that a discussion starts in order that we can deliver a full financial package for Wales.

Calman i ganolbwyntio'n gul ac yn syml ar y cwestiwn o gyllid. Yn amlwg, ni fyddai hynny'n iawn. Mae'n bwysig parhau i gwrdd â Gweinidogion Llywodraeth y DU. Byddaf yn cyfarfod â'r Canghellor yr wythnos nesaf, a'r Prif Weinidog yr wythnos ganlynol. Bydd y pwyntiau hyn yn cael eu gwneud i'r ddau ohonynt, fel y gallwn sicrhau bod trafodaeth yn dechrau er mwyn i ni ddarparu pecyn ariannol llawn i Gymru.

**Nick Ramsay:** I am sure that you would agree, First Minister, that we need to grow the private sector, over time, if we are to see more jobs and more prosperity in order that we have more money to spend on the things that we want in Wales. During your discussions with the Secretary of State, and with colleagues at the UK Government level, what discussions have you had regarding policies on issues such as enterprise zones, which will clearly be beneficial to the English economy over time? Do you agree that, if we do not have similar schemes in Wales over the months and years to come, we will inevitably fall behind England in terms of providing greater private sector jobs?

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno, Brif Weinidog, bod angen i ni dyfu'r sector preifat, dros gyfnod o amser, os ydym am weld mwy o swyddi a mwy o ffyniant fel bod gennym fwy o arian i'w wario ar y pethau yr ydym eu heisiau yng Nghymru. Yn ystod eich trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, a chyda chydweithwyr ar lefel Llywodraeth y DU, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ynghylch polisïau ar faterion megis ardaloedd menter, a fydd yn amlwg o fudd i economi Lloegr dros gyfnod o amser? A ydych yn cytuno, os nad oes gennym gynlluniau tebyg yng Nghymru dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, byddwn yn anochel yn disgyn y tu ôl i Loegr o ran darparu mwy o swyddi yn y sector preifat?

**The First Minister:** We are examining the issue of enterprise zones, particularly regarding having clustered enterprise zones in some parts of Wales. However, we should be careful about trying to make the case that, somehow, enterprise zones are the answer. We believe that the consequential for us is approximately £5 million, which is less than a third of the money allocated to Cardiff Council for the development of the central business district of Cardiff. This is not big money that Wales will have, but we will look to see how we can best utilise that money for the economic benefit of our people.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn edrych ar y mater o barthau menter, yn enwedig o ran cael parthau menter wedi'u clystyru mewn rhai rhannau o Gymru. Fodd bynnag, dylem fod yn ofalus ynghylch ceisio gwneud yr achos, rywsut, mai parthau menter yw'r ateb. Rydym yn credu mai'r dyraniad canlyniadol i ni yw tua £5 miliwn, sy'n llai na thraean o'r arian a ddyrannwyd i Gyngor Caerdydd ar gyfer datblygu ardal fusnes canolog Caerdydd. Nid yw hyn yn arian mawr i Gymru, ond byddwn yn edrych i weld sut y gallwn ddefnyddio'r arian hwnnw orau er lles economaidd ein pobl.

**Jocelyn Davies:** You mentioned earlier that powers over corporation tax were being offered to Northern Ireland. It has been estimated that, if the rate was reduced to 12.5 per cent, it could result in the creation of 58,000 new jobs by 2030. To assist your discussions with the Secretary of State, has your Government produced an estimate of the possible value to our economy of exercising the powers over corporation tax?

**Jocelyn Davies:** Yr oeddech yn sôn yn gynharach fod pwerau dros dreth gorfforaeth yn cael eu cynnig i Ogledd Iwerddon. Mae wedi cael ei amcangyfrif os yw'r gyfradd yn gostwng i 12.5 y cant, y gallai arwain at 58,000 o swyddi newydd erbyn 2030. I gynorthwyo eich trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, a yw eich Llywodraeth wedi cynhyrchu amcangyfrif o'r gwerth posibl i'n heconomi o arfer y pwerau dros y dreth gorfforaeth?

**The First Minister:** If Northern Ireland reduces its corporation tax rate to 12.5 per cent, it could take an immediate hit of £350 million per annum in the block grant that it receives from Westminster. Some studies suggest that it would take about 20 years for that money to be made up. So, an argument can be made that a cut in corporation tax means more jobs, but it is also not clear how long it would take to create those jobs and for the money to be recouped. However, we know that there would be an immediate hit in the block grant of any devolved administration that could not easily be made up quickly.

**Y Prif Weinidog:** Pe bai Gogledd Iwerddon yn lleihau ei gyfradd treth gorfforaeth i 12.5 y cant, gallai golli £350 miliwn y flwyddyn yn syth o'r grant bloc y mae'n ei dderbyn gan San Steffan. Mae rhai astudiaethau yn awgrymu y byddai'n cymryd tua 20 mlynedd i'r arian hwnnw gael ei wneud i fyny. Felly, gall ddadl gael ei wneud bod toriad yn y dreth gorfforaeth yn golygu mwy o swyddi, ond nid yw'n glir pa mor hir y byddai'n cymryd i greu'r swyddi hynny ac i'r arian gael ei adennill. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y byddai colled yn syth o grant bloc unrhyw weinyddiaeth ddatganoledig na ellid ei wneud i fyny yn gyflym.

**Cymorth Llyfrgelloedd mewn Ysgolion**

**Library Support in Schools**

***6. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth llyfrgelloedd mewn ysgolion ar draws Cymru. OAQ(4)0065(FM)*

***6. Rhodri Glyn Thomas:*** *Will the First Minister make a statement about library support in schools across Wales. OAQ(4)0065(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Gall llyfrgelloedd ysgolion a llyfrgelloedd cyhoeddus ledled Cymru chwarae rôl bwysig o ran cefnogi addysg plant. Maent yn cynnig cyfle i fanteisio'n rhad ac am ddim ar lyfrau ac ar gyfrifiaduron, ac yn helpu i ddatblygu sgiliau trafod gwybodaeth a llythrennedd.

**The First Minister:** School and public libraries across Wales can play an important role in supporting children's education. They provide free access to books and computers and support the development of information-handling skills and literacy.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn falch eich bod yn cytuno bod llyfrgelloedd mewn ysgolion yn adnodd eithriadol o bwysig. Felly, a wnewch ymuno â mi i gondemnio penderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin i ddileu ei gymorth ariannol i lyfrgelloedd ysgolion drwy'r sir? Oherwydd y setliad a gafodd Cyngor Sir Caerfyrddin gan Lywodraeth Cymru, a fyddech hefyd yn cytuno nad oes math o reswm iddo wneud i ffwrdd â'r adnodd pwysig hwn?

**Rhodri Glyn Thomas:** I am pleased that you agree that school libraries are an extremely important resource. Therefore, will you join me in condemning the decision of Carmarthenshire County Council to stop providing financial assistance for school libraries throughout the county? Given the settlement that Carmarthenshire County Council received from the Welsh Government, do you also agree that there is no reason for doing away with this important resource?

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn, wrth gwrs, yn fater i Gyngor Sir Caerfyrddin.

**The First Minister:** This is, of course, a matter for Carmarthenshire County Council.

**Suzy Davies:** First Minister, a school library in my region is losing over 90 per cent of its budget over two years due to financial pressure—something that would perhaps not be so much of a problem if schools were directly funded. Will your Government consider making school libraries a statutory

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, mae llyfrgell ysgol yn fy rhanbarth i yn colli dros 90 y cant o'i gyllideb dros ddwy flynedd o ganlyniad i bwysau ariannol—rhywbeth efallai na fyddai'n gymaint o broblem petai ysgolion yn cael eu hariannu'n uniongyrchol. A wnaiff eich Llywodraeth ystyried gwneud

requirement or, at least, issuing guidelines to prevent school libraries from becoming the disproportionate losers when it comes to cutting costs?

llyfrgelloedd ysgolion yn ofyniad statudol neu, o leiaf, gyhoeddi canllawiau i atal llyfrgelloedd ysgolion rhag toriadau anghymesur pan ddaw at dorri costau?

**The First Minister:** It is always good practice to have libraries in schools, because we know how much pleasure and learning children get from books. However, it is difficult for schools at the moment, given the financial cuts being imposed by the UK Government.

**Y Prif Weinidog:** Mae bob amser yn arfer da i gael llyfrgelloedd mewn ysgolion, gan ein bod yn gwybod faint o bleser a dysgu mae plant yn ei gael o lyfrau. Fodd bynnag, mae’n anodd i ysgolion ar hyn o bryd, o ystyried y toriadau ariannol sy’n cael eu gosod gan Lywodraeth y DU.

### Gwasanaethau Strôc

### Stroke Services

***7. Joyce Watson:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau strôc yng Nghymru. OAQ(4)0068(FM)*

***7. Joyce Watson:** Will the First Minister outline his priorities for stroke services in Wales. OAQ(4)0068(FM)*

**The First Minister:** Our manifesto sets out our priorities for stroke services. We will continue our efforts to improve the quality of care immediately following a stroke, but we will also now turn our focus to improving early intervention following a mini stroke to ensure that rehabilitation services are available to support people to return to independent living.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein maniffesto yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau strôc. Byddwn yn parhau â’n hymdrechion i wella ansawdd y gofal yn syth ar ôl strôc, ond byddwn hefyd yn awr yn troi ein ffocws i wella ymyrraeth gynnar yn dilyn strôc fechan er mwyn sicrhau bod gwasanaethau adsefydlu ar gael i gefnogi pobl i ddychwelyd i fyw’n annibynnol.

**Joyce Watson:** I know that investment in stroke services is an ongoing priority for your Government. Alongside effective treatment and rehabilitation, we can look towards prevention strategies to reduce incidence of stroke in the first place. The biggest risk factor for stroke is high blood pressure. When I worked with the Stroke Association two years ago to test 1,000 people’s blood pressure, the findings were that roughly 10 per cent of those who took part had high blood pressure, and that another 20 per cent were on the border line. So, I welcome the Ask First campaign and the work that the Welsh Government is doing with the Stroke Association and Caer Health Services to raise awareness of the link between high blood pressure and stroke. As part of that campaign, will the Welsh Government encourage more employers to introduce simple blood pressure tests in the workplace?

**Joyce Watson:** Yr wyf yn gwybod bod buddsoddi mewn gwasanaethau strôc yn flaenoriaeth barhaus ar gyfer eich Llywodraeth. Ochr yn ochr â thriniaeth ac adsefydlu effeithiol, gallwn edrych tuag at strategaethau atal er mwyn lleihau nifer yr achosion o strôc yn y lle cyntaf. Y ffactor risg mwyaf ar gyfer strôc yw pwysedd gwaed uchel. Pan oeddwn yn gweithio gyda’r Gymdeithas Strôc ddwy flynedd yn ôl i brofi pwysedd gwaed 1,000 o bobl, y canfyddiadau oedd bod gan tua 10 y cant o’r rhai a gymerodd ran bwysedd gwaed uchel, a bod 20 y cant arall ar y llinell ffin. Felly, croesawaf yr ymgyrch Gofynnwch Gyntaf a’r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda’r Gymdeithas Strôc a Gwasanaethau Iechyd Caer i godi ymwybyddiaeth o’r cysylltiad rhwng pwysedd gwaed uchel a strôc. Fel rhan o’r ymgyrch honno, a fydd Llywodraeth Cymru yn annog mwy o gyflogwyr i gyflwyno profion pwysedd gwaed syml yn y gweithle?

**The First Minister:** Through our Ask First

**Y Prif Weinidog:** Drwy ein hymgyrch strôc

stroke campaign, we have ensured that 14 large employers in our Healthy Working Wales network hold blood pressure and pulse testing events in their workplaces, in partnership with the Stroke Association.

Gofynnwch Gyntaf, rydym wedi sicrhau bod 14 o gyflogwyr mawr yn ein rhwydwaith Cymru Iach ar Waith yn cynnal digwyddiadau i brofi pwysedd gwaed a phwls yn eu gweithleoedd, mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Strôc.

**Mohammad Asghar:** In recent years, stroke services in Wales have been labelled as the UK's worst; as Dr Tony Rudd, a leading expert, said, they are 'scandalously bad'. How do you respond to the report that the number of patients in Wales undergoing carotid endarterectomy procedure after suffering the symptoms of stroke or mini stroke is well below the UK average? This procedure can help prevent further strokes by a third, according to NHS estimates. First Minister, do you agree that the Welsh Government must work with Welsh health boards to promote the importance of this procedure and full awareness of stroke symptoms, letting the public know that this is a special procedure for stroke patients that only lasts a few minutes and that it should be taken seriously?

**Mohammad Asghar:** Yn y blynyddoedd diwethaf, mae gwasanaethau strôc yng Nghymru wedi cael eu labelu fel y rhai gwaethaf yn y DU; fel y dywedodd Dr Tony Rudd, arbenigwr blaenllaw, maent yn warthus o wael. Sut ydych yn ymateb i'r adroddiad fod nifer y cleifion yng Nghymru sy'n cael llawdriniaeth endarterectomi carotid ar ôl dioddef symptomau strôc neu strôc fechan yn llawer is na'r cyfartaledd yn y DU? Gall y driniaeth hon helpu i atal strociau pellach o draean, yn ôl amcangyfrifon y GIG. Brif Weinidog, a ydych yn cytuno bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd Cymru i hyrwyddo pwysigrwydd y weithdrefn hon ac ymwybyddiaeth lawn o symptomau strôc, gan adael i'r cyhoedd wybod bod hon yn driniaeth arbennig ar gyfer cleifion strôc sydd dim ond yn cymryd ychydig funudau ac y dylid ei gymryd o ddifrif?

**The First Minister:** There has been rapid and sustained improvement in compliance with our stroke target across Wales over the last six months. That means that more people who have had a stroke are getting the right care at the right time. We have provided £2.27 million to support local health boards to improve stroke services each year from 2008-09.

**Y Prif Weinidog:** Mae gwelliant cyflym a pharhaus wedi bod gyda'n targed strôc ledled Cymru dros y chwe mis diwethaf. Mae hynny'n golygu bod mwy o bobl sydd wedi cael strôc yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Yr ydym wedi darparu £2.27 miliwn i gefnogi byrddau iechyd lleol i wella gwasanaethau strôc bob blwyddyn o 2008-09.

**Lindsay Whittle:** Strokes are the third most common cause of deaths in Wales. Joyce Watson and you were right to highlight what employers can do, but do you agree that we need a national screening programme, which could prevent up to 80 per cent of these fatalities?

**Lindsay Whittle:** Strôc yw'r trydydd achos mwyaf cyffredin o farwolaethau yng Nghymru. Roedd Joyce Watson a chithau yn iawn i dynnu sylw at yr hyn y gall cyflogwyr ei wneud, ond a ydych yn cytuno bod arnom angen rhaglen sgrinio genedlaethol, a allai atal hyd at 80 y cant o'r marwolaethau hyn?

**The First Minister:** Work would have to be done to see whether such a screening programme would be effective, but it is nevertheless right to say that that we have policies in place, such as the local health boards' action plans, to achieve compliance with national standards and guidelines on stroke care by 2015. Our priority has been to

**Y Prif Weinidog:** Byddai'n rhaid gwneud gwaith i weld a fyddai rhaglen sgrinio o'r fath yn effeithiol, ond serch hynny, mae'n iawn i ddweud bod gyda ni bolisïau yn eu lle, megis cynlluniau gweithredu'r byrddau iechyd lleol, i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau a chanllawiau cenedlaethol ar ofal strôc erbyn 2015. Mae ein blaenoriaeth wedi

improve care immediately following a stroke, because we know that compelling evidence exists that effective care at that point leads to positive longer-term outcomes. We have also published a stroke risk reduction plan that outlines the action being taken in communities to help people to reduce their risk of developing a stroke, in conjunction with other measures.

bod i wella gofal yn syth ar ôl strôc, oherwydd gwyddom fod tystiolaeth gymhellol yn bodoli bod gofal effeithiol ar y pwynt hwnnw yn arwain at ganlyniadau tymor hwy positif. Rydym hefyd wedi cyhoeddi cynllun lleihau'r risg o strôc sy'n amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd mewn cymunedau i helpu pobl i leihau eu risg o ddatblygu strôc, ar y cyd â mesurau eraill.

**Cyflog Byw**

**Living Wage**

***8. Ann Jones:*** *Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu hyrwyddo manteision Cyflog Byw yng Nghymru. OAQ(4)0067(FM)*

***8. Ann Jones:*** *How does the Welsh government plan to promote the benefits of a Living Wage in Wales. OAQ(4)0067(FM)*

**The First Minister:** To combat low pay, we will be working with stakeholders in the public, private and third sectors to promote the benefits of a living wage for every worker in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Er mwyn brwydro yn erbyn cyflog isel, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i hyrwyddo manteision cyflog byw ar gyfer pob gweithiwr yng Nghymru.

**Ann Jones:** Thank you for that, First Minister. Our Welsh Labour Party manifesto is committed to exploring ways of ensuring a living wage for every worker in Wales. That commitment to fair pay is a far cry from Tory MP Philip Davies's disgraceful call for disabled people to work for less than the minimum wage. That is disgraceful and the Tories in this place should distance themselves from it. Can you provide me with details on how your Government intends to promote and expand the living wage in Wales?

**Ann Jones:** Diolch am hynny, Brif Weinidog. Mae ein maniffesto Plaid Lafur Cymru wedi ymrwymo i archwilio ffyrdd o sicrhau cyflog byw ar gyfer pob gweithiwr yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad hwnnw i dâl teg ymhell o alwad gwarthus yr AS Torïaidd Philip Davies i bobl anabl weithio am lai na'r isafswm cyflog. Mae hynny'n warthus a dylai'r Torïaid yn y lle hwn ymbellhau oddi wrtho. A allwch roi manylion i mi ynglŷn â sut mae eich Llywodraeth yn bwriadu hyrwyddo ac ehangu'r cyflog byw yng Nghymru?

**The First Minister:** Like you, Ann, I was surprised by the wave of silence from the Members opposite regarding the outrageous comments made by Conservative MP Philip Davies that disabled people should work for less money than anyone else in Wales. [*Interruption.*] I can hear them jabbering away, but it is too late now. They should have spoken last week; there is no point in saying it now. We know that the living wage campaign seeks to encourage employers to voluntarily move towards paying the wage over time, and we are looking to see how we can implement the manifesto commitment that was made by the Government.

**Y Prif Weinidog:** Fel chi, Ann, cefais fy synnu gan y don o dawelwch gan yr Aelodau gyferbyn ynghylch y sylwadau gwarthus a wnaed gan yr AS Ceidwadol Philip Davies y dylai pobl anabl weithio am lai o arian nag unrhyw un arall yng Nghymru. [*Torri ar draws.*] Gallaf eu clywed yn clebran ond mae'n rhy hwyr erbyn hyn. Dylent fod wedi siarad yr wythnos diwethaf; nid oes diben ei ddweud yn awr. Rydym yn gwybod bod yr ymgyrch cyflog byw yn ceisio annog cyflogwyr i symud yn wirfoddol tuag at dalu'r cyflog dros gyfnod o amser, ac rydym yn edrych i weld sut y gallwn weithredu'r ymrwymiad maniffesto a wnaed gan y Llywodraeth.

**Mark Isherwood:** Thankfully, Downing

**Mark Isherwood:** Diolch byth, dywedodd

Street immediately said that that was not policy and that it disagreed with those statements. Do you agree with Ed Balls who, describing the London living wage, said that it was 'artificial, inflationary' and 'not necessary or appropriate', or do you agree with Boris Johnson, who described it as 'vital'? He also said that

Downing Street ar unwaith nad polisi oedd hwnnw a'i fod yn anghytuno â'r datganiadau hynny. A ydych yn cytuno gydag Ed Balls a ddywedodd, wrth ddisgrifio'r cyflog byw yn Llundain, ei fod yn artiffisial ac wedi'i chwyddo ac nad oedd yn angenrheidiol neu'n briodol, neu a ydych yn cytuno â Boris Johnson, a'i disgrifiodd fel rhywbeth hanfodol? Dywedodd hefyd

'it also brings wider social benefits, tackling poverty, making work pay, and improving the quality of life for families.'

Mae hefyd yn dod â manteision cymdeithasol ehangach, yn mynd i'r afael â thlodi, gan wneud i waith dalu, ac yn gwella ansawdd bywyd i deuluoedd.

Assuming that you agree with Boris Johnson, do you applaud the work of John Marek in the second Assembly in progressing the living wage in the Assembly? [*Interruption.*] He did that with cross-party support, including the support of your party, and deserves acclaim for it. [*Interruption.*]

Gan dybio eich bod yn cytuno â Boris Johnson, a ydych yn cymeradwyo gwaith John Marek yn yr ail Gynulliad wrth fwrw ymlaen â'r cyflog byw yn y Cynulliad? [*Torri ar draws*.] Gwnaeth hynny gyda chefnogaeth drawsbleidiol, gan gynnwys cefnogaeth eich plaid chi, ac mae'n haeddu clod ar ei gyfer. [*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order.

**Y Llywydd:** Trefn.

**Mark Isherwood:** Therefore, what action will the Welsh Government take to lead this agenda as an exemplar in Wales?

**Mark Isherwood:** Felly, pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i arwain yr agenda hwn fel esiampl yng Nghymru?

**The First Minister:** Our point of view is that the living wage is £7.60 an hour. We are looking to ensure, over the years, that it is implemented in the contracts that we procure. We are able to have our own views on this in Welsh Labour, rather than having to be told to apologise by Downing Street.

**Y Prif Weinidog:** Ein safbwynt ni yw mai £7.60 yr awr yw'r cyflog byw. Rydym yn edrych i sicrhau, dros y blynyddoedd, ei fod yn cael ei weithredu yn y contractau yr ydym yn eu caffael. Mae gennym ein barn ein hunain ar hyn yn Llafur Cymru, yn hytrach na chael ein gorchymyn i ymddiheuro gan Downing Street.

**Leanne Wood:** It is timely that we are discussing a living wage when the Westminster Government is doing its best to erode terms and conditions for public sector workers. First Minister, will you join me in condemning the UK coalition Government for making public sector workers pay the price for the years of casino capitalism that caused the financial collapse? I have asked this question a number of times and would be grateful for a straight answer: how will this building and the Government operate on Thursday during the public sector workers' strike? Are you prepared to make a statement supporting those public sector workers and their right to withdraw their labour in these

**Leanne Wood:** Mae'n amserol ein bod yn trafod cyflog byw pan fydd Llywodraeth San Steffan yn gwneud ei orau i erydu telerau ac amodau ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus. Brif Weinidog, a wnewch ymuno â mi i gondemnio Llywodraeth glymblaid y DU am wneud i weithwyr y sector cyhoeddus dalu'r pris am y blynyddoedd o gyfalafiaeth casino a achosodd y gwymp ariannol? Yr wyf wedi gofyn y cwestiwn hwn nifer o weithiau a byddwn yn ddiolchgar am ateb plaen: sut bydd yr adeilad hwn a'r Llywodraeth yn gweithredu ddydd Iau yn ystod streic y gweithwyr sector cyhoeddus? A ydych yn barod i wneud datganiad yn cefnogi'r gweithwyr sector cyhoeddus hynny a'u hawl

unjust circumstances?

i wrthod gweithio yn yr amgylchiadau anghyfiawn hyn?

2.15 p.m.

**The First Minister:** I cannot talk about this building, as it is not a Government building, but Ministers will not be crossing picket lines. Ministers will be working on Thursday, of course, subject to that condition. We have great concerns about what is being done, particularly to the pension schemes of public sector workers. Jane Hutt, as Minister for Finance, will be meeting a delegation of officials from three of the unions. It is important that a strong message is sent out that, first, this is not a dispute with the Welsh Government. Secondly, it shows that the Conservative Party and the Liberal Democrats in Government in London are less concerned with public sector workers than they should be and care more about the bankers who caused the crisis—the people who fund them—than the public sector workers who deliver such a good service to so many people day-in, day-out.

**Y Prif Weinidog:** Nid allaf siarad am yr adeilad hwn, gan nad yw'n adeilad Llywodraeth, ond ni fydd Gweinidogion yn croesi llinellau piced. Bydd Gweinidogion yn gweithio ar ddydd Iau, wrth gwrs, ar yr amod hwnnw. Mae gennym bryderon mawr am yr hyn sy'n cael ei wneud, yn enwedig i gynlluniau pensiwn gweithwyr y sector cyhoeddus. Bydd Jane Hutt, fel y Gweinidog Cyllid, yn cyfarfod â dirprwyaeth o swyddogion o dair o'r undebau. Mae'n bwysig bod neges gref yn cael ei hanfon ynghylch y ffaith, yn gyntaf, nad yw hwn yn anghydfod gyda Llywodraeth Cymru. Yn ail, mae'n dangos bod y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Llywodraeth yn Llundain yn poeni llai am weithwyr yn y sector cyhoeddus nag y dylent a'u bod yn poeni mwy am y bancwyr a achosodd yr argyfwng—y bobl sy'n eu hariannu—na'r gweithwyr sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaeth mor dda i gymaint o bobl bob dydd.

## ChildLine

## ChildLine

***9. Mike Hedges:** A wnaiff y Prif Weinidog roi sylwadau i'r NSPCC ynghylch y cynnig i gau ChildLine yn Abertawe. OAQ(4)0064(FM)*

***9. Mike Hedges:** Will the First Minister make representations to the NSPCC regarding the proposed closure of ChildLine in Swansea. OAQ(4)0064(FM)*

**The First Minister:** Gwenda Thomas, as Deputy Minister, has made representations to the NSPCC and has received assurances that the interests of Welsh children are paramount in its proposal to relocate the ChildLine office from Swansea to Cardiff.

**Y Prif Weinidog:** Mae Gwenda Thomas, fel Dirprwy Weinidog, wedi cysylltu â'r NSPCC ac mae wedi derbyn sicrwydd bod buddiannau plant Cymru yn hollbwysig yn ei gynnig i ail-leoli swyddfa ChildLine o Abertawe i Gaerdydd.

**Mike Hedges:** I thank the First Minister for his response. Julie James and I met Peter Liver and I have never been so ignored in my life. [*Laughter*.] I do not know how other Assembly Members who went there to make representations felt, but it seemed to me that we were just going through an exercise, as part of a process, and that we were ignored. It is important, First Minister, that you should look at the position of ChildLine and its move towards internet access. Do you agree that there are dangers in doing that, in that

**Mike Hedges:** Diolch i'r Prif Weinidog am ei ymateb. Cyfarfu Julie James a minnau gyda Peter Liver ac nid wyf erioed wedi cael fy anwybyddu gymaint yn fy mywyd. [*Chwerthin*.] Ni wn sut roedd Aelodau eraill y Cynulliad a aeth yno i wneud sylwadau yn teimlo, ond roedd yn ymddangos i mi ein bod yn mynd drwy sioe, fel rhan o broses, a'n bod yn cael ein hanwybyddu. Mae'n bwysig, Brif Weinidog, eich bod yn edrych ar sefyllfa ChildLine a'r symud tuag at fynediad i'r rhyngrwyd. A ydych yn cytuno bod peryglon

parents and others can check the internet sites children have visited and will know whether the children have contacted ChildLine, which might put them in more danger rather than less?

ynghlwm wrth wneud hynny, gan fod rhieni ac eraill yn gallu edrych ar ba safleoedd rhyngrwyd y mae plant wedi ymweld â hwy a byddant yn gwybod os yw plentyn wedi cysylltu â ChildLine, a allai eu rhoi mewn mwy o berygl yn hytrach na llai?

**The First Minister:** That is a fair point. It is important that the NSPCC should say exactly how it will deal with that. The browsing history is available on a family personal computer, in particular. Unless a young person goes to a library or can find another place where they can access ChildLine, there are dangers in that regard. It is important for the NSPCC to explain how that will be dealt with.

**Y Prif Weinidog:** Mae hwnnw'n bwynt teg. Mae'n bwysig bod yr NSPCC yn dweud yn union sut y bydd yn ymdrin â hynny. Mae hanes pori ar gael ar gyfrifiadur personol teulu, yn benodol. Oni bai bod person ifanc yn mynd i lyfrgell neu yn gallu dod o hyd i rywle arall lle y gallant gael gafael ar ChildLine, mae yna beryglon yn hynny o beth. Mae'n bwysig bod yr NSPCC yn egluro sut y bydd yn delio â hynny.

**Suzy Davies:** Mae pennaeth gwasanaethau NSPCC yng Nghymru wedi nodi ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid i blentyn sy'n ffonio ChildLine i siarad â chynghorydd yn Gymraeg drefnu apwyntiad ar wahân nes ymlaen. A yw'r Prif Weinidog yn credu bod hyn yn dderbyniol?

**Suzy Davies:** The head of NSPCC services in Wales has noted that it is possible that a child who phones ChildLine to speak to an adviser in Welsh may have to arrange a separate appointment later on. Does the First Minister believe that that is acceptable?

**Y Prif Weinidog:** Nac ydwyf. Yr wyf yn credu ei bod yn bwysig dros ben bod gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un chwarae teg pan fyddant yn ffonio ChildLine.

**The First Minister:** No. I think that it is extremely important that a service is available in Welsh and English to ensure that every child has the same treatment when they phone ChildLine.

**Bethan Jenkins:** A fyddai'n bosibl i Aelodau'r Cynulliad weld ymateb Gwenda Thomas i ChildLine Abertawe? Yr ydym yn poeni ynghylch dyfodol ChildLine yn Abertawe, fel yr Aelodau Cynulliad lleol, a gawsom gyfarfod â Peter Liver yr wythnos diwethaf hefyd. Mae nifer fawr o wirfoddolwyr yn poeni na fyddant yn gallu cyrraedd Caerdydd i gymryd rhan yn y broses o helpu pobl ifanc oherwydd y gost, ac oherwydd bod adeilad NSPCC yng Nghaerdydd ar ystâd ddiwydiannol na ellir ei gyrraedd heb gar. Hefyd, mae pryder mawr ynglŷn â'r iaith Gymraeg. A allwch chi gynnig i Fwrdd yr Iaith Gymraeg edrych ar hyn yn ddifrifol er mwyn inni ddiogelu ChildLine Abertawe fel ei fod yn gallu aros yn y ddinas, yn hytrach na symud i Gaerdydd?

**Bethan Jenkins:** Would it be possible for Assembly Members to see Gwenda Thomas's response to ChildLine in Swansea? We are concerned about the future of ChildLine in Swansea, as the local Assembly Members, and we also met Peter Liver last week. A large number of volunteers are concerned that they will not be able to get to Cardiff to take part in the process of assisting young people because of the cost, and because the NSPCC building in Cardiff is on an industrial estate that cannot be reached without a car. There is also great concern about the Welsh language. Could you propose to the Welsh Language Board that it looks at this seriously so that we can safeguard ChildLine Swansea, so that it can remain in the city, rather than move to Cardiff?

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn codi'r pwynt hwnnw gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Gwn

**The First Minister:** I will raise that point with the Welsh Language Board. I know that

fod Gwenda Thomas wedi ysgrifennu at Peter Black am yr hyn sy'n digwydd gyda'r NSPCC. Cymeraf gamau i weld os bydd yn bosibl rhoi'r llythyr hwnnw i Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol. Mae hynny'n dibynnu ar ganiatâd yr Aelodau.

Gwenda Thomas has written to Peter Black about what is happening with the NSPCC. I will take steps to see whether it is possible to give that to Assembly Members in general. That depends on the Members' permission.

**Peter Black:** I went to the NSPCC headquarters in Cardiff yesterday. As Bethan said, it is on an industrial estate a mile or two from this building. It is not accessible by public transport, although there is a limited bus service. No volunteers are based there at the moment, and any who wanted to work there on the night shift would find it difficult to get there, other than through private transport. It seems to me that this proposal will not mean the loss of one or two volunteers, as has been suggested, but the vast majority of those currently working for the NSPCC in Swansea. Do you share my concern at the way that this proposal is being developed? Effectively, a lot of people who have given a huge amount of their time and are dedicated to ChildLine will no longer be able to do so because of this proposal.

**Peter Black:** Bûm ym mhencadlys NSPCC yng Nghaerdydd ddoe. Fel y dywedodd Bethan, mae ar ystâd ddiwydiannol filltir neu ddwy o'r adeilad hwn. Nid yw'n hygyrch ar gludiant cyhoeddus, er bod gwasanaeth bws cyfyngedig. Nid oes gwirfoddolwyr wedi'u lleoli yno ar hyn o bryd, a byddai unrhyw un oedd eisiau gweithio yno ar sifft nos yn ei chael yn anodd cyrraedd yno, ac eithrio drwy drafnidiaeth breifat. Ymddengys i mi na fydd y cynnig hwn yn golygu colli un neu ddau o wirfoddolwyr, fel yr awgrymwyd, ond y mwyafrif llethol o'r rhai sy'n gweithio i'r NSPCC yn Abertawe ar hyn o bryd. A ydych yn rhannu fy mhryder ynghylch y ffordd mae'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu? I bob pwrpas, bydd llawer o bobl sydd wedi rhoi llawer iawn o'u hamser ac sydd yn ymroddedig i ChildLine ddim yn gallu gwneud hynny bellach oherwydd y cynnig hwn.

**The First Minister:** It is important that the NSPCC fully explains the reasoning behind its decision. Trust members will have corresponded with the NSPCC with regard to its reasons. Nonetheless, I will discuss the matter further, as Members have raised further concerns, with the Deputy Minister, and will look to write to Members once that meeting has taken place.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig bod yr NSPCC yn esbonio'n llawn y rhesymau dros ei benderfyniad. Bydd aelodau'r ymddiriedolaeth wedi gohebu â'r NSPCC o ran ei resymau. Serch hynny, byddaf yn trafod y mater ymhellach, am fod Aelodau wedi codi pryderon pellach, gyda'r Dirprwy Weinidog, a byddwn yn ceisio ysgrifennu at Aelodau ar ôl y cyfarfod hwnnw.

### Hybu Arloesedd

### Encouraging Innovation

***10. Vaughan Gething**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i hybu arloesedd. OAQ(4)0069(FM)*

***10. Vaughan Gething:** Will the First Minister provide an update on Welsh government initiatives to encourage innovation. OAQ(4)0069(FM)*

**The First Minister:** Events that encourage research and development and innovation are held across Wales throughout the year. Dedicated innovation specialists provide advice to businesses across all sectors with support available through the business innovation programme.

**Y Prif Weinidog:** Caiff digwyddiadau sy'n annog ymchwil a datblygu ac arloesedd eu cynnal ledled Cymru drwy gydol y flwyddyn. Mae arbenigwyr arloesi pwrpasol yn rhoi cyngor i fusnesau ar draws yr holl sectorau ac mae cymorth ar gael drwy'r rhaglen arloesi ar gyfer busnes.

**Vaughan Gething:** Thank you for that

**Vaughan Gething:** Diolch am yr ymateb

response, First Minister. I was pleased recently to visit Techniquest in my constituency, which is celebrating its twenty-fifth birthday. I can also confirm that Leighton Andrews has visited this facility, and I will not suggest otherwise. [*Laughter*.] I am sure that the First Minister will agree that Techniquest is Wales's leading specialist in providing engaging live experiences of science and technology, in particular, to people of all ages. It is a Welsh success story that is recognised and admired internationally. I have two points. First, would you be interested in visiting Techniquest over the next six months to celebrate its quarter of a century? Secondly, can you confirm that learning experience providers such as Techniquest, which are outside the school system, will play a role in this Assembly Government's science and innovation programme?

hwnnw, Brif Weinidog. Roeddwn yn falch yn ddiweddar i gael ymweld â Techniquest yn fy etholaeth, sy'n dathlu 25 mlynedd ers agor. Gallaf hefyd gadarnhau bod Leighton Andrews wedi ymweld â'r cyfleuster hwn, ac ni fyddaf yn awgrymu fel arall. [*Chwerthin*.] Rwy'n siŵr y bydd y Prif Weinidog yn cytuno mai Techniquest yw arbenigwr blaenllaw Cymru o ran darparu profiadau byw sy'n ennyn diddordeb mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, yn arbennig, i bobl o bob oed. Mae'n fenter lwyddiannus yng Nghymru sy'n cael ei chydnabod a'i hedmygu yn rhyngwladol. Mae gennyf ddau bwynt. Yn gyntaf, a fyddai gennych ddiddordeb mewn ymweld â Techniquest dros y chwe mis nesaf i ddathlu ei chwarter canrif? Yn ail, a allwch gadarnhau y bydd darparwyr profiadau dysgu fel Techniquest, sydd y tu allan i'r system ysgolion, yn chwarae rôl yn rhaglen gwyddoniaeth ac arloesedd Llywodraeth y Cynulliad hwn?

**The First Minister:** Having been to Techniquest a few times, I know how informative it is for children, as well as those who are not so young. If a formal invitation to visit were to come to me, I would consider it, subject to the diary. For children to receive a rounded education, it is important that there are sufficient providers outside the formal education system to provide new approaches to learning that engage children.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi bod i Techniquest nifer o weithiau, felly gwn pa mor addysgiadol ydyw i blant, yn ogystal â'r rhai nad ydynt mor ifanc. Petawn yn cael gwahoddiad ffurfiol i ymweld, byddwn yn ei ystyried, yn amodol ar fy nyddiadur. Er mwyn i blant gael addysg gyflawn, mae'n bwysig bod digon o ddarparwyr y tu allan i'r system addysg ffurfiol i ddarparu dulliau newydd o ddysgu sy'n ymgysylltu â phlant.

**Mohammad Asghar:** First Minister, the appointment of the Welsh Government's chief scientific adviser was warmly welcomed by Members from all sides of the Chamber, and brought with it the potential for stimulating innovative practices in scientific fields. Can you provide an update on any recent discussions that you have had with the adviser, and explain how you plan to utilise his expertise during the fourth Assembly so that the right steps are taken to encourage, promote and support science and innovation, particularly in my own region of South Wales East?

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, cafodd penodiad prif gynghorydd gwyddonol Llywodraeth Cymru groeso cynnes gan Aelodau o bob ochr i'r Siambr, gan ddod â photensial ar gyfer ysgogi arferion arloesol mewn meysydd gwyddonol. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau diweddar rydych wedi'u cael gyda'r cynghorydd, ac esbonio sut rydych yn bwriadu defnyddio ei arbenigedd yn ystod y pedwerydd Cynulliad fel bod y camau cywir yn cael eu cymryd i annog, hyrwyddo a chefnogi gwyddoniaeth ac arloesedd, yn enwedig yn fy rhanbarth i, Dwyrain De Cymru?

**The First Minister:** The appointment of Professor John Harris was an excellent one. He has proven to be enthusiastic, not just about science, but the jobs that science can provide. He has a science advisory council in

**Y Prif Weinidog:** Roedd penodiad yr Athro John Harris yn un ardderchog. Mae wedi profi i fod yn frwdfrydig, nid yn unig am wyddoniaeth, ond am y swyddi y gall gwyddoniaeth eu creu. Mae ganddo gyngor

place, and has been visiting a number of higher education institutions and businesses across Wales with a view to seeing how we can best utilise the scientific knowledge that we have and attract more scientific knowledge in future.

cynghori ar wyddoniaeth yn ei le, ac mae wedi bod yn ymweld â nifer o sefydliadau addysg uwch a busnesau ledled Cymru gyda'r bwriad o weld sut y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth wyddonol sydd gennym orau a denu mwy o wybodaeth wyddonol yn y dyfodol.

**Kenneth Skates:** First Minister, Wales and Japan have strong and substantial links in electronics and car production, and I believe that it was Professor Garel Rhys of Cardiff Business School who recently identified the fact that Wales could help Japan rebuild supply chain networks following the devastating and tragic tsunami and earthquake. Would you commit to working with the investment arms of the Welsh Government and International Business Wales in ensuring that we can build further links between Japan, the Pacific rim and Wales?

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, mae gan Gymru a Siapan gysylltiadau cryf a sylweddol o ran cynhyrchu nwyddau electroneg a cheir, ac rwy'n credu mai'r Athro Garel Rhys o Ysgol Fusnes Caerdydd a nododd yn ddiweddar y gallai Cymru helpu Siapan i ailadeiladu rhwydweithiau'r gadwyn gyflenwi yn dilyn y tswnami a'r daeargryn dinistriol a thrasig. A wnewch ymrwymo i weithio gyda breichiau buddsoddi Llywodraeth Cymru a Busnes Rhyngwladol Cymru i sicrhau ein bod yn gallu datblygu cysylltiadau pellach rhwng Siapan, ymyl y Môr Tawel a Chymru?

**The First Minister:** Yes. We re-introduced the ProAct scheme for those companies that had experienced problems with their supply chains from Japan. I recently attended a dinner where the British ambassador to Japan and a number of Japanese business representatives were present, and they were keen to impress upon me the need for people to visit Japan, and for businesses to continue to look for business there. We have been working on that with our officials.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf. Rydym wedi ail-gyflwyno'r cynllun ProAct ar gyfer y cwmnïau hynny sydd wedi profi problemau gyda'u cadwyni cyflenwi o Siapan. Yn ddiweddar, bûm mewn cinio lle'r oedd llysgennad Prydain yn Siapan a nifer o gynrychiolwyr busnes o Siapan yn bresennol, ac roeddent yn awyddus i bwysleisio bod angen i bobl ymweld â Siapan, ac i fusnesau i barhau i chwilio am fusnes yno. Rydym wedi bod yn gweithio ar hynny gyda'n swyddogion.

**Simon Thomas:** Llongyfarchaf y Prif Weinidog ar gyflwyno un o'r cynlluniau mwyaf arloesol a dyfeisgar yn ei Lywodraeth ddiwethaf, sef y cynllun i gyflwyno cliniaduron i dros 1,000 o blant difreintiedig yng Nghymru. A fydd y Prif Weinidog yn dod ag adroddiad llawn ar lwyddiant, neu fel arall, y cynllun hwn gerbron y Senedd, fel bod modd penderfynu beth yw'r dechnoleg orau i ddysgu plant yn y dyfodol?

**Simon Thomas:** I congratulate the First Minister on introducing one of the most innovative and inventive schemes of his last Government, namely the scheme to provide laptops to over 1,000 disadvantaged children in Wales. Will the First Minister bring a full report before the Senedd on the success or otherwise of the scheme, so that we can decide what the best technology is for teaching children in the future?

**Y Prif Weinidog:** Pan fydd adroddiadau'n cael eu rhoi i Weinidogion, mae ystyriaeth yn cael ei roi i sichrau bod yr adroddiadau hynny'n cael eu dosbarthu'n ehangach. Byddaf wrth gwrs yn ystyried gwneud hynny yn yr achos hwn.

**The First Minister:** When reports are given to Ministers, consideration is given to ensuring that those reports are disseminated more widely. I will, of course, consider doing so in this case.

**Sefydliad Polisi Cyhoeddus**

**Public Policy Institute**

***11. Mark Drakeford:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau ar gyfer Sefydliad Polisi Cyhoeddus yng Nghymru. OAQ(4)0057(FM)*

***11. Mark Drakeford:** Will the First Minister make a statement on plans for a Public Policy Institute for Wales. OAQ(4)0057(FM)*

**The First Minister:** I want to make best use of the expertise that we have in Wales to ensure high-quality, strategic policy making and research to improve our public services. A public policy institute has a role, alongside our commitment to a leadership academy and the need to improve public services across Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf am wneud y defnydd gorau o'r arbenigedd sydd gennym yng Nghymru i sicrhau ein bod yn llunio polisïau a gwneud gwaith ymchwil strategol ac o ansawdd uchel i wella ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan sefydliad polisi cyhoeddus rôl, ynghyd â'n hymrwymiad i academi arweinyddiaeth a'r angen i wella gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

**Mark Drakeford:** Do you agree that, given the difficult financial circumstances that we face over the next few years, it is even more important that policy making in Wales is able to draw on the widest range of advice, and that a public policy institute would provide a way in which new sources of expertise and new policy solutions could be fed into the way that we think about these issues in Wales? How soon would you hope to be able to bring forward this urgently-needed development?

**Mark Drakeford:** A ydych yn cytuno, o ystyried yr amgylchiadau ariannol anodd sy'n ein hwynebu dros y blynyddoedd nesaf, ei bod yn hyd yn oed yn fwy pwysig bod llunio polisïau yng Nghymru yn gallu elwa ar yr ystod ehangaf o gyngor, ac y byddai sefydliad polisi cyhoeddus yn darparu ffordd y gallai ffynonellau newydd o arbenigedd ac atebion polisi newydd gael eu cyflwyno i'r ffordd rydym yn meddwl am y materion hyn yng Nghymru? Pa mor fuan fyddech chi'n gobeithio gallu cyflwyno'r datblygiad hwn, sydd ei angen ar frys?

**The First Minister:** Officials are beginning the process by convening a group of relevant experts, including some from higher education, to develop a series of options. The intention is that the institute will capture the expertise that exists outside Government, including in the higher education sector, to achieve better outcomes for Wales. That work has begun.

**Y Prif Weinidog:** Mae swyddogion yn dechrau ar y broses drwy gynnull grŵp o arbenigwyr perthnasol, gan gynnwys rhai o addysg uwch, er mwyn datblygu cyfres o opsiynau. Y bwriad yw y bydd y sefydliad yn dal yr arbenigedd sy'n bodoli tu allan i'r Llywodraeth, gan gynnwys yn y sector addysg uwch, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer Cymru. Mae'r gwaith hwnnw wedi dechrau.

**Angela Burns:** We would very much support a public policy institute. However, when you consider its remit, I ask that you consider a provision similar to Scotland's Futures Forum, to allow the public of Wales, Members here, and people who are not in the policy world, to contribute to the long-term development of new aspirations and goals for Wales.

**Angela Burns:** Byddem yn cefnogi sefydliad polisi cyhoeddus yn fawr iawn. Fodd bynnag, pan fyddwch yn ystyried ei gylch gwaith, gofynnaf ichi ystyried darpariaeth debyg i Fforwm Dyfodol yr Alban, er mwyn caniatáu i'r cyhoedd yng Nghymru, yr Aelodau yma, a phobl nad ydynt yn y byd polisi, i gyfrannu at ddatblygiad hirdymor dyheadau a nodau newydd ar gyfer Cymru.

**The First Minister:** It is surely the job of political parties to put forward ideas for the people of Wales and to listen to what people have to say so that their ideas can be included

**Y Prif Weinidog:** Gwaith pleidiau gwleidyddol yw cyflwyno syniadau i bobl Cymru a gwrando ar yr hyn sydd gan y bobl i'w ddweud fel y gellir cynnwys eu syniadau

in the manifestos put before the people of Wales.

yn y maniffestos sy'n cael eu rhoi gerbron pobl Cymru.

**Gwasanaethau Ailalluogi**

**Reablement Services**

***12. Mick Antoniw :*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad am bolisi Llywodraeth Cymru ar Wasanaethau Ailalluogi yng Nghymru. OAQ(4)0059(FM)*

***12. Mick Antoniw:*** *Will the First Minister provide an update on the Welsh government's policy on Reablement Services in Wales. OAQ(4)0059(FM)*

T**he First Minister:** It is set out in 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action', which requires that reablement services are provided across Wales. We expect these services to be led jointly by social services and the NHS and planned on a regional basis.

**Y Prif Weinidog:** Mae wedi ei gynnwys yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu', sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwasanaethau ail-alluogi yn cael eu darparu ar draws Cymru. Rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau hyn gael eu harwain ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG a'u cynllunio ar sail ranbarthol.

**Mick Antoniw:** Thank you for that answer, First Minister. There will be a full debate on this matter, of course. It is clear that the third sector plays an increasingly important role in Welsh hospitals and in social care. I have seen for myself the valuable role that organisations such as the WRVS and others make to the overall package of support to rehabilitate those in need of care and social support. These organisations are now capable of providing professional value-added support to the work of existing services. However, there does not appear to be a consistent approach by Welsh health boards as to how best to utilise their resources. How does the First Minister envisage achieving a more consistent pattern throughout Wales?

**Mick Antoniw:** Diolch am yr ateb, Brif Weinidog. Bydd dadl lawn ar y mater hwn, wrth gwrs. Mae'n amlwg bod y trydydd sector yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn ysbytai Cymru ac ym maes gofal cymdeithasol. Rwyf wedi gweld dros fy hun y cyfraniad gwerthfawr y mae sefydliadau fel y WRVS ac eraill yn ei wneud i'r pecyn cymorth cyffredinol i ailsefydlu'r bobl hynny sydd angen gofal a chymorth cymdeithasol. Mae'r sefydliadau hyn yn awr yn gallu darparu cefnogaeth broffesiynol sy'n rhoi gwerth ychwanegol i waith y gwasanaethau presennol. Fodd bynnag, ymddengys nad oes agwedd gyson gan fyrddau iechyd Cymru o ran y ffordd orau i ddefnyddio eu hadnoddau. Sut mae'r Prif Weinidog yn rhagweld cyflawni patrwm mwy cyson ledled Cymru?

**The First Minister:** Third sector organisations play an important role in providing a wide range of services and support, particularly for those most disadvantaged and in need. There were actions in the 2008 document 'Designed to Add Value—A Third Dimension for One Wales: A Strategic Direction for the Third Sector in Supporting Health and Social Care' that sought to promote a consistent approach to working with the third sector throughout the NHS in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae mudiadau trydydd sector yn chwarae rhan bwysig mewn darparu ystod eang o wasanaethau a chymorth, yn enwedig ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig ac mewn angen. Roedd camau gweithredu yn y ddogfen 'Cynllun i Ychwanegu Gwerth—trydydd dimensiwn i Cymru'n Un: Cyfeiriad Strategol ar gyfer y Trydydd Sector o ran Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol', a gyhoeddwyd yn 2008, a oedd yn ceisio hyrwyddo dull cyson o weithio gyda'r trydydd sector ledled y GIG yng Nghymru.

**Mark Isherwood:** The College of Occupational Therapists has highlighted a 2007 report that states that, following

**Mark Isherwood:** Mae Coleg y Therapyddion Galwedigaethol wedi tynnu sylw at adroddiad a gyhoeddwyd yn 2007

reablement, up to 68 per cent of people no longer needed a homecare package, and that up to 48 per cent continued not to need homecare two years later. In Wales, we had the joint working grant, which promoted joint working between councils, NHS and the third sector, supporting areas such as enablement, reablement, rehabilitation and other support. However, that grant has now ended in order to fund the Social Care Charges (Wales) Measure 2010. How do you therefore propose to reconfigure funding and services to compensate for the removal of that important grant, so that reablement working across sectors can be delivered in practice as well as words?

sy'n nodi, yn dilyn ail-alluogi, nad oedd angen pecyn gofal cartref mwyach ar 68 y cant o bobl, a bod hyd at 48 y cant o bobl yn dal i beidio â bod angen gofal cartref ddwy flynedd yn ddiweddarach. Yng Nghymru, roedd gennym y grant cydweithio, a oedd yn hybu cydweithio rhwng cynghorau, y GIG a'r trydydd sector, gan gefnogi meysydd megis galluogi, ail-alluogi, adfer a chymorth arall. Fodd bynnag, mae'r grant hwnnw bellach wedi dod i ben er mwyn ariannu'r Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010. Sut felly ydych yn bwriadu ad-drefnu cyllid a gwasanaethau i wneud iawn am gael gwared ar y grant pwysig hwnnw, fel y gall y gwaith ail-alluogi ar draws sectorau gwahanol gael ei gyflwyno yn ymarferol yn ogystal â siarad am y peth?

**The First Minister:** The Government funds the Social Services Improvement Agency to work with local authorities to develop reablement services across Wales. It is right to say that every council in Wales has begun to develop a reablement service, although it is also right to say that the pace of development varies across the country. We have also invested money in the development of reablement and other services through continuing care funding because we know, as you rightly point out, that reablement services can reduce inappropriate admissions to hospital, they can facilitate discharge from hospital and they can help to maintain people at home in the community.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Llywodraeth yn ariannu'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol i weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu gwasanaethau ail-alluogi ledled Cymru. Mae'n iawn i ddweud bod pob cyngor yng Nghymru wedi dechrau datblygu gwasanaeth ail-alluogi, er ei fod hefyd yn iawn i ddweud bod cyflymder datblygiadau yn amrywio ar draws y wlad. Rydym hefyd wedi buddsoddi arian mewn datblygu ail-alluogi a gwasanaethau eraill trwy gyllid gofal parhaus oherwydd rydym yn gwybod, fel y dywedwch yn hollol gywir, y gall gwasanaethau ail-alluogi leihau derbyniadau amhriodol i'r ysbyty, gallant hwyluso rhyddhau o'r ysbyty a gallant helpu i gadw pobl yn eu cartrefi yn y gymuned.

2.30 p.m.

### Economi Wledig

### Rural Economy

***13. William Powell:** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o gyfraniad yr economi wledig at economi Cymru drwyddi draw. OAQ(4)0070(FM)*

***13. William Powell:** What assessment has the First Minister made of the contribution of the rural economy to the overall economy of Wales. OAQ(4)0070(FM)*

**The First Minister:** The needs of the rural economy are broadly similar to those of the overall economy. They are difficult to separate; the economy of rural Wales is bound up with the economy of urban Wales. Quite often, urban Wales forms a substantial part of the market for what rural Wales produces. However, it is right to say that both parts of Wales are essential, in terms of their

**Y Prif Weinidog:** Mae anghenion yr economi wledig yn debyg yn fras i rai'r economi yn gyffredinol. Maent yn anodd eu gwahanu; mae economi'r Gymru wledig ynghlwm wrth economi'r Gymru drefol. Yn aml iawn, mae'r Gymru drefol yn ffurfio rhan sylweddol o'r farchnad ar gyfer yr hyn y mae'r Gymru wledig yn ei gynhyrchu. Fodd bynnag, mae'n iawn dweud bod y ddwy ran o

economic life, to building a vibrant Welsh economy.

Gymru yn hanfodol, o ran eu bywyd economaidd, tuag at adeiladu economi ffyniannus yng Nghymru.

**William Powell:** Thank you for that answer, First Minister. I am sure you would agree that access to financial services and banking is a very important aspect of the support for rural business. In that context, do you share my concern regarding the news that emerged recently of the proposals by HSBC to close its branch—which is the only bank—in Llanrhaeadr-ym-Mochnant, a deeply rural community in the north-east of my region?

**William Powell:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod mynediad at wasanaethau ariannol a bancio yn agwedd bwysig iawn o gefnogaeth ar gyfer busnesau gwledig. Yn hynny o beth, a ydych yn rhannu fy mhryder ynghylch y newyddion a ddaeth i'r golwg yn ddiweddar o'r cynigion gan HSBC i gau ei gangen—sef yr unig fanc—yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant, cymuned wledig iawn yng ngogledd-ddwyrain fy rhanbarth?

**The First Minister:** I would always express great concern at the closure of a bank branch, having seen many villages witness the last of their banks close. The villages at the top of the Amman valley—which are not rural, but are ex-mining villages—have gone through that process. It leaves a gap that can sometimes be filled by the post office, but nevertheless, when a bank branch closes, it leaves a significant financial gap in the life of a community.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn bob amser yn mynegi pryder mawr ynglŷn â chau cangen banc, ar ôl i nifer o bentrefi weld eu banciau olaf yn cau. Mae'r pentrefi ar frig dyffryn Aman—ac er nad ydynt yn wledig, maent yn bentrefi cyn-lofaol—wedi mynd trwy'r broses honno. Mae'n gadael bwlch ac, er y gall y swyddfa bost weithiau llenwi'r bwlch hwn, pan fydd cangen banc yn cau, mae'n gadael bwlch ariannol sylweddol ym mywyd y gymuned.

**Andrew R.T. Davies:** One of the ways to drive to the rural economy is to have greater public procurement of the produce of those communities. In evidence to the Rural Development Sub-committee, Cardiff University indicated that, in the last couple of years, public sector procurement of locally produced food has declined. What action will your Government take to arrest this decline and promote the procurement of locally produced food by the public sector in their communities?

**Andrew R.T. Davies:** Un o'r ffyrdd i yrru'r economi wledig yw cael mwy o gaffael cyhoeddus o gynnyrch y cymunedau hynny. Mewn tystiolaeth i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, nododd Prifysgol Caerdydd bod caffael bwyd a gynhyrchir yn lleol gan y sector cyhoeddus wedi dirywio yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Pa gamau y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i atal y dirywiad hwn a hyrwyddo caffael bwyd a gynhyrchir yn lleol gan y sector cyhoeddus yn eu cymunedau?

**The First Minister:** Ten years ago, almost nothing was being procured in Wales; everything was driven by compulsory competitive tendering, which meant that local producers had no hope of gaining contracts. Of course, we introduced free school milk, which helped dairy producers to have an outlet, and many suppliers were able to supply Welsh schools. I am aware that Welsh beef went into almost all hospitals some time ago. The problem was not that there was a lack of demand, but that, quite often, no organisation had the capacity to deliver on a large contract. Fortunately, due to the public

**Y Prif Weinidog:** Ddeng mlynedd yn ôl, roedd bron i ddim byd yn cael ei gaffael yng Nghymru; roedd popeth yn cael ei yrru gan dendro cystadleuol gorfodol, a oedd yn golygu nad oedd gan gynhyrchwyr lleol unrhyw obaith o ennill contractau. Wrth gwrs, gwnaethom gyflwyno llaeth ysgol am ddim, a oedd yn cynnig marchnad i gynhyrchwyr llaeth, ac roedd llawer o gyflenwyr yn gallu cyflenwi ysgolion Cymru. Yr wyf yn ymwybodol bod cig eidion Cymreig wedi mynd i mewn i bron bob ysbyty beth amser yn ôl. Nid diffyg galw oedd y broblem, ond, yn aml iawn, nid oedd

procurement initiative, those problems have been overcome.

gan unrhyw sefydliad y gallu i gyflenwi contract mawr. Yn ffodus, oherwydd y fenter caffael cyhoeddus, mae’r problemau hynny wedi eu goresgyn.

**Cymorth i Bobl Ifanc sefydlu Busnesau**

**Support for Young People to set up in Business**

***14. Angela Burns:*** *Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i helpu pobl ifanc i sefydlu busnesau yng Nghymru. OAQ(4)0060(FM)*

***14. Angela Burns:*** *What support is the Welsh government giving to help young people set up in business in Wales. OAQ(4)0060(FM)*

**The First Minister:** The youth entrepreneurship strategy action plan includes specific actions that are designed to provide entrepreneurial learning opportunities and to foster a can-do attitude in our young people.

**Y Prif Weinidog:** Mae’r cynllun gweithredu strategaeth entrepreneuriaeth ieuenctid yn cynnwys camau penodol sydd wedi’u cynllunio i ddarparu cyfleoedd dysgu entrepreneuraidd ac i feithrin agwedd gadarnhaol yn ein pobl ifanc.

**Angela Burns:** Will you consider the Futures Forum concept, which both Ireland and Scotland use very well? It goes beyond the political cycle, lasts longer than the four-year electoral cycle, and seeks to stimulate public debate in those countries by introducing fresh perspectives and a road map for the way forward. This, in turn, would help our young people, as they go through school or college, to understand where best they might be able to put their efforts into setting up businesses. It is a matter of regret that you appear to be so closed-minded on this subject.

**Angela Burns:** A wnewch chi ystyried y cysyniad Fforwm y Dyfodol, y mae’r Iwerddon a’r Alban ill dau yn ei ddefnyddio’n dda iawn? Mae’n mynd y tu hwnt i’r cylch gwleidyddol, yn para mwy na’r cylch etholiadol o bedair blynedd, ac yn ceisio ysgogi trafodaeth gyhoeddus yn y gwledydd hynny drwy gyflwyno safbwyntiau ffres a llwybr ar gyfer y ffordd ymlaen. Byddai hwn, yn ei dro, yn helpu ein pobl ifanc, wrth iddynt fynd drwy’r ysgol neu’r coleg, i ddeall y ffordd orau i sefydlu busnesau. Mae’n destun gofid eich bod yn ymddangos mor gaeëdig eich meddwl ar y pwnc hwn.

**The First Minister:** I see today that an electoral alliance seems to be forming between the Tories and the SNP according to what we have heard in terms of the Scottish Futures Forum. Let us look at some of the things we are doing. Our Dynamo role model programme provides motivational and inspirational presentations to 45,000 young people per annum across Wales; Big Ideas Wales is a new campaign for young people who are thinking about starting up in business, with a strong online focus that supports the values and communicates the actions from the new action plan. Within our start-up service, we have targeted support provided for graduates to set up in business; we also have taster sessions, workshops and advice surgeries; three innovative School for Startups Wales pilot events took place last

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn gweld heddiw ei bod yn debyg bod cynghrair etholiadol yn cael ei ffurfio rhwng y Torïaid a’r SNP yn ôl yr hyn yr ydym wedi’i glywed o ran y Fforwm Dyfodol yr Alban. Gadewch inni edrych ar rai o’r pethau yr ydym yn eu gwneud. Mae ein rhaglen modelau rôl Dynamo yn rhoi cyflwyniadau ysgogol ac ysbrydoledig i 45,000 o bobl ifanc y flwyddyn ledled Cymru; mae Syniadau Mawr Cymru yn ymgyrch newydd i bobl ifanc sy’n meddwl am gychwyn busnes, gyda ffocws cryf ar-lein sy’n cefnogi gwerthoedd ac yn cyfathrebu y camau gweithredu o’r cynllun gweithredu newydd. O fewn ein gwasanaeth dechrau busnes, rydym wedi targedu cymorth a ddarperir i raddedigion i sefydlu busnes; mae gennym hefyd sesiynau blas, gweithdai a chymorthfeydd cyngor; cynhaliwyd tri

week to support small businesses in Wales; and, of course, the global entrepreneurship challenge gives young people the opportunity to develop their knowledge and experience of entrepreneurship. Therefore, there is quite a substantial package of support in place to help young entrepreneurs.

digwyddiad peilot arloesol ar gyfer ‘School for Startups Wales’ yr wythnos diwethaf i gefnogi busnesau bach yng Nghymru; ac, wrth gwrs, mae’r her entrepreneuriaeth byd-eang yn rhoi cyfle i bobl ifanc i ddatblygu eu gwybodaeth a’u profiad o entrepreneuriaeth. Felly, mae pecyn eithaf sylweddol o gymorth ar waith i helpu entrepreneuriaid ifanc.

**Tor-faen**

**Torfaen**

***15. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Tor-faen dros y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0071(FM)*

***15. Lynne Neagle:*** *Will the First Minister outline his priorities for Torfaen for the Fourth Assembly. OAQ(4)0071(FM)*

**The First Minister:** Our priorities are to deliver our Government commitments for the benefit of all our communities, including Torfaen.

**Y Prif Weinidog:** Ein blaenoriaethau yw i gyflawni ymrwymiadau’r Llywodraeth er budd ein holl gymunedau, gan gynnwys Torfaen.

**Lynne Neagle:** I was alarmed at the findings of the recent Welsh GP access survey, which showed that one in five people are struggling to get in touch with their local surgery by phone, and that a quarter cannot make advance appointments at all. I visited the Royal Gwent Hospital on Friday and discussed with managers there how the lack of access to primary care is contributing to a big increase in unnecessary hospital admissions. It is putting a strain on accident and emergency departments and is putting pressure on our already overstretched ambulance service. I know that several initiatives are under way to tackle this issue and that you have made a commitment to dealing with it. First Minister, could you update us on the progress that the Assembly Government is making in this important area?

**Lynne Neagle:** Cefais fy nychryn gan ganfyddiadau’r arolwg mynediad meddygon teulu Cymru yn ddiweddar, a oedd yn dangos bod un o bob pump o bobl yn cael trafferth i gysylltu â’u meddygfa leol dros y ffôn, ac na all chwarter wneud apwyntiadau ymlaen llaw o gwbl. Ymwelais ag Ysbyty Brenhinol Gwent ar ddydd Gwener a thrafodais gyda rheolwyr yno sut y mae’r diffyg mynediad at ofal sylfaenol yn cyfrannu at gynnydd mawr yn nifer y derbyniadau diangen i’r ysbyty. Mae’n rhoi straen ar adrannau damweiniau ac achosion brys ac yn rhoi pwysau ar ein gwasanaeth ambiwlans sydd eisoes dan bwysau mawr. Gwn fod nifer o fentrau ar y gweill i fynd i’r afael â’r mater hwn a’ch bod wedi ymrwymo i ddelio ag ef. Brif Weinidog, a allech roi’r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud yn y maes pwysig hwn?

**The First Minister:** I know that Gwent Community Health Council has been undertaking a review of access to those services on behalf of the local health board, and it will discuss the outcomes with the LHB next week. I am aware that, in the meantime, the LHB has been pressing practices to improve their core daytime hours, which has been met with resistance by some practices. Those practices have to explain why they are so resistant, given that they are paid from the public purse.

**Y Prif Weinidog:** Gwn fod Cyngor Iechyd Cymuned Gwent wedi bod yn cynnal adolygiad o fynediad at y gwasanaethau hynny ar ran y bwrdd iechyd lleol, a bydd yn trafod y canlyniadau gyda’r bwrdd iechyd yr wythnos nesaf. Yr wyf yn ymwybodol, yn y cyfamser, bod y bwrdd iechyd wedi bod yn annog meddygfeydd i wella eu horiau craidd yn ystod y dydd, a bod rhai meddygfeydd wedi gwrthwynebu hynny. Rhaid i’r meddygfeydd hynny esbonio pam eu bod mor wrthwynebol, o gofio eu bod yn cael eu talu

o’r pwrs cyhoeddus.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**Jane Hutt:** There are no changes to this week’s planned Government business. Business for the next three weeks is shown in the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

**Jane Hutt:** Nid oes newidiadau ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Mae’r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn ymddangos yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei ganfod ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i’r Aelodau’n electronig.

**William Graham:** Leader of the House, could you ensure that a statement is made to allay public concern in South Wales East with regard to referral-to-treatment times, particularly for patients who are waiting for treatment to start and who are in the 26-36 week category? You will recall that, in January 2010, there were about 200 people in that category, and by January of this year that figure had risen to 1,500, and remains stubbornly high. Although various things have been done by the Minister for Health and Social Services, the figures speak for themselves. People are concerned about the waiting times, which do not seem to be improving. Could you therefore ensure that a statement is made on the matter?

**William Graham:** Arweinydd y Tŷ, a allwch sicrhau bod datganiad yn cael ei wneud i leddfu pryder cyhoeddus yn Nwyrain De Cymru o ran yr amser rhwng atgyfeirio a derbyn triniaeth, yn enwedig ar gyfer cleifion sy’n aros i driniaeth ddechrau ac sydd yn y categori 26 -36 wythnos? Fe gofiwch, ym mis Ionawr 2010, bod tua 200 o bobl yn y categori hwnnw, ac erbyn mis Ionawr eleni roedd y ffigur hwnnw wedi codi i 1,500, ac mae’n parhau i fod yn ystyfnig o uchel. Er bod amryw o bethau wedi cael eu gwneud gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae’r ffigurau’n siarad drostynt eu hunain. Mae pobl yn pryderu am yr amseroedd aros, nad ydynt yn ymddangos i fod yn gwella. A allwch felly sicrhau bod datganiad yn cael ei wneud ar y mater?

**Jane Hutt:** You will be aware that the Minister for Health and Social Services will answer questions on Wednesday. With regard to the region that you represent, it is important to note that the majority of patients continue to be seen and treated within our waiting-time targets. The latest figures show that, if we exclude the orthopaedic specialty, in which we are investing further, the all-Wales figure for performance against the 26-week target in relation to waiting times remains above 95 per cent.

**Jane Hutt:** Byddwch yn ymwybodol y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ateb cwestiynau ddydd Mercher. O ran y rhanbarth yr ydych yn ei gynrychioli, mae’n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o gleifion yn dal i gael eu gweld a’u trin o fewn ein targedau amseroedd aros. Mae’r ffigurau diweddaraf yn dangos, os ydym yn hepgor yr arbenigedd orthopedig, yr ydym yn buddsoddi ymhellach ynddo, bod y ffigur Cymru-gyfan ar gyfer perfformiad yn erbyn y targed 26-wythnos mewn perthynas ag amseroedd aros yn parhau i fod yn uwch na 95 y cant.

**Julie Morgan:** Leader of the House, when can we have a debate on the economy so that we can discuss the welcome news that the Bosch site has been purchased by Renishaw? I know that the site is in the constituency of Leader of the House and that she fought very hard for the jobs at Bosch.

**Julie Morgan:** Arweinydd y Tŷ, pryd y gallwn gael dadl ar yr economi fel y gallwn drafod y newyddion da bod y safle Bosch wedi cael ei brynu gan Renishaw? Rwy’n gwybod bod y safle yn etholaeth Arweinydd y Tŷ a’i bod wedi ymladd yn galed iawn ar gyfer y swyddi yn Bosch.

**Jane Hutt:** I thank the Member for Cardiff North. I have a constituency interest, but many Assembly Members in the Chamber also have constituency interests in relation to future prospects. The news yesterday about the opportunities that will result from the takeover of the site by Renishaw, which is a major engineering company, is welcome. I congratulate the Deputy Minister for Skills, Jeff Cuthbert, for making sure that redundant employees are all able to access the ReAct programme in order to allow them to retrain. I welcome the fact that Bosch announced yesterday that it would top up ReAct by £50,000 in order to ensure that those who will, sadly, lose their jobs as a result of Bosch withdrawing will have access to that funding as well as to ReAct.

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd. Mae gen i fuddiant etholaeth, ond mae gan lawer o Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr hefyd fuddiannau etholaethol mewn perthynas â chyfleoedd yn y dyfodol. Mae'r newyddion ddoe ynghylch y cyfleoedd a fydd yn deillio o feddiant y safle gan Renishaw, sy'n gwmni peirianneg mawr, i'w groesawu. Yr wyf yn llongyfarch y Dirprwy Weinidog Sgiliau, Jeff Cuthbert, am wneud yn siŵr bod y gweithwyr sydd wedi colli eu swyddi i gyd yn gallu cael mynediad i'r rhaglen ReAct er mwyn eu galluogi i ailhyfforddi. Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod Bosch wedi cyhoeddi ddoe y byddai'n ychwanegu £50,000 i ReAct er mwyn sicrhau bod y rhai a fydd, yn anffodus, yn colli eu swyddi o ganlyniad i Bosch yn tynnu'n ôl, yn cael mynediad i'r cyllid hwnnw yn ogystal ag i ReAct.

**Bethan Jenkins:** Weinidog, gofynnais gwestiwn i'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, am newidiadau i'r rhaglen adnewyddu economaidd yr wythnos ddiwethaf. Yn anffodus, ni chefais ateb gan y Gweinidog. A ellir gwneud datganiad i'r Cynulliad sy'n amlinellu strategaeth y Llywodraeth yn y maes hwn, fel ein bod yn gwybod yn glir beth yw'r ffordd ymlaen? A ellir gwneud datganiad ynghylch p'un ai a yw busnesau wedi cael gwybod bod yr holl fenthyciadau a grantiau gan Lywodraeth Cymru wedi'u gohirio tra ei bod yn aros am ganlyniadau yr adolygiad, ac am yr effaith y bydd hynny'n ei chael ar fusnesau hyd nes y cyhoeddir canlyniadau'r adolygiad hwnnw?

**Bethan Jenkins:** Minister, I asked a question to your fellow Minister, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, about changes to the economic renewal programme last week. Unfortunately, I did not receive a reply from the Minister. Could a statement be made to the Assembly outlining the Government's strategy in this area, so that we know clearly the way forward? Could a statement be made about whether or not businesses have been told that all loans and grants from the Welsh Government have been suspended while it awaits the outcome of the review, and about the impact that that will have on businesses while they wait for the outcomes of that review to be published?

**Jane Hutt:** That is a matter for the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, who is taking forward the important programme for economic renewal, in responding, as she has, to the needs of small businesses.

**Jane Hutt:** Mae hynny'n fater i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, sydd yn bwrw ymlaen â'r rhaglen bwysig ar gyfer adnewyddu'r economi, wrth ymateb, fel y mae wedi, i anghenion busnesau bach.

**Suzy Davies:** Minister, would you ask the Minister for Housing, Regeneration and Heritage to make a statement on how he intends to proceed with the recommendations made in the report, 'The accessibility of arts and cultural activities in Wales', which was debated at the end of the last Assembly? Could you ask him to include his views on the recommendation that local authorities be

**Suzy Davies:** Weinidog, a ofynnwch i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i wneud datganiad am sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad, 'Hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru', a gafodd ei drafod ar ddiwedd y Cynulliad diwethaf? A allech ofyn iddo i gynnwys ei farn ar yr argymhelliad fod yn rhaid i

obliged to support art and cultural experiences, with which the previous Minister did not agree? Would you also ask him to comment on whether his remit letter to the Arts Council of Wales will contain an obligation to increase participation and access?

awdurdodau lleol gefnogi profiadau celfyddydol a diwylliannol, nad oedd y Gweinidog blaenorol yn cytuno â hwy? A fyddech hefyd yn gofyn iddo wneud sylw ynghylch a fydd ei lythyr cylch gwaith i Gyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu cyfranogiad a mynediad?

**Jane Hutt:** The Member will be aware that the Minister is due to appear before the Chamber to answer oral questions tomorrow. I am sure that that will provide an opportunity to ask that question.

**Jane Hutt:** Bydd yr Aelod yn gwybod bod y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Siambr i ateb cwestiynau llafar yfory. Yr wyf yn siŵr y bydd hynny'n rhoi cyfle i ofyn y cwestiwn hwnnw.

**Kirsty Williams:** Will you ask the Minister for Health and Social Services to make a statement on the issue of a dialysis unit at Llandrindod Wells County War Memorial Hospital? It was promised that the unit would open last summer. In February this year, the then Minister for health wrote to apologise for the delay and to confirm that the unit would open this year. On 7 June, the new Minister for health, in answer to a written question, said that the dialysis unit at Llandrindod Wells would open this summer. Subsequently, and less than a fortnight later, I had an e-mail from the consultant nephrologist to say that the unit would be opening in late autumn. This week, I received a letter from the chief executive of Powys Teaching Local Health Board, saying that the unit, despite what the Minister says about it opening in the summer, will not be open until spring 2012. I am sure that my constituents, having fought a long battle to get a dialysis unit at Llandrindod Wells to eliminate the need to travel many miles to receive life-saving treatment, would be grateful to know when exactly they will have their dialysis unit and whether the Minister is correct in her assertion in a letter to me that it will open this summer?

**Kirsty Williams:** A wnewch chi ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad ar y mater o uned dialysis yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod? Addawyd y byddai'r uned yn agor haf diwethaf. Ym mis Chwefror eleni, ysgrifennodd y Gweinidog iechyd i ymddiheuro am yr oedi ac i gadarnhau y byddai'r uned yn agor eleni. Ar 7 Mehefin, mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog iechyd newydd y byddai'r uned dialysis yn Llandrindod yn agor yr haf hwn. Yn dilyn hynny, ac yn llai na phythefnos yn ddiweddarach, cefais e-bost gan y neffrolegydd ymgynghorol i ddweud y byddai'r uned yn cael ei agor yn hwyr yn yr hydref. Yr wythnos hon, derbyniais lythyr oddi wrth brif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, yn dweud na fydd yr uned, er gwaethaf yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud am y peth yn agor yn yr haf, ar agor tan wanwyn 2012. Yr wyf yn siŵr y byddai fy etholwyr, ar ôl ymladd brwydr hir i gael uned dialysis yn Llandrindod i gael gwared ar yr angen i deithio milltiroedd lawer i gael triniaeth achub bywyd, yn ddiolchgar i wybod pryd yn union y byddant yn cael eu huned dialysis a pa un ai bod y Gweinidog yn gywir yn ei haeriad mewn llythyr i mi y bydd yn agor yr haf hwn?

**Jane Hutt:** It is clear that this is an operational issue for the Powys health board, and I am sure that the Minister will take it up. I am sure that it is important to the leader of the Welsh Liberal Democrats to assure her constituents that, as a result of the investment by this Welsh Government, there will be a dialysis unit at Llandrindod Wells hospital, and that will be expedited if Powys health

**Jane Hutt:** Mae'n amlwg bod hwn yn fater gweithredol ar gyfer bwrdd iechyd Powys, ac yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn mynd i'r afael â hyn. Yr wyf yn siŵr ei bod yn bwysig i arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i sicrhau ei hetholwyr y bydd, o ganlyniad i'r buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, uned dialysis yn Ysbyty Llandrindod, a fydd yn cael ei hwyluso os yw

board takes responsibility for the action.

bwrdd iechyd Powys yn cymryd cyfrifoldeb am y weithred.

**Darren Millar:** Minister, I would like a statement from the Minister for Housing, Regeneration and Heritage on the support that he might give to regeneration efforts in the strategic regeneration areas, including Colwyn Bay. You will be aware of the ongoing struggle to see Victoria Pier in Colwyn Pier refurbished. It really would enhance the area considerably if the issue were to be addressed. Therefore, a statement would be useful, to know the Government's position on such matters.

**Darren Millar:** Weinidog, hoffwn gael datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar y gefnogaeth y gallai ei roi i ymdrechion adfywio yn yr ardaloedd adfywio strategol, yn cynnwys Bae Colwyn. Byddwch yn ymwybodol o'r frwydr barhaus i weld Pier Victoria, ym Mhier Colwyn yn cael ei adnewyddu. Byddai wir yn gwella'r ardal yn sylweddol os yr eir i'r afael â'r mater hwn. Felly, byddai datganiad yn ddefnyddiol, er mwyn gwybod safbwynt y Llywodraeth ar faterion o'r fath.

Also, I would like a statement on the future of blood services. There has been some discussion of whether an all-Wales blood service would be appropriate for delivering a service across the country. As the Minister will be aware, there is an ongoing relationship that sees blood services delivered across the border by Liverpool hospital in the north-west of England. Can we have a statement on that, to update Members?

Hefyd, hoffwn ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau gwaed. Bu peth trafodaeth ynghylch a fyddai gwasanaeth gwaed ar gyfer Cymru gyfan yn briodol ar gyfer darparu gwasanaeth ar draws y wlad. Fel y bydd y Gweinidog yn ymwybodol, mae perthynas barhaus sy'n gweld gwasanaethau gwaed yn cael eu darparu ar draws y ffin gan ysbyty Lerpwl yng ngogledd-orllewin Lloegr. A allwn gael datganiad ar hynny, i ddiweddaru'r Aelodau?

**Jane Hutt:** Members will be aware that there are opportunities to ask questions of Ministers at their respective question times, and I am sure that that will give the Member for Clwyd West the opportunity to ask the Minister for heritage about regeneration opportunities, although, of course, this Government has allocated funding and continues this pioneering programme. The same applies to the question about prospects for an all-Wales blood transfusion service.

**Jane Hutt:** Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod cyfleoedd i ofyn cwestiynau i Weinidogion yr ystod eu hamseroedd cwestiynau perthnasol, ac yr wyf yn siŵr y bydd hynny'n rhoi cyfle i'r Aelod dros Orllewin Clwyd i ofyn i'r Gweinidog dreftadaeth am gyfleoedd adfywio, er, wrth gwrs, bod y Llywodraeth hon wedi dyrannu cyllid ac yn parhau'r rhaglen arloesol hon. Mae'r un peth yn berthnasol i'r cwestiwn am y rhagolygon ar gyfer gwasanaeth trallwyso gwaed Cymru gyfan.

**Nick Ramsay:** Leader of the House, could we have a statement from the new Welsh Government on the need to support rural services fully? In Usk, in my constituency, there has been an issue in the past couple of months regarding the Royal Mail's proposal to close the sorting office there and move staff to a neighbouring site in Torfaen. While I appreciate that the Royal Mail and the post are not devolved issues, post offices and sorting offices affect people in Wales, and your Government should therefore have an interest. Could we therefore have a statement from the Minister on what your Government

**Nick Ramsay:** Arweinydd y Tŷ, a allwn gael datganiad gan Lywodraeth newydd Cymru ar yr angen i gefnogi gwasanaethau gwledig yn llawn? Ym Mrynbuga, yn fy etholaeth i, mae problem wedi bod yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf ynghylch cynnig y Post Brenhinol i gau swyddfa ddidoli yno a symud staff i safle cyfagos yn Nhor-faen. Er fy mod yn sylweddoli nad oedd yw'r Post Brenhinol a'r post yn faterion sydd wedi'u datganoli, mae swyddfeydd post a swyddfeydd didoli yn effeithio ar bobl yng Nghymru, ac felly dylai eich Llywodraeth fod â diddordeb. A allem felly gael datganiad gan y Gweinidog am yr

will do to support postal services, particularly those in rural areas?

hyn y bydd eich Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi gwasanaethau post, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig?

**Jane Hutt:** As the Member for Monmouth is well aware, it is important that it was a Welsh Government that led on the post office diversification fund. Indeed, it was the former Deputy Minister, who is now the Minister for education, who took that forward. Now, the Minister for Local Government and Communities is not only progressing that programme, but ensuring that the diversification fund is delivered in accordance with the needs of rural communities.

**Jane Hutt:** Fel y mae'r Aelod dros Fynwy yn ymwybodol iawn, mae'n bwysig mai Llywodraeth Cymru a arweiniodd ar y gronfa arallgyfeirio swyddfeydd post. Yn wir, y cyn Dirprwy Weinidog, sydd bellach yn Weinidog addysg, a fwriodd ymlaen â hynny. Yn awr, mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau nid yn unig yn symud ymlaen â'r rhaglen honno, ond mae'n sicrhau bod y gronfa arallgyfeirio yn cael ei darparu yn unol ag anghenion y cymunedau gwledig.

2.45 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, can we have a statement on the planning process in Wales and, in particular, the way in which local authorities deal with planning applications? In 2006, 2007 and 2008 the Welsh Government made considerable sums of money available to local authorities to speed up the process and have greater interaction with applicants so that there could be inquiries at the pre-planning stage, which would facilitate the smooth passage of applications. Many constituents have approached me about the escalating costs and the time that councils are taking to turn applications around. Will the Minister with responsibility for planning bring forward a statement to address some of the issues that I am sure are raised by the constituents of Members across the Chamber?

**Andrew R.T. Davies:** Arweinydd y Tŷ, a gawn ni ddatganiad ar y broses gynllunio yng Nghymru ac, yn arbennig, y ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â cheisiadau cynllunio? Yn 2006, 2007 a 2008 roedd symiau sylweddol o arian ar gael gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol i gyflymu'r broses a chael rhagor o ryngweithio ag ymgeiswyr, fel bod modd gwneud ymholiadau yn y cyfnod cyn-gynllunio, a fyddai'n hwyluso'r broses o basio ceisiadau. Mae llawer o etholwyr wedi cysylltu â mi ynglŷn â chostau cynyddol a'r amser y mae cynghorau yn ei gymryd i brosesu ceisiadau. A wnaiff y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio gyflwyno datganiad i fynd i'r afael â rhai o'r problemau yr wyf yn siŵr y bydd etholwyr yr Aelodau yn y Siambr drwyddi draw yn eu codi?

**Jane Hutt:** The Minister will be answering oral questions tomorrow afternoon. That will be an opportunity for you to raise that issue. The Minister has made it clear that he is looking at these issues carefully. 'Planning Policy Wales' has served us well in giving a strategic steer from the Welsh Government.

**Jane Hutt:** Bydd y Gweinidog yn ateb cwestiynau llafar brynhawn yfory. Bydd hwnnw'n gyfle i chi i godi'r mater hwnnw. Mae'r Gweinidog wedi nodi'n glir ei fod yn edrych ar y materion hyn yn ofalus. Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' wedi gwneud ei waith yn dda drwy roi arweiniad strategol gan Lywodraeth Cymru.

## Datganiad gan y Llywydd
## Statement by the Presiding Officer

**The Presiding Officer:** Last Tuesday, the Minister for Education and Skills, Leighton Andrews, raised a point of order in relation to

**Y Llywydd:** Ddydd Mawrth diwethaf, cododd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, bwynt o drefn mewn

remarks made by the Member for North Wales, Antoinette Sandbach, about ministerial visits. Although I dealt with the point of order at the time, I have since had an opportunity to reflect further and wish to reinforce my previous ruling. In particular, let me make clear that each individual Member is responsible for the content and accuracy of their contributions. Should those contributions be shown to be inaccurate, I expect Members to withdraw the remarks immediately and apologise graciously. When I call a Member to respond to a point of order regarding their remarks during proceedings, although they may wish to clarify their remarks, it is not an opportunity to prolong the exchange by engaging in further debate. If there is any doubt as to what has been said, it would be wise to refrain from making any further points and to take the opportunity to review the Record of what was said once it is published.

Having dealt with that issue, which was an entirely legitimate point of order, I would like to take this opportunity to comment more generally on the use made of points of order so far in the early weeks of this Assembly. There have been several from new and returning Members that have related to the detail of remarks made by other Members. It is my responsibility as Presiding Officer to ensure that Members do not use inappropriate or disorderly language in the Assembly. In doing so, my starting point is the principle that Members should treat each other with respect and courtesy and comply with the directions given from the Chair. Debate in the National Assembly should be robust and of high quality, as befits a parliamentary legislature, and not peppered with argument over points of little or no relevance to the debate in question or to the public observing our proceedings. Therefore, in guiding debate in the Chamber, I do not wish to encourage a culture where minor issues of language are routinely the subject of points of order. I hope that Members will have understood my ruling today and will reflect upon it. I am, of course, always available to speak to Members privately should they wish to discuss a matter further or if they feel that that would be more appropriate than raising an issue on the floor of the Chamber.

perthynas â sylwadau a wnaed gan Antoinette Sandbach, yr Aelod dros Ogledd Cymru, ynglŷn ag ymweliadau gweinidogol. Er i mi ymdrin â’r pwynt o drefn ar y pryd, ers hynny rwyf wedi cael cyfle i feddwl rhagor, ac rwyf am atgyfnerthu fy nyfarniad blaenorol. Yn benodol, gadewch i mi ei gwneud yn glir bod pob Aelod unigol yn gyfrifol am gynnwys a chywirdeb eu cyfraniadau. Pe bai prawf bod y cyfraniadau hyn yn anghywir, rwy’n disgwyl i Aelodau dynnu’r sylwadau hyn yn ôl ar unwaith ac ymddiheuro’n wylaidd. Pan alwaf ar Aelod i ymateb i bwynt o drefn ynghylch eu sylwadau yn ystod y trafodion, er y bydd am egluro ei sylwadau efallai, nid cyfle i ymestyn y sgwrs drwy gymryd rhan mewn trafodaeth bellach mohono. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch yr hyn a ddywedwyd, byddai’n ddoeth ymatal rhag gwneud rhagor o bwyntiau a chymryd y cyfle i adolygu’r hyn a ddywedwyd yn y Cofnod pan gaiff ei gyhoeddi.

Ar ôl ymdrin â’r mater hwnnw, a oedd yn bwynt o drefn cwbl ddilys, hoffwn gymryd y cyfle hwn i wneud sylwadau mwy cyffredinol ar y defnydd a wneir o bwyntiau o drefn hyd yn hyn yn ystod wythnosau cyntaf y Cynulliad hwn. Cafwyd nifer ohonynt gan Aelodau newydd ac Aelodau sydd wedi dychwelyd, sydd wedi ymwneud â manylion y sylwadau a wnaed gan Aelodau eraill. Fy nghyfrifoldeb i, fel Llywydd, yw sicrhau nad yw Aelodau yn defnyddio iaith amhriodol neu afreolus yn y Cynulliad. Yn hyn o beth, yr egwyddor gychwynnol yw y dylai Aelodau drin ei gilydd â pharch a chwrteisi a chydymffurfio â’r cyfarwyddiadau a roddir gan y Cadeirydd. Dylai dadleuon yn y Cynulliad Cenedlaethol fod yn gadarn ac o ansawdd uchel, fel sy’n briodol mewn deddfwrfa seneddol, ac nid yn frith â phwyntiau nad ydynt prin yn berthnasol, neu ddim yn berthnasol o gwbl i’r drafodaeth dan sylw, nac i’r cyhoedd sy’n arsylwi ar ein trafodion. Felly, wrth lywio dadleuon yn y Siambr, nid wyf am feithrin diwylliant lle mae mân faterion iaith yn destun pwyntiau o drefn yn rheolaidd. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau wedi deall fy nyfarniad heddiw ac y byddant yn ei ystyried. Rwyf ar gael bob amser i siarad ag Aelodau yn breifat os byddant yn dymuno trafod mater ymhellach wrth gwrs, neu os ydynt yn teimlo y byddai hynny’n fwy priodol na chodi mater ar lawr y

Siambr.

**Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011**
**Motion to Approve the Welsh Language Commissioner (Appointment) Regulations 2011**

*Cynnig NDM4745 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5*

*Yn cymeradwyo bod fersiwn drafft Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mehefin 2011.*

*Motion NDM4745 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5*

*Approves that the draft The Welsh Language Commissioner (Appointment) Regulations 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 1 June 2011.*

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Cynigiaf y cynnig.

Gwneir y rheoliadau drafft hyn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddant yn galluogi Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'u dyletswydd, o dan baragraff 7 o Atodlen 1 i'r Mesur, i wneud rheoliadau ynghylch penodi comisiynydd y Gymraeg. Mae'r rheoliadau penodi hyn yn gam cyntaf pwysig yn y broses o benodi'r comisiynydd ac yr wyf yn falch ein bod wedi gallu gwneud cynnydd da ar y mater hwn yn fuan ar ôl ffurfio'r Llywodraeth newydd.

Mae'r rheoliadau drafft yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, unwaith y bydd Prif Weinidog Cymru yn gofyn iddynt wneud hynny, i gynnull panel dethol i gyfweld ag ymgeiswyr ac i wneud argymhellion i'r Prif Weinidog parthed y penodiad.

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu i Aelod o'r Cynulliad a enwebir gan un o bwyllgorau'r Cynulliad i fod ar y panel dethol. Yn arferol, bwriad y Llywodraeth hon fyddai gwahodd pwyllgor o'r Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros graffu ar bolisi iaith y Llywodraeth i enwebu Aelod Cynulliad i fod ar y panel dethol. Ar yr achlysur hwn, o ganlyniad i absenoldeb pwyllgorau craffu, yr wyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn gofyn iddo enwebu Aelod Cynulliad i eistedd ar y panel a gaiff ei gynnull ar yr amod bod y rheoliadau hyn yn cael eu cymeradwyo.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I move the motion.

These draft regulations are to be made under the Welsh Language (Wales) Measure 2011. They will allow Welsh Ministers to comply with their duty, under paragraph 7 of Schedule 1 to the Measure, to make regulations relating to the appointment of a Welsh language commissioner. These appointment regulations are an important first step in appointing a commissioner and I am pleased that we have been able to progress this matter soon after the formation of the new Government.

The draft regulations place a duty on Welsh Ministers, once requested to do so by the First Minister, to convene a selection panel to interview candidates and make recommendations to the First Minister regarding the appointment.

The regulations provide for an Assembly Member, nominated by an Assembly committee, to sit on the selection panel. Normally, this Government's intention would have been to invite an Assembly committee with responsibility for scrutiny of issues relating to the Government's Welsh language policy to nominate an Assembly Member to sit on the selection panel. On this occasion, due to the absence of scrutiny committees, I have written to the Business Committee to seek a nomination for an Assembly Member to sit on the panel that will be convened

subject to these regulations being approved.

Bydd y panel dethol hefyd yn cynnwys person sydd â phrofiad o hybu defnydd o'r Gymraeg a/neu iaith arall; aelod o staff Llywodraeth Cymru; a pherson achrededig gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus i weithredu fel asesydd annibynnol. Mae cyfansoddiad y panel dethol yn gyson â phroses sydd eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer penodiadau cyhoeddus, ond mae hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o blith y rhanddeiliaid sydd â phrofiad perthnasol ym maes gwaith y comisiynydd. Yr wyf yn hyderus bod y panel dethol yn briodol ac y bydd yn cynnig safbwynt cytbwys o ran ei argymhellion i'r Prif Weinidog.

The selection panel will also include a person with experience of the promotion of the use of Welsh and/or another language; a member of staff of the Welsh Government; and a person accredited by the Office of the Commissioner for Public Appointments to act as an independent assessor. The composition of the selection panel is consistent with a well-established process for public appointments, but also includes representation from stakeholders with relevant experience in the field of the commissioner's work. I am confident that the selection panel is appropriate and will provide a balanced view in its recommendations to the First Minister.

Mae'r rheoliadau drafft yn gosod dyletswydd ar y Prif Weinidog, wrth wneud y penodiad, i ddilyn egwyddorion cyfrifoldeb Gweinidogion, craffu annibynnol, cyfle cyfartal, uniondeb, didwylledd a thrylowder, a chymusuredd, sy'n ystyriaethau creddiol yn y broses penodiadau cyhoeddus.

The draft regulations place a duty on the First Minister, in appointing the commissioner, to follow the principles of ministerial responsibility, independent scrutiny, equal opportunities, probity, openness and transparency, and proportionality, which are core considerations in the public appointments process.

Bydd y comisiynydd yn bencampwr ac yn eiriolwr dros y Gymraeg ac y bydd hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu a gorfodi safonau iaith. I'r perwyl hwn, mae'r rheoliadau drafft yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r panel dethol asesu sgiliau gwybodaeth pob ymgeisydd o'r Gymraeg a'i hyfedredd ynddi, a chynnwys yr asesiad yn ei argymhellion i'r Prif Weinidog.

The commissioner will be a champion and advocate for the Welsh language and will also play a key role in developing and enforcing Welsh language standards. To this end, the draft regulations require the selection panel to assess each candidate's knowledge of, and proficiency in, the Welsh language and to include the assessment in its recommendations to the First Minister.

Mae'r Llywodraeth hon yn awyddus i fwrw ymlaen ac i benodi'r comisiynydd cyn gynted ag sy'n bosibl. Gan gymryd y bydd y rheoliadau drafft yn cael eu cymeradwyo y prynhawn yma, bwriad y Llywodraeth yw hysbysebu swydd y comisiynydd ym mis Gorffennaf a gwneud datganiad ynghylch yr ymgeisydd llwyddiannus yn yr hydref. Wrth gwrs, mae'r rheoliadau hyn yn rhan o raglen waith ehangach er mwyn gwireddu'r Mesur. Yr wyf yn edrych ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid wrth i ni fwrw ymlaen i benodi'r comisiynydd.

This Government is keen to press ahead and to appoint the commissioner as soon as possible. Subject to the approval of the draft regulations this afternoon, it is the Government's intention to advertise the post of commissioner in July, with a view to announcing the identity of the successful candidate in the autumn. Of course, these regulations are part of a wider programme of activity to implement the Measure. I look forward to working with Assembly Members and stakeholders as we move to appoint the commissioner.

**Suzy Davies:** Wrth gwrs, yr wyf yn gwerthfawrogi'r ffaith y byddwn yn cael comisiynydd.

**Suzy Davies:** Of course, I appreciate the fact that we are to have a commissioner.

However, Minister, the Welsh Conservatives will be abstaining in the vote on this motion due to our concerns that the regulations do not adequately ensure the necessary independence of the Welsh language commissioner. Although we accept that the Welsh Government has made some concessions, it has failed to accept important recommendations made by a number of Assembly committees.

Fodd bynnag, Weinidog, bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn ymatal yn y bleidlais ar y cynnig hwn oherwydd ein pryderon nad yw'r rheoliadau yn sicrhau'n ddigonol y ceir yr annibyniaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer comisiynydd y Gymraeg. Derbyniwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhai consesiynau, fodd bynnag, nid yw wedi derbyn argymhellion pwysig a wnaed gan nifer o bwyllgorau'r Cynulliad.

First, although the Minister must take account of a candidate recommended by the specially constituted selection panel, the First Minister is not bound by that recommendation and we believe that he should be. Secondly, and perhaps more importantly, in order to convince the people of Wales of the commissioner's independence, the First Minister's nomination should be put to a vote by the Assembly in Plenary. This would place the language commissioner on the same footing as the Children's Commissioner for Wales and the Commissioner for Older People in Wales, in being appointed by the Assembly rather than by Ministers. Therefore, Minister, I urge you to reconsider those points in order to secure our support.

Yn gyntaf, er bod yn rhaid i'r Gweinidog ystyried ymgeisydd a argymhellwyd gan y panel dethol arbennig a luniwyd, nid yw'r Prif Weinidog yn rhwymedig gan yr argymhelliad hwnnw, ac rydym ni o'r farn y dylai fod. Yn ail, ac yn bwysicach efallai, er mwyn argyhoeddi pobl Cymru bod y comisiynydd yn annibynnol, dylid pleidleisio ar enwebiad y Prif Weinidog gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn. Byddai hyn yn golygu bod Comisiynydd y Gymraeg ar yr un sail â Chomisiynydd Plant a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, am ei fod yn cael ei benodi gan y Cynulliad yn hytrach na chan Weinidogion. Felly, Weinidog, byddwn yn eich annog i ail-ystyried y pwyntiau hynny er mwyn sicrhau y byddwch yn cael ein cefnogaeth.

**Bethan Jenkins:** Hoffwn ddiolch i'r cyn Weinidog, Alun Ffred Jones, am yr holl waith a wnaeth yn y maes i sicrhau ein bod yma heddiw yn trafod y ffaith bod swydd comisiynydd iaith ar fin cael ei chreu am y tro cyntaf yng Nghymru. Dyna'r peth mwyaf pwysig a fydd yn dod i'r amlwg heddiw.

**Bethan Jenkins:** I wish to thank the former Minister, Alun Ffred Jones, for all the work that he did in this area to ensure that we are today discussing the fact that a language commissioner is to be appointed for the first time in Wales. That is the most important thing that will emerge today.

Yr wyf am danlinellu'r ffaith fy mod am sicrhau fod y comisiynydd yn hollol annibynnol. Dyna pam yr wyf yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn cymeradwyo'r cynnig bod Aelod Cynulliad yn eistedd ar y panel, gan y bydd Aelod Cynulliad sydd â chefndir yn y maes yn sicrhau bod y comisiynydd o safon uchel iawn er mwyn bod yn lladmerydd dros yr iaith ac yn eiriolydd dros holl bobl Cymru, boed hwy'n Gymry Cymraeg, yn ddysgwyr, yn bobl ddi-Gymraeg gyda phlant mewn addysg Gymraeg, neu'n rhai sy'n byw yng Nghymru nad ydynt yn medru'r iaith. A ydych yn cytuno bod angen i ni newid y ffordd yr

I underline the fact that I want to ensure that the commissioner is entirely independent. That is why I think that it is important that we approve the motion that an Assembly Member should be a member of the panel, as an Assembly Member with a background in this area will ensure that the commissioner is of the highest possible quality to be an advocate for the Welsh language and an advocate for all the people of Wales, be they Welsh speakers, learners, non-Welsh speakers who have children in Welsh-medium education, or people living in Wales who cannot speak any Welsh. Do you agree that we need to change the way that we

ydym yn gweithredu a thorri'r patrwm a sefydlwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o ganolbwyntio ar sefydliadau yn hytrach na phobl ac edrych ar yr hyn sy'n bwysig o ran yr unigolion a hawliau unigolion i fedru'r iaith a'i defnyddio yng Nghymru?

operate and break the pattern established by the Welsh Language Board of concentrating on institutions rather than individuals, and to look at what is important in terms of individuals and the rights of individuals to use the Welsh language in Wales?

Hoffwn orffen drwy ddiolch am yr hyn sydd wedi ei ddweud heddiw ac yr wyf yn ffyddiog bydd y rôl hwn yn bwysig iawn i ddyfodol yr iaith Gymraeg yng Nghymru.

I conclude by thanking you for what has been said this afternoon; I am confident that this role will be important for the future of the Welsh language in Wales.

**Peter Black:** Although I share the concern that this commissioner is not being appointed by the whole Assembly, we will be voting for these regulations because we think that it is important that the new commissioner is appointed and in post as soon as possible. However, I have a few points to raise in relation to the legislation that we have before us. I fully expect that a member will be nominated by the new Communities, Equality and Local Government Committee as I believe that it has a responsibility for this aspect of the Welsh language. It would clearly be better if the appointment was made by the whole Assembly and, therefore, would the Minister consider future appointments along those lines? Where you have such a commissioner, it is important that his or her independence from Government is seen to be assured. An appointment by the Assembly would be quite an important way of demonstrating that that was the case.

**Peter Black:** Er fy mod innau hefyd yn pryderu nad yw'r comisiynydd hwn yn cael ei benodi gan y Cynulliad cyfan, byddwn yn pleidleisio o blaid y rheoliadau hyn oherwydd credwn ei bod yn bwysig bod y comisiynydd newydd yn cael ei benodi ac yn ei swydd cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, mae gennyf ychydig o bwyntiau i'w codi o ran y ddeddfwriaeth sydd ger ein bron. Rwyf yn llwyr ddisgwyl y bydd aelod yn cael ei enwebu gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol newydd, gan fy mod yn credu bod ganddo gyfrifoldeb dros yr agwedd hon ar yr iaith Gymraeg. Yn amlwg, byddai'n well pe bai'r penodiad yn cael ei wneud gan y Cynulliad cyfan ac felly, a fyddai'r Gweinidog yn ystyried penodiadau tebyg yn y dyfodol? Pan fydd gennym gomisiynydd o'r fath, mae'n bwysig bod sicrwydd ynghylch ei annibyniaeth o'r Llywodraeth. Byddai cael y Cynulliad i benodi yn ffordd eithaf pwysig o ddangos mai dyna oedd yn wir.

I would like the Minister to outline how he proposes to ensure that, in the changeover, the expertise of the Welsh Language Board is not lost and that the new commissioner is able to take on board the Welsh Language Board's current workload. It is important to have a smooth changeover. I would not like to see problems arising as a result of the new regime being put in place.

Hoffwn pe bai'r Gweinidog yn amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau, yn y cyfnod o newid, na chollir arbenigedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg a bod y comisiynydd newydd yn gallu derbyn llwyth gwaith presennol Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'n bwysig bod y trosglwyddo'n llyfn. Ni hoffwn weld problemau'n codi yn sgîl y drefn newydd.

Finally, I am concerned about the £30,000 cost of appointing this commissioner. It is a lot of money, even in terms of a public appointment of this importance. I would be grateful if the Minister could give an indication as to how that expenditure will be broken down so that we can properly scrutinise this process and ensure that we are getting value for money out of the

Yn olaf, rwy'n pryderu am y gost o £30,000 i benodi'r comisiynydd hwn. Mae'n arian mawr, hyd yn oed ar gyfer penodiad cyhoeddus mor bwysig â hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi syniad ynghylch sut y bydd y gwariant yn cael ei nodi, fel y gallwn graffu'n briodol ar y broses hon a sicrhau y ceir gwerth am arian o'r broses benodi ei hun. Rwy'n cymryd yn

appointment process itself. I take for granted that the best person will get the job and that he or she will be suitable and able to carry out the work. Clearly, the cost of the appointment seems to be fairly high.

ganiataol y penodir y person gorau i'r swydd ac y bydd ef neu hi yn addas ac yn gallu cyflawni'r gwaith. Yn amlwg, mae cost y penodiad yn ymddangos yn eithaf uchel.

**The Deputy Presiding Officer:** I hope that Members will indulge me if I may, on this occasion, just explain briefly the role of the Committee on Statutory Instruments, which met in that guise for the first and last time last week. The committee has now morphed into the Constitutional and Legislative Affairs Committee, but, by any name, its role in scrutinising subordinate legislation will not change. The committee is required to consider statutory instruments laid before the Assembly and to report on whether special attention should be paid to them for a range of technical and legal reasons. The committee is also able to report on the merits of a statutory instrument, as we have done in this case.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gobeithio y bydd yr Aelodau'n caniatáu i mi, os caf, gymryd y cyfle hwn, i ddim ond esbonio'n fyr rôl y Pwyllgor Offerynnau Statudol, a gyfarfu o dan yr enw hwnnw am y tro cyntaf a'r tro olaf yr wythnos diwethaf. Enw'r pwyllgor bellach yw'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ond, beth bynnag fydd ei enw, ni fydd ei rôl o graffu ar is-ddeddfwriaeth yn newid. Mae'n ofynnol i'r pwyllgor ystyried offerynnau statudol a osodir gerbron y Cynulliad a chyflwyno adroddiad ynghylch a ddylid rhoi sylw arbennig iddynt am amryw o resymau technegol a chyfreithiol. Gall y pwyllgor gyflwyno adroddiad ar rinweddau offeryn statudol penodol hefyd, fel y gwnaethom yn yr achos hwn.

There are a number of grounds for merits reports, including, most often—and in this case—that the statutory instrument concerned gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Assembly. I should make it clear that the purpose of making such merits reports is not to question the underlying policy behind regulations or, necessarily, to be critical. The committee is not opposed to these particular regulations, and it is not suggesting that they should not be approved.

Mae nifer o seiliau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar rinweddau, gan gynnwys, yn fwyaf aml, ac yn yr achos hwn, bod yr offeryn statudol dan sylw yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Dylwn ei gwneud yn glir nad diben gwneud adroddiadau rhinweddau o'r fath yw cwestiynu'r polisi gwaelodol y tu ôl i reoliadau neu, o reidrwydd, i fod yn feirniadol. Nid yw'r pwyllgor yn gwrthwynebu'r rheoliadau penodol hyn, ac nid yw'n awgrymu na ddylent gael eu cymeradwyo.

3.00 p.m.

Turning to the merits report in detail, these are the first regulations to be made under the Welsh Language (Wales) Measure 2011, and for that reason alone we believe that they need special attention.

Gan droi at yr adroddiad rhinweddau yn fanwl, y rhain yw'r rheoliadau cyntaf i gael eu gwneud o dan y Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, ac am y rheswm hwnnw'n unig rydym yn credu eu bod angen sylw arbennig.

Secondly, the issue of how the Welsh language commissioner should be appointed was considered by the then Constitutional Affairs Committee and by Legislation Committee No. 2 as part of their scrutiny of the Measure in the third Assembly. The committees were concerned that the

Yn ail, cafodd y mater o sut y dylai'r comisiynydd iaith Gymraeg gael ei benodi ei ystyried gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac wedyn gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 fel rhan o'u gwaith craffu ar y Mesur yn y trydydd Cynulliad. Roedd y pwyllgorau yn pryderu bod y

appointment by the First Minister raised questions about how independent the commissioner would be perceived to be. In particular, the legislation committee recommended that the National Assembly should be responsible for the commissioner's appointment. The Constitutional Affairs Committee pointed out that the independence of the commissioner would be important in establishing his or her credibility, and that the appointment regulations should be agreed by the whole Assembly to ensure that the right balance was struck. That is where we find ourselves today in looking at those regulations.

penodiad gan y Prif Weinidog yn codi cwestiynau ynghylch pa mor annibynnol y byddai'r comisiynydd yn cael ei weld i fod. Yn arbennig, argymhellodd y pwyllgor deddfwriaeth y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn gyfrifol am benodi'r comisiynydd. Nododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol y byddai annibyniaeth y comisiynydd yn bwysig o ran sefydlu ei hygrededd, ac y dylai'r Cynulliad cyfan gytuno ar y rheoliadau penodi i sicrhau'r cydbwysedd iawn. Dyna lle rydym heddiw wrth edrych ar y rheoliadau hynny.

Therefore, Members may want to consider during the debate whether the appointment regulations strike that correct balance between the somewhat competing aims of demonstrating the independence of the commissioner and the need for him or her to be subject to a degree of political direction.

Felly, efallai y bydd Aelodau am ystyried yn ystod y ddadl a yw'r rheoliadau penodi yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng y nodau sy'n cystadlu braidd o ddangos annibyniaeth y comisiynydd a'r angen iddo ef neu hi fod yn destun rhywfaint o gyfarwyddyd gwleidyddol.

Turning to the nominating committee, regulation 2(d) allows the Assembly committee to nominate an Assembly Member to sit on the selection panel that will advise the First Minister on the appointment, and which committee should make the nomination is a matter for Welsh Ministers to decide—the Minister has just indicated his approach. However, the committee that is asked to make a nomination can nominate any Assembly Member, and is not restricted to nominating a member of the committee. The committee could also decline to make a nomination.

Gan droi at y pwyllgor enwebu, mae rheoliad 2(d) yn caniatáu i bwyllgor y Cynulliad enwebu Aelod Cynulliad i eistedd ar y panel dethol a fydd yn cynghori'r Prif Weinidog ar y penodiad, ac mae pa bwyllgor ddylai wneud yr enwebiad yn fater i Weinidogion Cymru benderfynu arno—mae'r Gweinidog newydd nodi sut bydd yn mynd ati. Fodd bynnag, gall y pwyllgor sy'n cael ei ofyn i wneud enwebiad enwebu unrhyw Aelod o'r Cynulliad, ac nid yw'n gyfyngedig i enwebu aelod o'r pwyllgor. Gallai'r pwyllgor hefyd wrthod gwneud enwebiad.

I am in some confusion as to what the Minister intends to do, because our recommendation in the report on these regulations was that the committee with responsibility for scrutiny of issues relating to the Welsh language should be asked to make the nomination. That committee has now been established but it will not be consulted, if I have inferred correctly what the Minister said. This has to be the subject of further explanation in the Minister's final remarks. I hope that the haste to make this appointment will not disturb what seem to be more regular procedures.

Rwyf mewn peth dryswch ynghylch yr hyn y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud, gan mai ein hargymhelliad yn yr adroddiad ar y rheoliadau hyn oedd y dylai'r pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg gael ei ofyn i wneud yr enwebiad. Mae'r pwyllgor hwnnw wedi ei sefydlu, ond ni fydd ymgynghori ag ef, os deallais yn gywir yr hyn a ddywedodd y Gweinidog. Rhaid i'r Gweinidog egluro ymhellach yn ei sylwadau terfynol. Gobeithiaf na fydd y brys i wneud y penodiad hwn yn tarfu ar beth sy'n ymddangos i fod yn weithdrefnau mwy arferol.

**Jocelyn Davies:** On a point of clarification,

**Jocelyn Davies:** Ar bwynt o eglurhad,

the Minister indicated that he had written to the Business Committee, which decided this morning to refer it to the relevant committee Chair.

dywedodd y Gweinidog ei fod wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes, a benderfynodd y bore yma i'w gyfeirio at Gadeirydd y pwyllgor perthnasol.

**The Deputy Presiding Officer:** I am glad of that clarification, because I found the matter a little confusing when I listened to the Minister's remarks. However, I am sure that he will confirm that the nomination will be sought from the committee that has been established to scrutinise the Welsh language.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwy'n falch o gael yr eglurhad hwnnw, oherwydd cefais fy nrysu ychydig wrth wrando ar sylwadau'r Gweinidog. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y bydd yn cadarnhau y bydd yn gofyn am enwebiad gan y pwyllgor a sefydlwyd i graffu ar yr iaith Gymraeg.

Finally, I wish to refer to the First Minister's duty to take into account the panel's recommendation. We need further clarification from the Minister regarding the circumstances under which the First Minister would not act on the recommendation of that panel. He is not required to act on it, but it would presumably be a pretty extraordinary situation for him not to do so. The Assembly would be helped if the Minister gave some indication as to what would be relevant and appropriate criteria for a First Minister to act in such a manner.

Yn olaf, hoffwn gyfeirio at ddyletswydd y Prif Weinidog i ystyried argymhelliad y panel. Mae angen eglurhad pellach gan y Gweinidog ynglŷn â'r amgylchiadau lle na fyddai'r Prif Weinidog yn gweithredu ar argymhelliad y panel. Nid yw'n ofynnol iddo weithredu arno, ond byddai yn ôl pob tebyg yn sefyllfa eithaf anghyffredin iddo beidio â gwneud hynny. Byddai o fudd i'r Cynulliad os gallai'r Gweinidog roi ryw syniad ynghylch beth fyddai'r meini prawf perthnasol a phriodol i Brif Weinidog Cymru weithredu yn y fath fodd.

**The Presiding Officer:** To confirm Jocelyn Davies's intervention, the Business Committee did decide this morning to refer the letter to the appropriate committee, and that has now been done. Thank you for doing that, Jocelyn Davies.

**Y Llywydd:** I gadarnhau ymyriad Jocelyn Davies, fe wnaeth y Pwyllgor Busnes benderfynu'r bore yma i gyfeirio'r llythyr at y pwyllgor priodol, ac mae hynny bellach wedi'i wneud. Diolch am wneud hynny, Jocelyn Davies.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I will start with the comments made by David Melding and make it absolutely clear that I wrote to the Presiding Officer in relation to the Business Committee in case there was a problem with the establishment of the relevant committee. The regulations make it clear that the Business Committee could nominate a Member. The Business Committee has made its decision and we are keen to press ahead, which is why I brought the regulations forward at this stage. I can also confirm to Peter Black that we, of course, want to draw on the expertise of the existing Welsh Language Board. One of the advantages of the early establishment of the post of commissioner is that the commissioner may have a period of overlap with the Welsh Language Board, which may prove valuable in establishing the office.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Rwyf am ddechrau gyda'r sylwadau a wnaed gan David Melding a'i gwneud yn gwbl glir fy mod wedi ysgrifennu at y Llywydd mewn perthynas â'r Pwyllgor Busnes rhag ofn y byddai problem gyda sefydlu'r pwyllgor perthnasol. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn glir y gallai'r Pwyllgor Busnes enwebu Aelod. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi gwneud ei benderfyniad, ac rydym yn awyddus i fwrw ymlaen, a dyna pam rwy'n cyflwyno'r rheoliadau nawr. Gallaf gadarnhau gyda Peter Black ein bod ni, wrth gwrs, yn dymuno manteisio ar arbenigedd presennol Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Un o fanteision sefydlu swydd y comisiynydd yn gynnar yw y gall y comisiynydd gael cyfnod yn cydweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a allai fod yn werthfawr wrth sefydlu'r swydd.

Yr wyf yn ymuno gyda Bethan Jenkins yn ei diolch i'r cyn-Weinidog, Alun Ffred, am ei waith ar y pwnc hwn. Yr oeddwn yn Weinidog yn Llywodraeth Cymru'n Un ac yr wyf yn dilyn yr un polisïau yn awr. Mae'n bwysig dweud heddiw y bydd y comisiynydd yn annibynnol. Nid oes Gweinidog ar y panel dethol. Felly, bydd y comisiynydd yn annibynnol.

I join Bethan Jenkins in thanking the former Minister, Alun Ffred, for his work in this area. I was a Minister in the One Wales Government and I am following the same policies now. It is important to say today that the commissioner will be independent. There is no Minister on the selection panel. Therefore, the commissioner will be independent.

Mae defnydd yr iaith yn bwysig i mi. Mae'n bwysig ein bod yn canfod ffyrdd i helpu pobl i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle neu yn y gymuned ac mae'n bwysig bod polisïau'r Llywodraeth yn helpu hynny. Mae'n siomedig nad yw'r Ceidwadwyr yn cefnogi'r cynnig heddiw. Yr wyf yn edrych ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Cynulliad wrth inni fwrw ymlaen i benodi'r comisiynydd. Mae'n bwysig ein bod yn symud ymlaen yn awr.

The use of the Welsh language is important to me. It is important that we find ways of helping people to use the language in the workplace or in the community and it is important that Government policies facilitate that. It is disappointing that the Conservatives are not supporting today's motion. I look forward to working with Assembly Members as we move ahead with the appointment of a commissioner. It is important that we progress now.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are. In that case, all voting on this item will be deferred until voting time.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, caiff yr holl bleidleisio ar yr eitem hon ei ohirio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl ar Wasanaethau Cymdeithasol
## Debate on Social Services

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1 in the name of Jocelyn Davies, amendments 2, 4 and 5 in the name of Peter Black and amendment 3 in the name of Nick Ramsay.

**Y Llywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 2, 4 a 5 yn enw Peter Black a gwelliant 3 yn enw Nick Ramsay.

*Cynnig NDM4746 Jane Hutt*

*Motion NDM4746 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn cydnabod mai'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r weledigaeth sydd wedi'u pennu yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' yw'r allwedd i gyflawni ein huchelgais ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru; ac*

*1. Recognises that the values, principles and vision set out in 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' are the key to delivering on our ambition for social services in Wales; and*

*2. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i*

*2. Notes the Welsh Government's*

*ddatblygu ac i arwain y rhaglen newid y mae gofyn ei chynnal er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fodloni anghenion a dyheadau ein dinasyddion.*

*commitment to developing and leading the change programme required to ensure that social services continue to meet the needs and aspirations of our citizens.*

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Cynigiaf y cynnig.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** I move the motion.

Mae'n bleser gennyf osod y cynnig gerbron y Cynulliad.

It is my pleasure to table this motion before the Assembly.

The Welsh Government published 'Sustainable Social Services for Wales' in February this year. I want to make it clear that the values, principles and vision that the paper contains are key. It is these commitments that will form the basis for the social services Bill that the First Minister has indicated will be found a prominent place in our legislative programme. The future of social services is a matter for us in Wales, and we need to be bold in seizing that opportunity with both hands. We are building on strengths and looking forward to achieving even more. Despite a financial settlement for Wales that was neither fair nor adequate, we have protected social services, we have built a consensus about social services and we have set out a way forward. As far as our recent record is concerned, we have introduced a Measure to give effect to the United Nations Convention on the Rights of the Child, we have set financial limits on the cost of support, we have strengthened the voice of carers, we have rolled out integrated family support teams and we have strengthened the workforce. That is why I cannot accept amendment 1, tabled by Jocelyn Davies.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru' ym mis Chwefror eleni. Rwyf am ei gwneud yn glir bod y gwerthoedd, yr egwyddorion a'r weledigaeth sydd yn y papur hwnnw yn allweddol. Bydd yr ymrwymiadau hynny yn sail i'r Bil gwasanaethau cymdeithasol y mae'r Prif Weinidog wedi nodi y bydd yn cael lle amlwg yn ein rhaglen ddeddfwriaethol. Mae dyfodol gwasanaethau cymdeithasol yn fater i ni yng Nghymru, ac mae angen inni fod yn feiddgar a manteisio ar y cyfle hwnnw gyda dwy law. Rydym yn adeiladu ar gryfderau ac yn edrych ymlaen at gyflawni hyd yn oed mwy. Er gwaethaf setliad ariannol annheg ac annigonol i Gymru, rydym wedi diogelu gwasanaethau cymdeithasol, rydym wedi adeiladu consensws ynghylch gwasanaethau cymdeithasol, ac rydym wedi nodi ffordd ymlaen. O ran ein record ddiweddar, rydym wedi cyflwyno Mesur i roi effaith i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, rydym wedi gosod cyfyngiadau ariannol ar gost cefnogaeth, rydym wedi cryfhau llais gofalwyr, rydym wedi cyflwyno timau cymorth i deuluoedd integredig ac rydym wedi cryfhau'r gweithlu. Dyna pam na allaf dderbyn gwelliant 1, a gyflwynwyd gan Jocelyn Davies.

Social services support 150,000 people each year to achieve their potential and to help make them safe. They also assist their carers and families, and help to build supportive communities. They enable people of all ages and backgrounds to have a better life and to participate more fully in society. Our policy is about ensuring that social services remain strong and able to adapt as society changes. We are committed to doing our best to make sure that those people's needs continue to be

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi 150,000 o bobl bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac yn helpu i'w gwneud yn ddiogel. Maent hefyd yn cynorthwyo eu gofalwyr a'u teuluoedd, ac yn helpu i adeiladu cymunedau cefnogol. Maent yn galluogi pobl o bob oedran a chefndir i gael gwell bywyd ac i gymryd rhan lawnach mewn cymdeithas. Ein polisi yw sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn parhau'n gryf ac yn gallu addasu wrth i gymdeithas newid. Rydym

met and that they are protected whenever that is needed. This is a primary duty of the state. We are absolutely determined to do what we can as a Government to fulfil that duty. It is far too important to be left to chance or to the market. However, we do not underestimate the challenges that we face.

wedi ymrwymo i wneud ein gorau i sicrhau bod anghenion y bobl hynny yn parhau i gael eu bodloni a'u bod yn cael eu hamddiffyn pryd bynnag mae angen hynny. Mae hynny'n un o brif ddyletswyddau'r wladwriaeth. Rydym yn gwbl benderfynol o wneud yr hyn a allwn fel Llywodraeth i gyflawni'r ddyletswydd honno. Mae'n llawer rhy bwysig i adael hynny i ffawd neu i'r farchnad. Fodd bynnag, nid ydym yn bychanu'r heriau sy'n ein hwynebu.

In her statement during the 'Dignified Care?' debate on 15 June, the Minister for Health and Social Services confirmed that I would provide an update to Members on the ongoing developments surrounding Southern Cross Healthcare, and I will issue a written statement later this week.

Yn ei datganiad yn ystod y ddadl 'Gofal gydag Urddas?' ar 15 Mehefin, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar y datblygiadau parhaus o amgylch Southern Cross Healthcare, a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn ddiweddarach yr wythnos hon.

We are part of major changes in our society. The combination of changing social expectations, demography and the very real pressure on resources has changed—and continues to change—the landscape. Social services and social care must continue to change and adapt to meet both the challenges and the opportunities that this new landscape presents. Standing still is not an option. This means that we have to change and improve what we do. As the First Minister has made clear, the Welsh Government is going to deliver, and will expect others to deliver, too.

Rydym yn rhan o newidiadau mawr yn ein cymdeithas. Mae'r cyfuniad o newid mewn disgwyliadau cymdeithasol, demograffeg a'r pwysau real iawn ar adnoddau wedi newid—ac yn parhau i newid—y dirwedd. Rhaid i wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol barhau i newid ac addasu i gwrdd â'r heriau a'r cyfleoedd y mae'r dirwedd newydd yn eu cyflwyno. Nid yw sefyll yn stond yn opsiwn. Golyga hynny bod rhaid inni newid a gwella'r hyn a wnawn. Fel y mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn glir, mae Llywodraeth Cymru yn mynd i gyflawni, a bydd yn disgwyl i bobl eraill gyflawni hefyd.

Our manifesto demonstrates the extent of our commitment to developing and leading the change programme necessary to make social services sustainable for the future. I cannot therefore support amendment 2, tabled by Peter Black. I am, however, happy to support Peter's amendment 4. We are in the process of developing a delivery plan to underpin the change programme, in discussion with our stakeholders. We do not claim to have a monopoly on wisdom, and we all know that it is absolutely right to give a real voice and real control to people who use services at every level of what we do. We know that real integration, within and across organisations, is what will make a difference to the experience that people have when using

Mae ein maniffesto yn dangos hyd a lled ein hymrwymiad i ddatblygu ac arwain y rhaglen newid sydd ei hangen i sicrhau gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Felly, ni allaf gefnogi gwelliant 2, a gyflwynwyd gan Peter Black. Fodd bynnag, rwy'n hapus i gefnogi gwelliant 4 Peter. Rydym yn y broses o ddatblygu cynllun cyflawni i fod yn sail i'r rhaglen newid, mewn trafodaeth â'n rhanddeiliaid. Nid ydym yn honni bod gennym fonopoli ar ddoethineb, ac rydym i gyd yn gwybod ei bod yn gwbl briodol i roi gwir lais a gwir reolaeth i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar bob lefel o'r hyn a wnawn. Gwyddwn mai integreiddio go iawn, o fewn ac ar draws sefydliadau, fydd yn gwneud gwahaniaeth i brofiad pobl o

services. Through the national social services partnership forum, which I will chair, I will provide leadership and direction to tackle these enormous challenges. It will provide Ministers with advice on policy and priorities, and will deliver practical leadership and action on our programme of change. It will be made up of the political leadership of the key national stakeholders, as well as service users and carers. If this forum is to lead effectively, its members must be from across the main political parties in Wales. I will seek membership from cabinet members in local government from each of these parties, alongside the chair of the Care Council for Wales, and the leadership of the independent sector and the third sector.

ddefnyddio'r gwasanaethau. Drwy'r fforwm partneriaeth gwasanaethau cymdeithasol cenedlaethol, y byddaf yn ei gadeirio, byddaf yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad i fynd i'r afael â'r heriau enfawr hyn. Bydd yn rhoi i Weinidogion gyngor ar bolisïau a blaenoriaethau, a bydd yn darparu arweinyddiaeth ymarferol a gweithredu ar ein rhaglen o newid. Bydd yn cynnwys arweinwyr gwleidyddol y rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol, yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Os yw'r fforwm hwn i arwain yn effeithiol, rhaid i'w aelodau ddod o'r prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru. Byddaf yn chwilio am aelodau o gabinetau llywodraeth leol o bob un o'r pleidiau hynny, ynghyd â chadeirydd Cyngor Gofal Cymru, ac arweinwyr o'r sector annibynnol a'r trydydd sector.

Our safeguarding arrangements are too complex. I will create an independently chaired national board that drives the work needed to protect children and adults. I do not believe that a supermarket approach to choice delivers real choice, control or even good-quality care. The label 'personalisation' has become too closely associated with a market-led model of consumer choice. Therefore, personal budgets for all care users is not the policy that we have chosen to adopt in Wales. Simply giving people a budget is not enough. Control is not just about money: it is about transparency, consistency and equity in meeting care needs. I cannot, therefore, support amendment 5 tabled by Peter Black.

Mae ein trefniadau diogelu yn rhy gymhleth. Byddaf yn creu bwrdd cenedlaethol a gaiff ei gadeirio'n annibynnol i yrru'r gwaith sydd ei angen i amddiffyn plant ac oedolion. Nid wyf yn credu bod dull archfarchnad o ddewis yn darparu dewis gwirioneddol, rheolaeth neu hyd yn oed ofal o ansawdd dda. Mae'r label 'personoli' wedi dod yn rhy gysylltiedig â'r model o ddewis i ddefnyddwyr sy'n cael ei arwain gan y farchnad. Felly, nid ydym wedi mabwysiadu'r polisi cyllidebau personol ar gyfer holl ddefnyddwyr gofal yng Nghymru. Nid yw rhoi cyllideb i bobl yn ddigon. Nid yw rheolaeth yn ymwneud ag arian yn unig: mae'n ymwneud â thryloywder, cysondeb a thegwch wrth ddiwallu anghenion gofal. Felly, ni allaf gefnogi gwelliant 5 a gyflwynwyd gan Peter Black.

I do accept that, for some people, however, control means managing their service themselves, and direct payments are an important tool in achieving this. We have encouraged the use of direct payments in Wales and there are a variety of schemes to support individuals in managing their direct payments. I am, therefore, happy to support amendment 3, tabled by Nick Ramsay. However, not all of this is for us to do. Leadership has to come from our key partners too. I have written to council leaders asking how they are going to lead and implement those parts of sustainable social services that fall to them. I want to hear how

Rwy'n derbyn, i rai pobl, fodd bynnag, bod rheoli yn golygu rheoli eu gwasanaeth eu hunain, ac mae taliadau uniongyrchol yn arf bwysig wrth gyflawni hynny. Rydym wedi annog y defnydd o daliadau uniongyrchol yng Nghymru, ac mae amrywiaeth o gynlluniau i gefnogi unigolion i reoli eu taliadau uniongyrchol. Felly, rwy'n hapus i gefnogi gwelliant 3, a gyflwynwyd gan Nick Ramsay. Fodd bynnag, nid ein lle ni yw gwneud hyn i gyd. Rhaid i arweinyddiaeth ddod oddi wrth ein partneriaid allweddol hefyd. Rwyf wedi ysgrifennu at arweinwyr y cynghorau yn gofyn sut byddant yn arwain a gweithredu'r meysydd hynny o wasanaethau

they will work more efficiently and effectively. I have high expectations of the response from local government. However, I do not believe that we are seizing every opportunity. I shall be working closely with the Minister for Local Government and Communities to see how we can be sure that delivery is ever more efficient. I have also written to the Chair of the Care Council for Wales and to the Chief Inspector of Care and Social Services Inspectorate Wales. I expect them to consider how they can work together to reduce complexity, increase transparency and improve public confidence in their work.

cymdeithasol cynaliadwy sy'n gyfrifoldeb iddynt hwy. Rwyf am glywed sut byddant yn gweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol. Mae gen i ddisgwyliadau uchel o'r ymateb gan lywodraeth leol. Fodd bynnag, nid wyf yn credu ein bod yn manteisio ar bob cyfle. Byddaf yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau i weld sut y gallwn fod yn sicr bod darpariaeth yn fwyfwy effeithlon. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd Cyngor Gofal Cymru ac at Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Rwy'n disgwyl iddynt ystyried sut y gallant weithio gyda'i gilydd i leihau cymhlethdod, cynyddu tryloywder a gwella hyder y cyhoedd yn eu gwaith.

3.15 p.m.

I am now the Deputy Minister for children as well as for social services. By bringing together those two agendas we have an opportunity to achieve better leadership, improve our expertise and make our systems more efficient. Everyone here knows the importance of getting the relationship between social care and health right. Some good work has already delivered results. I am determined to build on these initiatives to deliver the values, principles and vision set out in 'Sustainable Social Services for Wales'. We will deliver our ambition for social services and tangible improvements for citizens in Wales.

Yr wyf bellach yn Ddirprwy Weinidog dros blant yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol. Trwy ddwyn y ddwy agenda ynghyd, mae gennym gyfle i sicrhau gwell arweinyddiaeth, i wella ein harbenigedd a gwneud ein systemau yn fwy effeithlon. Mae pawb yma'n gwybod mor bwysig yw sicrhau bod y berthynas rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd yn iawn. Mae rhywfaint o waith da eisoes wedi sicrhau canlyniadau. Yr wyf yn benderfynol o adeiladu ar y mentrau hyn i adeiladu ar y gwerthoedd, yr egwyddorion a'r weledigaeth a nodir yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer Cymru'. Byddwn yn cyflawni ein huchelgais o ran gwasanaethau cymdeithasol a gwelliannau pendant i ddinasyddion Cymru.

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Ym mhwynt 2, dileu'r geiriau 'parhau i fodloni' a rhoi 'bodloni' yn eu lle.*

*In point 2, delete the words 'continue to'.*

**Lindsay Whittle:** I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

**Lindsay Whittle:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

Deputy Minister, we are not a million miles apart here. Our amendment to point 2 is in no way intended to suggest that social services departments are not striving to provide first-class services to the vulnerable in society. However, we would not wish to support a motion that implies that the needs and aspirations of our citizens are undeniably being fully met. It is extremely doubtful that

Ddirprwy Weinidog, yr ydym ar yr un trywydd fwy neu lai. Nid bwriad ein gwelliant i bwynt 2 yw awgrymu nad yw gwasanaethau cymdeithasol yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i bobl sy'n agored i niwed mewn cymdeithas. Fodd bynnag, ni fyddem am gefnogi cynnig sy'n awgrymu bod anghenion a dyheadau ein dinasyddion yn ddiymwad yn cael eu

any social services department in Wales would claim that it was fully meeting everyone's needs and aspirations. In striving after excellence, let us be realistic. For example, the recent report of the Commissioner for Older People in Wales made the point that, while many social workers enhance the dignity of older people, there is considerable room for improvement in parts of Wales. We support the general approach and vision set out in the White Paper, particularly the need for greater collaboration across social service departments and with their key partners, the health boards and the voluntary sector.

bodloni'n llawn. Yr wyf yn amau'n fawr a fyddai unrhyw adran gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn honni ei bod yn bodloni anghenion a dyheadau pawb yn llawn. Wrth geisio am y gorau, gadewch inni fod yn realistig. Er enghraifft, mae adroddiad diweddar y Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn gwneud y pwynt hwn: er bod llawer o weithwyr cymdeithasol yn hybu urddas pobl hŷn, mae cryn le i wella mewn mannau o Gymru. Rydym yn cefnogi'r dull cyffredinol a'r weledigaeth a nodwyd yn y Papur Gwyn, yn enwedig yr angen am fwy o gydweithredu ar draws adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac â'u partneriaid allweddol, y byrddau iechyd a'r sector gwirfoddol.

One important issue that seems to be missing from this White Paper is that of services in rural parts of Wales. For example, while we would support the emphasis on people with mental health problems being looked after out of hospitals, we are aware that in some rural areas there are ongoing problems in providing the access to care that is available in urban areas. This difficulty is not confined to people experiencing mental health problems, and also affects older and disabled citizens. That is why we would like response teams to be based in social services departments that would include representatives from the health and voluntary sectors, occupational therapists, and, in some cases, even the police. In rural areas, the onus is on family members to bear the strain of caring for the vulnerable, and we need to ensure that carers' rights are safeguarded and valued across Wales.

Un mater pwysig sydd i'w weld ar goll o'r Papur Gwyn yw gwasanaethau mewn mannau gwledig o Gymru. Er enghraifft, er y byddem yn cefnogi'r pwyslais ar ofalu am bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl y tu allan i'r ysbyty, gwyddom fod problemau parhaus mewn ardaloedd gwledig o ran darparu mynediad i'r gofal sydd ar gael mewn ardaloedd trefol. Nid yw'r anhawster hwn wedi'i gyfyngu i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl: mae hefyd yn effeithio ar ddinasyddion hŷn ac anabl. Dyna pam y byddem yn hoffi lleoli timau ymateb mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol, a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau iechyd a gwirfoddol, therapyddion galwedigaethol, a hyd yn oed yr heddlu, o bryd i'. Mewn ardaloedd gwledig, aelodau'r teulu sydd â'r cyfrifoldeb o gario'r baich o ofalu am bobl sy'n agored i niwed, a rhaid inni sicrhau bod hawliau gofalwyr yn cael eu diogelu a'u gwerthfawrogi ledled Cymru.

One of our key missions is to raise the status of social workers and care assistants and the esteem in which they are held. We know that this Government, to be fair, is calling for enhanced training for social workers, and we fully support you on that. However, we need to send a positive message to current and prospective social workers that this Chamber values the often difficult and complex work that they are asked to do, far too often with excessive caseloads. One politician wanted us to hug a hoodie; I suggest that we hug a social worker, perhaps. We should press for a set of national terms and conditions for social

Un o'n hamcanion allweddol yw codi statws gweithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr gofal a gwella'r parch tuag atynt. Gwyddom fod y Llywodraeth hon, a bod yn deg, yn galw am well hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol, ac rydym yn eich cefnogi'n llwyr yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae angen inni gyfleu neges gadarnhaol i ddarpar weithwyr cymdeithasol a rhai presennol fod y Siambr hon yn gwerthfawrogi'r gwaith, sy'n aml yn anodd a chymhleth, y gofynnir iddynt ei wneud, yn llawer rhy aml gyda baich achosion trwm. Roedd un gwleidydd am inni roi cwtsh i hwdi; rwy'n awgrymu ein bod

workers that reflect their responsibilities, and we call for the development of consultant social worker grades to enable social workers to progress in their careers but not to have to leave front-line practice.

ni'n cwtsio gweithiwr cymdeithasol, efallai. Dylem bwyso am set o delerau ac amodau cenedlaethol i weithwyr cymdeithasol sy'n adlewyrchu eu cyfrifoldebau, ac rydym yn galw am ddatblygu graddau ymgynghorol i weithwyr cymdeithasol er mwyn galluogi iddynt ddatblygu yn eu gyrfaoedd heb orfod gadael eu gwaith ar y rheng flaen.

I have already referred to the sterling work carried out by unpaid, informal carers. These people are the unsung heroines and heroes of Wales, and this Government, I am sure, would also wish to pay tribute to those who provide foster care for children and adolescents. They, too, deserve a national set of terms of conditions that would reflect the value that we place on their continuing care of young people.

Yr wyf eisoes wedi cyfeirio at y gwaith rhagorol a wneir gan ofalwyr di-dâl, anffurfiol. Y bobl hyn yw arwresau ac arwyr di-glod Cymru, ac rwy'n siŵr y byddai'r Llywodraeth hon hefyd yn dymuno talu teyrnged i'r sawl sy'n darparu gofal maeth i blant a phobl ifanc. Maent hwythau, hefyd, yn haeddu set genedlaethol o delerau ac amodau i adlewyrchu faint yr ydym yn gwerthfawrogi eu gofal parhaus o bobl ifanc.

Finally, while we support the White Paper's call for greater citizen control over the planning of and access to social care services, we would want to clarify how this policy—which, to be fair, is admirable—will be put into practice across Wales in a way that ensures a consistent standard in all local authority social services departments. We will, of course, support the motion as amended.

Yn olaf, er inni gefnogi galwad y Papur Gwyn i ddinasyddion gael rhagor o reolaeth dros gynllunio a chael mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol, hoffem gael eglurhad o ran sut mae'r polisi hwn—sydd, a bod yn deg, i'w edmygu—yn cael ei roi ar waith ar draws Cymru mewn modd sy'n sicrhau safon gyson ar draws holl adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Byddwn, wrth gwrs, yn cefnogi'r cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Dileu pwynt 2.*

*Delete point 2.*

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Amendment 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun cyflenwi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yn amlinellu ei hymrwymiad i ddatblygu ac arwain y rhaglen newid.*

*Calls on the Welsh Government to develop a delivery plan for sustainable social services outlining its 'commitment to developing and leading the change programme'.*

*Gwelliant 5 Peter Black*

*Amendment 5 Peter Black*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'n gyflym y defnydd o Gyllidebau Personol ar gyfer gwasanaethau gofal.*

*Calls on the Welsh Government to rapidly increase the use of Personal Budgets for care services.*

**Kirsty Williams:** I move amendments 2, 3 and 5 in the name of Peter Black.

Social services, at their best, can be transformational for individuals, families and communities. However, when things go wrong, they can go badly wrong, with devastating consequences of which we are all too aware. In this Assembly, we have, over recent years, seen a variety of joint reviews and serious case reviews that have demonstrated that, while there is excellent practice in Wales, it is sometimes patchy, and that, collectively, at a national, local government and practitioner level, there is much to improve.

There is much that I would agree with in the approach outlined in the Government's document and the Deputy Minister's speech this afternoon. I very much welcome her indication that she will support the Welsh Liberal Democrats' amendment 4, and the Government's intention to bring forward a delivery plan against which we can assess the progress being made on this agenda. I also welcome the Deputy Minister's words with regard to the collective approach that she intends to take while setting up the national board, by bringing together people from different political persuasions and also from different aspects of the community.

I want to concentrate on two issues; the first is about closer collaboration. The Deputy Minister says that she wants closer collaboration between social services and the health service in particular. I, however, bear the scars of trying to make that happen in my constituency, where we tried—unsuccessfully in the end—to get a more formal arrangement between Powys Teaching Local Health Board and Powys County Council. That would have been perfect, given the nature of the health services that are provided internally in Powys, as we do not have a district general hospital and therefore do not have to worry about providing acute services. The reality is that those discussions broke down.

What discussions has the Deputy Minister had with her colleague, the Minister for Local Government and Communities, who

**Kirsty Williams:** Cynigiaf welliannau 2, 3 a 5 yn enw Peter Black.

Gall gwasanaethau cymdeithasol, ar eu gorau, drawsnewid bywydau unigolion, teuluoedd a chymunedau. Fodd bynnag, pan fydd pethau'n mynd o chwith, gallant fynd o chwith yn ddifrifol, gyda chanlyniadau dinistriol yr ydym oll yn rhy ymwybodol ohonynt. Yn y Cynulliad hwn, rydym wedi gweld, dros y blynyddoedd diwethaf, sawl adolygiad ar y cyd a sawl adolygiad achos difrifol sydd wedi dangos er bod arfer rhagorol yng Nghymru ei fod weithiau'n anghyson, a bod llawer i'w wella ar lefel genedlaethol, llywodraeth leol ac ymarferwyr unigol.

Mae llawer y byddwn yn cytuno ag ef yn y dull a amlinellwyd yn nogfen y Llywodraeth ac yn araith y Dirprwy Weinidog y prynhawn yma. Rwy'n croesawu'n fawr ei hawgrym y bydd yn cefnogi gwelliant 4 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a bwriad y Llywodraeth i gyflwyno cynllun gweithredu y gallwn asesu'r cynnydd a wneir ar yr agenda hon yn ei erbyn. Rwyf hefyd yn croesawu geiriau'r Dirprwy Weinidog o ran y dull gweithredu ar y cyd y mae'n bwriadu ei fabwysiadu wrth sefydlu'r bwrdd cenedlaethol, drwy ddod â phobl o wahanol dueddiadau gwleidyddol a hefyd o wahanol agweddau yn y gymuned ynghyd.

Yr wyf am ganolbwyntio ar ddau fater, a'r cyntaf yn ymwneud â chydweithredu agosach. Mae'r Dirprwy Weinidog yn dweud ei bod am gydweithio agosach rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd yn arbennig. Fodd bynnag, rwy'n dwyn y creithiau o geisio gwneud hynny yn f'etholaeth, lle ceisiom—yn aflwyddiannus yn y pen draw—gael trefniant mwy ffurfiol rhwng Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys a Chyngor Sir Powys. Byddai hynny wedi bod yn berffaith, o gofio natur y gwasanaethau iechyd a ddarperir yn fewnol ym Mhowys, gan nad oes gennym ysbyty cyffredinol dosbarth, ac felly nad oes angen poeni am ddarparu gwasanaethau acíwt. Y realiti yw y torrodd y trafodaethau hynny i lawr.

Pa drafodaethau y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'u cael gyda'i chydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a

announced last week that he intends to bring forward legislation if councils do not make joint appointments across councils? Does she agree that, sometimes, the best way to drive real change for citizens and deliver better services is not necessarily by joint appointments to the social services departments of different local authorities? It is the crucial working between social services departments and local health services that will really drive change for individuals on the ground. Joint senior appointments are not necessarily the best way of achieving that. It is proper service integration at ground level that will really make the difference for people in the longer term.

Chymunedau, a gyhoeddodd yr wythnos diwethaf ei fod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth os na fydd cynghorau yn penodi ar y cyd ar draws cynghorau? Onid yw'n cytuno nad o reidrwydd y ffordd orau o yrru newid gwirioneddol i ddinasyddion a darparu gwell gwasanaethau yw drwy benodiadau ar y cyd i adrannau gwasanaethau cymdeithasol gwahanol awdurdodau lleol? Y gweithio hanfodol rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd lleol a fydd wir yn ysgogi newid ar gyfer unigolion ar lawr gwlad. Nid cyd-benodiadau uwch yw'r ffordd orau o gyflawni hynny o reidrwydd. Gwir integreiddio gwasanaethau ar lawr daear fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl yn y tymor hir.

I turn to the issue of personalisation. I regret very much the Deputy Minister's statements about this. To suggest that there is no role for the private sector in social services is, frankly, to ignore the reality on the ground. There are many private businesses involved in delivering social care. Therefore, it is not the case that this is a bastion of the private sector, because the private sector is already involved in delivering services. I am sorry that you equate the personalisation agenda with privatisation. How would you square that with the fact that my constituent wants to ensure that the same carer comes to visit him every day to bathe him, and that he is not subjected to a different carer every day of the week, depending on whom the council can send, at a time when the local authority can send one? Why should he not be able to use that budget to employ one person who comes at a time convenient for him, because that is what is important to him?

Trof at fater personoli. Rwy'n gresynu'n fawr iawn at ddatganiadau'r Dirprwy Weinidog am hyn. A siarad yn blaen, mae awgrymu nad oes rôl ar gyfer y sector preifat mewn gwasanaethau cymdeithasol yn anwybyddu'r realiti ar lawr gwlad. Mae sawl busnes preifat eisoes ynghlwm wrth ddarparu gofal cymdeithasol. Felly, nid yw'n wir bod hwn yn un o gadarnleoedd y sector preifat, gan fod y sector preifat eisoes yn ymwneud â darparu gwasanaethau. Mae'n ddrwg gennyf eich bod yn teimlo bod yr agenda bersonoli yn cyfateb i breifateiddio. Sut y byddech yn cysoni hynny â'r ffaith bod etholwr i mi sy'n dymuno cael yr un gofalwr yn ymweld ag ef bob dydd i'w ymolchi, yn hytrach na gweld gofalwr gwahanol bob dydd o'r wythnos, gan ddibynnu ar bwy y gall y cyngor ei anfon, a hynny ar adeg pan all yr awdurdod lleol anfon un? Pam na ddylai allu defnyddio'r arian hwnnw i gyflogi un person sy'n dod ar adeg sy'n gyfleus iddo ef, oherwydd dyna sy'n bwysig iddo ef?

What about the young man with learning disabilities who has passed from children's services to adult services and who wants to be able to remain with the carers who have looked after him all of his life? The council will pay for him to go into residential care, and for someone else to look after him, but the law, as it stands in Wales, will not allow him to pay his grandparents to care for him. However, if he lived across the border in England, that would not be a problem. If he lived in England, it would also not be a problem for my constituent who wants to

Beth am y dyn ifanc sydd ag anableddau dysgu, sydd wedi trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion ac sydd eisiau gallu aros gyda'r gofalwyr sydd wedi gofalu amdano gydol ei fywyd? Gwnaiff y cyngor dalu iddo gael gofal preswyl ac i rywun arall ofalu amdano, ond nid yw'r gyfraith, fel ag y mae yng Nghymru, yn caniatáu iddo dalu ei fam-gu a'i dad-cu i ofalu amdano. Fodd bynnag, pe bai'n byw dros y ffin yn Lloegr, ni fyddai hynny'n broblem. Pe bai'n byw yn Lloegr, ni fyddai ychwaith yn broblem i'm etholwr sydd am gyflogi ei ofalwr ei hun i

employ his own carer to do so. I am sorry that you equate personalisation with privatisation; they are not one and the same thing. We must look at ways of enhancing the ability of Welsh citizens to receive the care that suits their needs, when they want it, in a way that is useful for them. That agenda is moving much more quickly across the border.

wneud hynny. Mae'n ddrwg gennyf eich bod yn teimlo bod personoli yn cyfateb i breifateiddio; nid ydynt yr un peth nac yr un fath. Mae'n rhaid inni edrych ar ffyrdd o wella gallu dinasyddion Cymru i gael y gofal sy'n addas i'w hanghenion, pan fyddant yn dymuno hynny, mewn ffordd sy'n ddefnyddiol ar eu cyfer. Mae'r agenda honno'n symud yn gyflymach o lawer ar draws y ffin.

*Gwelliant 3 Nick Ramsay*

*Amendment 3 Nick Ramsay*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod manteision defnyddio taliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hybu eu defnydd lle bo hynny'n briodol.*

*Recognises the benefits of the use of direct payments to social care users and calls upon the Welsh Government to promote their use where appropriate.*

**Janet Finch-Saunders:** I move amendment 3 in the name of Nick Ramsay.

**Janet Finch-Saunders:** Cynigiaf welliant 3 yn enw Nick Ramsay.

I thank the Deputy Minister for stating that she will support our amendment. I welcome the report, 'Sustainable Social Services for Wales'. It is evident that, given the ever-increasing demand for social services and our ageing population, we have to look radically at the ways in which we evaluate our service delivery mechanisms. At the moment, there is a problematic series of multiple interfaces between the health service, local government and the voluntary sector. That is costly in terms of time and effort, and in some instances can lead to our most vulnerable people falling between many agencies. While it is logical to ensure greater collaboration between local authorities and other agencies, there needs to be a robust approach to streamlining the unwieldy bureaucracy that currently overwhelms the whole principle of providing high-quality and efficient delivery of social care, which can affect the most vulnerable in our society.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am nodi y bydd hi'n cefnogi ein gwelliant. Rwy'n croesawu'r adroddiad, 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer Cymru'. O ystyried y galw cynyddol sydd am wasanaethau cymdeithasol a'n poblogaeth sy'n heneiddio, mae'n amlwg bod yn rhaid inni edrych yn radical ar sut ydym yn gwerthuso ein dulliau o ddarparu gwasanaethau. Ar hyn o bryd, ceir cyfres drafferthus o ryngwynebau lluosog rhwng y gwasanaeth iechyd, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Mae hynny'n gostus o ran amser ac ymdrech, ac mewn rhai achosion, gall arwain at ein pobl fwyaf agored i niwed yn cwympo rhwng sawl stôl. Er ei bod yn synhwyrol sicrhau rhagor o gydweithio rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, mae angen dull cadarn o symleiddio'r fiwrocratiaeth anhylaw sydd ar hyn o bryd yn llethu'r egwyddor o ddarparu gofal cymdeithasol o ansawdd uchel ac effeithlon, a gallai hynny effeithio ar y mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

The Welsh Conservatives broadly welcome the principles outlined in 'Sustainable Social Services for Wales'. Given the rising demand for services, greater collaboration between social services, local authorities and the NHS will be essential. However, it is important

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu'n fras egwyddorion 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru'. O ystyried y galw cynyddol am wasanaethau, bydd mwy o gydweithredu rhwng gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau

that the Welsh Government now concentrates on implementing the strategy in a cost-effective and streamlined manner. We want to promote collaboration between the NHS and social services and to incorporate adult social care into the health budget. That would allow hospitals to work more closely with social care providers to ensure that hospitals are not a place of first resort for care and that more people are cared for in their own homes. People in Wales must be participants in the provision of NHS and social care, not just recipients.

lleol a'r GIG yn hanfodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio yn awr ar weithredu'r strategaeth mewn modd cost-effeithiol a syml. Hoffem hyrwyddo cydweithio rhwng y GIG a gwasanaethau cymdeithasol ac ymgorffori gofal cymdeithasol i oedolion yn y gyllideb iechyd. Byddai hynny'n caniatáu i ysbytai gydweithio'n agosach â darparwyr gofal cymdeithasol fel nad yw ysbytai'n cael eu hystyried gyntaf ar gyfer gofal ac fel bod mwy o bobl yn cael gofal yn eu cartrefi eu hunain. Rhaid i bobl Cymru gymryd rhan wrth ddarparu gofal cymdeithasol a gofal y GIG, ac nid ei dderbyn yn unig.

The Welsh Conservatives believe that people who have long-term chronic conditions should have the right to shape the kind of support that they need. We believe that the individual should be put at the centre of the care that they wish to receive. While individuals must not be forced to have responsibility for the budget for their personal care, those wishing to have that responsibility should be given the option. For that reason, we fully support the drive towards direct payments. Ten per cent of lung disease patients could be cared for at home, but, as a result of a lack of adequate care, they are stuck in hospital. Many more older people could be living at home if they had the right social care support. Early intervention is key to preventing long-term debilitating illness. Hospitals should be seen as a long-term place of safety for those in need of care in Wales, but this can also be provided in patients' homes.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu y dylai pobl sydd â chyflyrau cronig hirdymor gael yr hawl i lunio'r math o gymorth sydd ei angen arnynt. Ein cred ni yw y dylai'r unigolyn gael ei roi wrth wraidd y gofal y maent yn dymuno ei gael. Er na ddylid gorfodi unigolion i fod yn gyfrifol am gyllideb eu gofal personol, dylai'r rhai sy'n dymuno ei gael fod â'r dewis. Am y rheswm hwnnw, rydym yn llwyr gefnogi'r ymgyrch am daliadau uniongyrchol. Gellid gofalu am 10 y cant o gleifion sydd â chlefyd yr ysgyfaint gartref, ond, oherwydd diffyg gofal digonol, maent yn gorfod aros yn yr ysbyty. Gallai mwy o lawer o bobl hŷn fod yn byw gartref pe bai ganddynt y gofal cymdeithasol cywir. Ymyrraeth gynnar yw'r allwedd i atal salwch gwanychol hirdymor. Dylid gweld ysbytai fel lleoedd diogel hirdymor i'r sawl sydd angen gofal yng Nghymru, ond gall hyn gael ei ddarparu yng nghartrefi cleifion hefyd.

I call on the Government to further promote personalised budgets, in the form of direct payments, for those who need care. We need to empower individuals who require care to make their own choices regarding the care that they receive. Despite talking a good talk, the Welsh Labour Government is not doing enough to promote direct payments in Wales.

Galwaf ar y Llywodraeth i hybu cyllidebau personol ymhellach i'r sawl sydd angen gofal, a hynny ar ffurf taliadau uniongyrchol. Mae angen inni rymuso unigolion sydd angen gofal i wneud eu dewisiadau eu hunain am y gofal y maent yn ei gael. Er gwaethaf y siarad mawr, nid yw Llywodraeth Lafur Cymru yn gwneud digon i hybu taliadau uniongyrchol yng Nghymru.

**Ann Jones:** Would you take an intervention?

**Ann Jones:** A wnewch chi ildio?

**Janet Finch-Saunders:** Would you mind if I just carry on?

**Janet Finch-Saunders:** A fyddai ots gennych pe bawn i'n parhau?

We have heard repeated promises about

Yr ydym wedi clywed addewidion dro ar ôl

putting citizens first and about giving people a greater say and choice in how they are supported, a more active role in managing their situations and power over managing their own resources. However, the stark reality is that, at present, of the 150,000 people receiving support in Wales from local authorities for social care only 2,000 receive direct payments. In contrast, in 2008-09, 86,000 adults aged 18 or over received direct payments in England, which was an increase of 29 per cent on the figure for 2007-08. Direct payments and personalised budgets allow those who can be cared for at home to be cared for at home, and are much more cost-effective than people being cared for in hospitals or in care homes when they do not need to be.

tro am roi dinasyddion yn gyntaf ac am roi mwy o lais a dewis i bobl o ran sut y maent yn cael eu cefnogi, rôl mwy gweithredol wrth reoli eu sefyllfa, a phŵer dros reoli eu hadnoddau eu hunain. Fodd bynnag, y realiti plaen, ar hyn o bryd, yw mai o'r 150,000 o bobl yng Nghymru sy'n cael cymorth gofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol, dim ond 2,000 sy'n cael taliadau uniongyrchol. Ar y llaw arall, yn 2008-09, cafodd 86,000 o oedolion 18 oed neu'n hŷn daliadau uniongyrchol yn Lloegr, a oedd yn gynnydd o 29 y cant ar y ffigur yn 2007-08. Mae taliadau uniongyrchol a chyllidebau personol yn caniatáu i'r sawl sy'n gallu cael gofal yn y cartref i'w gael, ac maent yn llawer mwy cost-effeithiol na gofalu am bobl mewn ysbytai neu gartrefi gofal heb fod angen.

We need to develop an effective system of undertaking checks on carers to ensure that the security of those receiving care is not compromised. Close monitoring is needed to ensure that the correct payments are made, and there should be checks on who these payments are being used to employ, to eliminate the potential for abuse.

Mae angen inni ddatblygu system effeithiol o wirio ofalwyr i sicrhau nad yw diogelwch y sawl sy'n cael gofal yn cael ei beryglu. Mae angen monitro manwl i sicrhau bod y taliadau cywir yn cael eu gwneud, a dylid gwirio'r rhai a gyflogir gan ddefnyddio'r taliadau hyn, a hynny er mwyn dileu'r potensial ar gyfer cam-drin.

3.30 p.m.

However, they should not be used as an excuse to prevent those who wish to from having the freedom to choose their own care packages. This can all be effectively achieved through collaboration between health and social services in the area of social care. The continued provision and increased roll-out of direct payments requires funding, however, and I call on the Welsh Government to review the cuts that it has made to the social services budget. The Welsh Conservatives remain the only party in Wales that has pledged to protect funding for the Department of Health, Social Services and Children in real terms. Given the rise in demand, we are concerned that the Welsh Government intends to take £1 billion out of the health and social services budget in real terms over the next three years, and I ask you to think again in order to ensure that this report becomes a reality as opposed to a meaningless strategy and wish list of much-needed improvement here in Wales. In addition—

Fodd bynnag, ni ddylid eu defnyddio fel esgus i atal y rhai sy'n dymuno cael y rhyddid i ddewis eu pecynnau gofal eu hunain rhag gwneud hynny. Gall hyn oll gael ei gyflawni yn effeithiol drwy gydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ym maes gofal cymdeithasol. Mae angen ariannu darpariaeth barhaus taliadau uniongyrchol a'r broses o'u cyflwyno yn ehangach, fodd bynnag, ac rwyf yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r toriadau y mae wedi'u gwneud i'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Y Ceidwadwyr Cymreig yw'r unig blaid yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i ddiogelu cyllid ar gyfer yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant mewn termau real. O ystyried y cynnydd yn y galw, rydym yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cymryd £1 biliwn allan o'r gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mewn termau real dros y tair blynedd nesaf, ac rwyf yn gofyn ichi ailystyried, a hynny er mwyn sicrhau bod yr adroddiad hwn yn dod yn realiti yn hytrach na strategaeth ddiystyr a

rhestr ddymuniadau o welliannau sydd eu hangen yma yng Nghymru. Yn ogystal—

**The Presiding Officer:** Order. I am sorry, but you are out of time.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond mae eich amser ar ben.

**Keith Davies:** Yr wyf yn derbyn ei bod hi'n hanfodol cael darparwyr preifat ac annibynnol ym maes gofal cymdeithasol, ond nid wyf am i ni ddibynnu ar y farchnad nac ar gystadleuaeth rhwng cwmnïau preifat. Edrychwch ar yr hyn sydd wedi digwydd yn barod i'r cartrefi sy'n cael eu rhedeg gan Southern Cross, ac, fel y gŵyr y Dirprwy Weinidog, ceisiodd a methodd Cyngor Sir Gâr breifateiddio dau gartref gofal yn y sir ddechrau'r flwyddyn. Os gadawn y cwmnïau preifat hyn i redeg cartrefi gofal, beth sy'n mynd i ddigwydd yn y pen draw pan fyddant i gyd yn methu oherwydd nad ydynt yn gwneud elw? Byddwn yn gobeithio—a sonioch wrth gyflwyno'r cynnig am weithio'n agosach gyda'r cynghorau sir—y bydd pob cyngor sir yng Nghymru yn cadw cartrefi gofal o dan eu rheolaeth er mwyn osgoi'r hyn sydd wedi digwydd i'r cartrefi preifat yn barod.

**Keith Davies:** I accept that it is essential to have private and independent providers in social care, but I do not want us to rely on the market and on competition between private companies. Look at what has already happened to the homes that are run by Southern Cross, and, as the Deputy Minister knows, Carmarthenshire County Council tried and failed to privatise two care homes in the county at the beginning of the year. If we leave these private companies to run care homes, what will happen in the long run when they all fail because they are not making a profit? I would hope—and you mentioned, when moving the motion, working more closely with county councils—that every county council in Wales will keep care homes under their management in order to avoid what has already happened to private care homes.

**Mark Isherwood:** You have already heard that my party broadly welcomes the principles outlined in the report, 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action', recognising that, with rising demand for services, greater collaboration between social services, local authorities and the NHS will be essential. However, with social services in Wales supporting an estimated 150,000 people, we must recognise that this is delivered by around 1,800 organisations across the statutory, private and voluntary sectors. Thankfully, most are good and many are excellent, but there are, of course, some examples of bad practice, which must be targeted as well. In fact, as a patron of the British Association of Social Workers Cymru, alongside many other AMs, I had the pleasure of presenting its innovative social worker award last year to a qualified social worker who has working for the NSPCC since 1996. As the framework for action report states

**Mark Isherwood:** Yr ydych eisoes wedi clywed bod fy mhlaid yn croesawu'r egwyddorion a amlinellir yn yr adroddiad, 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu', a hynny gan gydnabod y bydd mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau lleol a'r GIG yn hanfodol yn sgîl y galw cynyddol am wasanaethau. Fodd bynnag, gyda gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cefnogi tua 150,000 o bobl, rhaid inni gydnabod bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan tua 1,800 o sefydliadau ar draws y sectorau statudol, preifat a gwirfoddol. Diolch byth, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dda ac mae llawer ohonynt yn ardderchog, ond, wrth gwrs, mae yna rai enghreifftiau o arfer gwael y mae'n rhaid eu targedu hefyd. Yn wir, fel un o noddwyr Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol Cymru, ynghyd â llawer o Aelodau Cynulliad eraill, cefais y pleser o gyflwyno gwobr y gymdeithas ar gyfer gweithwyr cymdeithasol arloesol y llynedd i weithiwr cymdeithasol cymwysedig sydd wedi gweithio i'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant ers 1996. Fel y

mae'r adroddiad ar y fframwaith ar gyfer gweithredu yn nodi

'We expect the full engagement of the third sector in the provision of community-based support services'.

'Rydym yn disgwyl ymgysylltiad llawn y trydydd sector yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth yn y gymuned'.

Last Thursday, I spoke at a Hansard Society event on political and civic engagement in Wales in the age of the big society. The achievement of sustainable social services in Wales will be dependent upon embracing big society principles in practice. The concept of the big society was not designed for an age of austerity, but rather for any age of social and economic aspiration. While it is designed to deliver more for less at a time of deficit reduction, it will also deliver more for the same when budgets are stable and more for more when budgets grow.

Ddydd Iau diwethaf, bûm yn siarad mewn digwyddiad Cymdeithas Hansard ar ymgysylltiad gwleidyddol a dinesig yng Nghymru yn oes y gymdeithas fawr. Bydd darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru yn ddibynnol ar weithredu egwyddorion y gymdeithas fawr yn ymarferol. Ni chafodd cysyniad y gymdeithas fawr ei lunio ar gyfer oes o galedi, ond yn hytrach ar gyfer unrhyw oes o ddyhead cymdeithasol ac economaidd. Er ei fod wedi'i lunio ar gyfer darparu mwy am lai mewn cyfnod o leihau'r diffyg, bydd hefyd yn darparu mwy am yr un peth pan fo cyllidebau'n sefydlog, a mwy am fwy pan fo cyllidebau'n tyfu.

Last year, I attended a round-table discussion with the College of Occupational Therapists, the Chartered Society of Physiotherapy, Age Concern, the Wales Council for Voluntary Action and Crossroads Care, focusing on concerns around the development of primary care services across Wales. Those concerns centred on the need to involve the voluntary sector, particularly those who provide services for individuals and for those who care for them; ensuring co-ordination and engagement; using skills and knowledge appropriately and ensuring that the community resource teams are fit for purpose. They consider that, in the current financial climate, the more we can provide the right skills, delivered by the right people in the right places at the right time, the better, and they championed a new approach involving service user-led and community-led services based on co-design and co-delivery in public services, bringing together the independent third sector and the public sector. This is mutual support that complements services and reduces demand for them.

Y llynedd, bûm mewn trafodaeth ford gron gyda Choleg y Therapyddion Galwedigaethol, y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi, Age Concern, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Gofal Croesffyrdd, gan ganolbwyntio ar bryderon yn ymwneud â datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru. Roedd y pryderon hynny'n canolbwyntio ar yr angen i gynnwys y sector gwirfoddol, ac yn benodol y rhai sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion a'r rhai sy'n gofalu amdanynt; sicrhau cydlyniant ac ymgysylltu; defnyddio sgiliau a gwybodaeth yn briodol; a sicrhau bod y timau adnoddau cymunedol yn addas at y diben. Maent yn ystyried, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, po fwyaf y gallwn ddarparu'r sgiliau cywir, gan y bobl gywir yn y man cywir ar yr adeg gywir, y gorau y bydd hi. Maent yn hyrwyddo dull gweithredu newydd sy'n cynnwys gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r gymuned, ac sy'n seiliedig ar gyd-gynllunio a chyd-ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ddwyn ynghyd y trydydd sector annibynnol a'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn gyd-gefnogaeth sy'n ategu gwasanaethau ac sy'n lleihau'r galw amdanynt.

They feared that the move to community care

Maent yn ofni y bydd newid i system o ofal

will be more expensive, though it need not be if we change the way in which we do things. They emphasised that the third sector brings expertise to the table that the state sector does not have, and that they must be allowed to play a strategic part in order to turn problems into solutions, promote person-centred and outcome-focused services and to preserve people's independence. In other words, a whole-service approach would be taken that puts people in communities, rather than service deliverers, at the centre.

cymunedol yn ddrutach, er nid oes angen iddo fod yn ddrutach os byddwn yn newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau. Maent yn pwysleisio bod gan y trydydd sector arbenigedd nad yw'n bodoli yn sector y wladwriaeth, a bod yn rhaid iddo gael yr hawl i chwarae rhan strategol er mwyn troi problemau yn atebion, hyrwyddo gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person ac ar ganlyniadau, a chadw annibyniaeth pobl. Mewn geiriau eraill, byddem yn mabwysiadu ymagwedd gwasanaeth cyfan sy'n canolbwyntio ar bobl mewn cymunedau, yn hytrach na darparwyr gwasanaethau.

Our amendment recognises the benefits of direct payments to social care users. I spoke at the Disability Wales launch of its Independent Living Now! campaign, which has the aim of enabling disabled people to achieve their goals and to live their own lives in the way they choose, thereby reducing inappropriate admissions to hospital and expanding the direct payments scheme that allows people to control their own budgets. I did this because disabled people tell us that they want to be in control. They do not want a compulsory scheme; they want the freedom to choose.

Mae ein gwelliant yn cydnabod manteision taliadau uniongyrchol i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol. Siaradais yn ystod lansiad ymgyrch Anabledd Cymru, sef Byw'n Annibynnol Nawr!, sydd â'r nod o alluogi pobl anabl i gyrraedd eu nodau ac i fyw eu bywydau eu hunain yn y ffordd y maent yn dewis, gan leihau derbyniadau amhriodol i'r ysbyty ac ehangu'r cynllun taliadau uniongyrchol, sy'n galluogi pobl i reoli eu cyllidebau eu hunain. Fe wnes i hyn oherwydd bod pobl anabl yn dweud wrthym eu bod am gael rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Nid ydynt am gael cynllun gorfodol; maent am gael y rhyddid i ddewis.

Citizen-centred services are essential. Service integration and reablement will be the key to achieving this. Services must aim to enable people to be as independent as possible. As the WRVS has stated, reablement, facilitating the transition from hospital to home and reducing readmission rates, should be prioritised. However, in order to fund the Social Care Charges (Wales) Measure 2010, the Welsh Government scrapped the joint working grant, which promoted joint working between councils, the NHS and the third sector in areas supporting early discharge from hospital, such as enablement, rehabilitation and intensive support.

Mae gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion yn hanfodol. Bydd integreiddio gwasanaethau ac ailalluogi yn allweddol i gyflawni hyn. Mae'n rhaid i wasanaethau gael y nod o alluogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl. Fel y mae Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched wedi datgan, dylid blaenoriaethu ailalluogi, hwyluso'r broses o drosglwyddo pobl o'r ysbyty i'r cartref, a lleihau cyfraddau aildderbyn. Fodd bynnag, er mwyn ariannu Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010, cafodd Llywodraeth Cymru wared ar y grant cydweithio, a oedd yn hybu cydweithio rhwng cynghorau, y GIG a'r trydydd sector mewn meysydd a oedd yn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion yn gynnar o'r ysbyty, megis galluogi, adsefydlu a chymorth dwys.

The College of Occupational Therapists has launched the Welsh reablement alliance, responding to the 'Better Support at Lower Cost' report, which identified that

Mae Coleg y Therapyddion Galwedigaethol wedi lansio Cynghrair Ailalluogi Cymru mewn ymateb i'r adroddiad 'Gwell Cefnogaeth am Lai o Gost', a nododd y gall

reablement, effective assessment by occupational therapists and programmes to rehabilitate and enable people to return home can result in reduced demand for home care and fewer long-term care packages, and that can delay the need for admission to long-term care. We must allow our big Welsh society to ask those in the public sector how they can help to deliver more for less.

ailalluogi, asesu effeithiol gan therapyddion galwedigaethol a rhaglenni i adsefydlu a galluogi pobl i ddychwelyd adref, arwain at lai o alw am ofal yn y cartref a llai o becynnau gofal hirdymor, a gallant hefyd ohirio’r angen am fynediad i ofal hirdymor. Mae’n rhaid inni ganiatáu i gymdeithas fawr Cymru ofyn i’r rhai yn y sector cyhoeddus sut y gallant helpu i ddarparu mwy am lai.

**Mick Antoniw:** I welcome this debate. Having read the document carefully, I am sure that it, and many of its recommendations, resonates with the many of us in this Chamber who have, at one time or another, cared for parents or another family member. That is an experience that most of us go through at some time in our lives. As I went through the document, it brought back to me memories of the care I have given my father and mother over the last five or six years. It certainly highlighted the areas of excellent care across the board, but it also highlighted some of the weaknesses in the system.

**Mick Antoniw:** Croesawaf y ddadl hon. Ar ôl darllen y ddogfen yn ofalus, rwyf yn siŵr bod yr adroddiad, a nifer o’i argymhellion, yn atseinio profiadau llawer ohonom yn y Siambr hon sydd, ar un adeg neu’i gilydd, wedi gofalu am rieni neu aelod arall o’r teulu. Dyna brofiad y mae y rhan fwyaf ohonom yn mynd drwyddo ar ryw adeg yn ein bywydau. Wrth imi fynd drwy’r ddogfen, daeth ag atgofion yn ôl imi am y gofal a ddarperais i fy nhad a fy mam dros y pump neu chwe blynedd diwethaf. Yn sicr, tynnodd y ddogfen sylw at feysydd gofal rhagorol ar draws y sector, ond tynnodd sylw hefyd at rai o wendidau’r system.

One of the key challenges for us is not so much the quality of the individual units, but how you draw those units together over an intensive period to maximise their effect. For an elderly person who is admitted to hospital after a fall, for example, it may take up to 10 weeks before they can come out. One of the main reasons for that is that they have a period of immobility, which is followed by a period before they see a physiotherapist, and there may be psychological aspects to the case that require arrangements to put a social worker in place. One of the difficulties is in pulling those threads together in the shortest and most intensive time. This is one of the things that the paper seeks to address.

Uwchlaw ansawdd yr unedau unigol, un o’r heriau allweddol inni yw penderfynu sut i ddod â’r unedau hynny at ei gilydd dros gyfnod dwys i sicrhau eu bod yn cael yr effaith orau posibl. Os yw person oedrannus yn cael ei dderbyn i’r ysbyty ar ôl syrthio, er enghraifft, gall gymryd hyd at 10 wythnos cyn y gall ddod allan. Un o’r prif resymau am hynny yw ei fod yn cael cyfnod o ansymudedd, sy’n cael ei ddilyn gan gyfnod cyn eu bod yn gweld ffisiotherapydd, ac efallai y bydd agweddau seicolegol ynghlwm â’r achos sy’n golygu y bydd angen trefniadau i sicrhau bod gweithiwr cymdeithasol ar gael. Un o’r anawsterau yw ceisio tynnu’r elfennau hyn ynghyd yn yr amser byrraf a mwyaf dwys posibl. Hwn yw un o’r pethau y mae’r papur yn ceisio mynd i’r afael ag ef.

Something else that I noticed, which again reflects my own experience, is the role of the third sector and bodies, such as the WRVS, Age UK and other charities and organisations, in filling any gaps. They seem to play a much more integral part in the rehabilitation and reablement package than they are perhaps given credit for. Certainly, one of the reasons why I asked the First

Rhywbeth arall y sylwais arno, ac sydd eto’n yn adlewyrchu fy mhrofiad personol, yw rôl y trydydd sector, a chyrff fel Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched, Age UK ac elusennau a sefydliadau eraill, o ran llenwi unrhyw fylchau. Ymddengys eu bod yn chwarae rhan fwy annatod o lawer yn y pecyn adsefydlu ac ailalluogi nag sydd efallai’n cael ei chydnabod. Yn sicr, un o’r

Minister a question on this is that there seems to be inconsistency across the board and we do not always seem to be making the maximum possible use of these organisations.

rhesymau pam y gofynnais gwestiwn i'r Prif Weinidog am y mater hwn yw ei bod yn ymddangos bod yna anghysondeb cyffredinol, ac nid yw'n ymddangos ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r sefydliadau hyn bob amser.

We know what the challenge is, but how do we pull all of those resources together to maximise their effect—to save cost, I suppose—but ultimately to improve the quality of life of the people who need those services? One of the concerns that arises out of this is that, because these services all come together and are required in quite an intensive and short period, if they are to maximise the effect, should there perhaps be some sort of additional emergency draw-down fund? This would enable those packages to be put in, particularly when there is so much pressure on those services at this time.

Gwyddom beth yw'r her, ond sut y gallwn ni dynnu'r holl adnoddau hynny at ei gilydd i wneud y defnydd gorau ohonynt—i arbed costau, mae'n debyg—ond, yn y pen draw i wella ansawdd bywyd y bobl sydd angen y gwasanaethau hynny? Gan fod yr holl wasanaethau hyn yn dod at ei gilydd a bod eu hangen dros gyfnod eithaf dwys a byr, un o'r cwestiynau sy'n codi o'r sefyllfa hon yw a ddylid cael rhyw fath o gronfa argyfwng ychwanegol, a hynny er mwyn sicrhau'r effaith orau posibl. Byddai hyn yn sicrhau ei bod yn bosibl rhoi'r pecynnau hynny yn eu lle, yn enwedig o gofio bod cymaint o bwysau ar y gwasanaethau hynny ar hyn o bryd.

**Julie Morgan:** Thank you, Presiding Officer, for calling me to speak in this important debate. I must declare an interest in the subject, as I worked as a childcare social worker, both in the voluntary and statutory sectors. My remarks are mainly about the childcare sector.

**Julie Morgan:** Diolch ichi, Lywydd, am alw arnaf i siarad yn y ddadl bwysig hon. Rhaid imi ddatgan diddordeb yn y pwnc, gan fy mod wedi gweithio fel gweithiwr cymdeithasol gofal plant yn y sectorau gwirfoddol a statudol. Mae fy sylwadau yn bennaf am y sector gofal plant.

I welcome this document. I am glad that it stresses the importance of improving the public perception of social workers. A series of high-profile tragedies has put the spotlight on the role of childcare social workers and it is important that we do all we can to build up the image of the profession. It is important to remember that, despite the huge publicity that there has been regarding child deaths, the number of violent deaths among children in Wales and England has fallen almost 40 per cent in the last 30 years. This is due to improvements in the social care system, along with a greater focus on child poverty. That has helped to lower the death rate, so it is important that we keep that in mind when we consider what social workers succeed in doing.

Rwyf yn croesawu'r ddogfen hon. Rwyf yn falch ei bod yn pwysleisio pa mor bwysig yw gwella canfyddiad y cyhoedd o weithwyr cymdeithasol. Mae cyfres o drychinebau proffil uchel wedi rhoi'r sylw ar rôl gweithwyr cymdeithasol gofal plant, ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i hybu delwedd y proffesiwn. Mae'n bwysig cofio, er gwaethaf y cyhoeddusrwydd enfawr a fu mewn perthynas â marwolaethau plant, fod nifer y marwolaethau treisgar ymysg plant yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng o bron i 40 y cant yn y 30 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn ganlyniad i welliannau yn y system gofal cymdeithasol, ynghyd â mwy o ffocws ar dlodi plant. Mae'r ffactorau hynny wedi helpu i ostwng y gyfradd farwolaeth, felly mae'n bwysig ein bod yn cadw hynny mewn cof pan fyddwn yn ystyried yr hyn y mae gweithwyr cymdeithasol yn llwyddo i'w wneud.

One of the most difficult things that a childcare social worker has to do is to decide whether to take a child into care. When you are in that position, whatever you do is wrong. If you take the child away, you are taking the child away from parents who the child usually wants to go back to later on. If you leave the child there, the child is at great risk. Therefore, it is important that we recognise the dilemmas that social workers have to face and that we try to give as much support and respect as we can to social workers who have to make these very difficult decisions, in the childcare field as well as in others. It is important—and I am pleased that it is recognised in this document—that we ensure that social workers are able to practice in the field for as long as they can. Therefore, I welcome the career path that is stressed in this document. When she replies, I ask the Deputy Minister to say something about the decision not to set up a national college of social work in Wales, what discussions she has had with the British Association of Social Workers about that, and whether she sees other institutions being able to fulfil some of those roles.

Un o’r pethau mwyaf anodd y bydd yn rhaid i weithiwr cymdeithasol gofal plant ei wneud yw penderfynu a ddylid rhoi plentyn mewn gofal. Pan fyddwch yn y sefyllfa honno, bydd beth bynnag a wnewch chi yn anghywir. Os byddwch yn cymryd y plentyn i ffwrdd, byddwch yn cymryd y plentyn i ffwrdd oddi wrth y rhieni y bydd y plentyn fel arfer yn awyddus i ddychwelyd atynt yn ddiweddarach. Os byddwch yn gadael y plentyn yno, bydd y plentyn mewn perygl mawr. Felly, mae’n bwysig ein bod yn cydnabod y problemau y mae gweithwyr cymdeithasol yn eu hwynebu, ac ein bod yn ceisio rhoi cymaint o gefnogaeth a pharch ag y gallwn i weithwyr cymdeithasol sy’n gorfod gwneud y penderfyniadau anodd iawn hyn, ym maes gofal plant ac mewn meysydd eraill. Mae’n bwysig—ac rwyf yn falch bod hyn yn cael ei gydnabod yn y ddogfen—ein bod yn sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gallu gweithio yn y maes hwn am gyhyd ag y gallant. Felly, croesawaf y llwybr gyrfa sy’n cael ei bwysleisio yn y ddogfen hon. Pan fydd y Dirprwy Weinidog yn ymateb, gofynnaf iddi ddweud rhywbeth am y penderfyniad i beidio â sefydlu coleg cenedlaethol ar gyfer gwaith cymdeithasol yng Nghymru, am y trafodaethau y mae hi wedi’u cael gyda Chymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain am hynny, ac am ei barn ynghylch a fydd sefydliadau eraill yn gallu cyflawni rhai o’r rolau hynny.

**Mike Hedges:** There are two key points that need to be restated. Everyone knows that social services deal with the most vulnerable in society. In terms of care of the elderly, they deal with many people who, for most of their life, have not been vulnerable, but who become vulnerable in the last year or years of their life. In the future, many people in this room will become vulnerable adults due to age and infirmity. [*Interruption*.] I am hoping to live that long. Everyone has their own individual needs and one size does not fit all. There is a demand for social services. Welsh society is ageing, as are all western societies, and there will be more and more of a demand for social services. Around 150,000 people receive some form of social care in Wales every year; that is the equivalent of almost three Assembly constituencies. If they were all stuck in three Assembly constituencies, a great deal more attention would be given to it

**Mike Hedges:** Mae dau bwynt allweddol y mae angen eu hailddatgan. Mae pawb yn gwybod bod gwasanaethau cymdeithasol yn ymdrin â’r bobl sydd yn fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. O ran gofal yr henoed, maent yn ymdrin â llawer o bobl nad ydynt wedi bod yn agored i niwed am y rhan fwyaf o’u bywydau, ond sydd yn dod yn agored i niwed yn ystod blwyddyn ddiwethaf neu flynyddoedd diwethaf eu bywydau. Yn y dyfodol, bydd llawer o bobl yn yr ystafell hon yn dod yn oedolion sydd yn agored i niwed oherwydd oedran a llesgedd. [*Torri ar draws.*] Gobeithiaf y byddaf yn byw mor hir â hynny. Mae gan bawb eu hanghenion unigol eu hunain, ac nid yw un ateb yn addas i bawb. Mae yna alw am wasanaethau cymdeithasol. Mae cymdeithas Cymru yn heneiddio, fel y mae pob cymdeithas yn y gorllewin, a bydd mwy a mwy o alw am wasanaethau cymdeithasol. Mae tua 150,000

than is given at the moment.

o bobl yn derbyn rhyw fath o ofal cymdeithasol yng Nghymru bob blwyddyn; mae hynny'n cyfateb i bron dair etholaeth Cynulliad. Pe bai'r bobl hyn yn gaeth i dair etholaeth Cynulliad, byddai llawer mwy o sylw yn cael ei roi i'r mater hwn nag a roddir ar hyn o bryd.

I was the Welsh Local Government Association's spokesperson on social care in the late 1990s and early 2000s and, at that time, we predicted a substantial growing elderly population with increased needs. We were right; that is what we have at the moment. The population is going to get older and the level of need will increase. The Welsh Government's vision to ensure that services are centred on the individual is absolutely right. It is important that that should occur; it is not about the one-size fits-all approach. Users and their carers should have a much stronger voice and greater control over services. Services should be built around people, not around organisations. It is not what an organisation can achieve or provide, it is what the citizen or the individual needs. That has to be the key criterion, along with the basic right of everyone to be free from exploitation, abuse and neglect, irrespective of age. A great deal more interest needs to be taken in the needs of elderly people, as currently happens for children. There should be an opportunity for several local authorities to share one social services department with a single person at the top, and with one expert in each area. What happened with local government reorganisation was that every local authority tried to get its own director and experts in every area. They started running out of money and, all of a sudden, expertise in certain areas was lost. That was a disadvantage for social services throughout Wales.

Fi oedd llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ofal cymdeithasol yn y 1990au hwyr a'r 2000au cynnar. Ar y pryd, roeddem yn rhagweld poblogaeth oedrannus sylweddol a fyddai'n cynyddu ac a fyddai ganddynt anghenion uwch. Roeddem yn iawn; dyna'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Bydd y boblogaeth yn heneiddio a bydd lefel yr angen yn cynyddu. Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru, sef sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn gwbl gywir. Mae'n bwysig bod hynny'n digwydd; nid yw hyn yn ymwneud â'r dull un maint yn addas i bawb. Dylai defnyddwyr a'u gofalwyr gael llais llawer cryfach a mwy o reolaeth dros wasanaethau. Dylai gwasanaethau gael eu llunio o amgylch pobl, nid o amgylch sefydliadau. Nid yw hyn yn ymwneud â beth y gall mudiad ei gyflawni neu ei ddarparu; mae'n ymwneud â'r hyn y mae'r dinesydd neu'r unigolyn ei angen. Rhaid i hynny fod yn faen prawf allweddol, ynghyd â'r hawl sylfaenol i bawb fod yn rhydd rhag camfanteisio, cam-drin ac esgeuluso, ni waeth beth fo'u hoedran. Mae angen cymryd llawer mwy o ddiddordeb yn anghenion pobl hŷn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos plant. Dylai fod cyfle i sawl awdurdod lleol rannu adran gwasanaethau cymdeithasol gydag un person yn bennaeth arni, a gydag un arbenigwr ym mhob maes. Yr hyn a ddigwyddodd yn yr ad-drefnu o lywodraeth leol oedd bod pob awdurdod lleol wedi ceisio cael ei gyfarwyddwr a'i arbenigwyr ei hunan ym mhob maes. Dechreuodd eu harian ddod i ben ac, yn sydyn, collwyd arbenigedd mewn rhai meysydd. Roedd hynny'n anfanteisiol i wasanaethau cymdeithasol trwy Gymru.

3.45 p.m.

Portable assessments have been a long time coming; they should have existed many years ago. People should not need to be reassessed because they have moved. Their need is a need; it should not be considered to have

Mae asesiadau cludadwy wedi bod yn hir cyn cyrraedd; dylent fod wedi bodoli flynyddoedd lawer yn ôl. Ni ddylai fod angen ailasesu ar bobl am eu bod wedi symud. Eu hangen yw eu hangen; nid ddylid cymryd ei

changed. National eligibility criteria, again, are something that we should have had a long time ago. There is a desperate need to share information. People have got so het up about the Data Protection Act 1998 and the idea that you must not tell anybody anything that people have been put at risk by the fact that nobody will tell anybody anything.

fod wedi newid. Mae meini prawf cymhwyster cenedlaethol, unwaith eto, yn bethau y dylem fod wedi eu cael amser maith yn ôl. Mae angen dybryd i rannu gwybodaeth. Mae pobl wedi cynhyrfu gymaint am Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r syniad bod yn rhaid peidio â dweud dim wrth unrhyw un, fel y rhoddwyd pobl mewn perygl o'r herwydd.

On early intervention, there are things that you can do at the beginning. You can intervene and do things in order to safeguard people. If you wait a long time, their needs become greater and you have to spend more money on them. Simple actions can be taken to meet needs. As has happened in Swansea and elsewhere in the past, someone would go to visit a person to assess their needs and say that it was going to cost £30,000 or £40,000 when all they had asked for was a handrail. However, what had happened was that they were put in a queue, they did not get their handrail, a long list of things that they supposedly needed was developed and they had to wait two or three years for the handrail. We have reached the stage now when the handrails are put in as and when required and they wait for the other items.

O ran ymyriad cynnar, mae yna bethau y gellir eu gwneud ar y dechrau. Gallwch ymyrryd a gwneud pethau er mwyn diogelu pobl. Os arhoswch am amser hir, mae eu hanghenion yn mynd yn fwy a bydd rhaid i chi wario mwy o arian arnynt. Gellir cymryd camau syml i ddiwallu anghenion. Fel sydd wedi digwydd yn Abertawe ac mewn mannau eraill cyn hyn, byddai rhywun yn ymweld â rhywun i asesu ei anghenion a dweud mai £30,000 neu £40,000 fyddai'r gost, pan mai'r cyfan a oedd ei eisiau oedd canllaw. Fodd bynnag, rhoddwyd y sawl hwnnw mewn ciw, ni chawsant y canllaw, datblygwyd rhestr hir o bethau y tybiwyd yr oedd arnynt eu hangen a bu'n rhaid iddynt aros ddwy neu dair blynedd am y canllaw. Yr ydym wedi dod i'r pwynt lle mae'r canllawiau yn cael eu gosod pan fo'u hangen, gyda'r eitemau eraill yn cael aros.

Everybody says nice things about carers: they are the good people in society and so on. However, the reality is that more needs to be done to support them. We need to establish a national outline contract for care homes to improve consistency. Everybody knows that, in the area that they represent, there are some care homes that are outstandingly good and others that meet the basic criteria. We want them all to be outstandingly good. A great number of people have said nice things about this report, from Care Forum Wales, to the British Association of Social Workers and the Welsh Local Government Association. I support this and I hope that everyone else will.

Mae pawb yn dweud pethau braf am ofalwyr: y nhw yw'r bobl dda yn y gymdeithas ac ati. Er hynny, y gwir amdani yw bod angen gwneud mwy i'w cefnogi. Mae angen i ni sefydlu contract amlinellol cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal i wella cysondeb. Mae pawb yn gwybod am gartrefi gofal sy'n eithriadol o dda yn yr ardal y maent yn ei chynrychioli ac am eraill sy'n cwrdd â'r meini prawf sylfaenol. Yr ydym am iddynt i gyd fod yn eithriadol o dda. Mae nifer fawr o bobl wedi dweud pethau neis am yr adroddiad hwn, o Fforwm Gofal Cymru i Gymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rwy'n cefnogi hyn ac yn gobeithio y bydd pawb arall hefyd.

**Jenny Rathbone:** I would like to congratulate the Deputy Minister for Children and Social Services on her holistic and integrated approach to this very difficult subject. I particularly want to focus on the proposed national outline contract terms to

**Jenny Rathbone:** Hoffwn longyfarch y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ei hymagwedd gyfannol ac integredig tuag at y pwnc anodd iawn hwn. Yr wyf am ganolbwyntio yn benodol ar delerau'r contract amlinellol cenedlaethol

improve the consistency of services. In the light of what is happening in Southern Cross homes, this is a very important point. I imagine that I am not the only Assembly Member who has received Southern Cross's labour-effectiveness proposals—its response to the asset-stripping of the previous directors of the company. However, although I consider that the care being provided in the Southern Cross home in Newport Road in my constituency is currently good, I am extremely concerned about the proposals from Southern Cross to force the members of staff to opt out of the working time directive and to work nights, weekends and bank holidays as required, regardless of family responsibilities. There will also be no restraint on being asked to work overtime because overtime will be paid only at the standard rate and there will be no contribution by the employer to their stakeholder pensions. Its proposal is a reduction of 5 per cent in nursing and care services, 15 per cent in cleaning and catering services, and 25 per cent in maintenance services. I would like to emphasise that local authorities that place people who are very vulnerable in care homes run by Southern Cross and others have a clear duty to ensure that the standard of care that they think they are paying for is what is actually being provided.

arfaethedig i wella cysondeb yn y gwasanaethau. Yng ngoleuni'r hyn sy'n digwydd yng nghartrefi Southern Cross, mae hwn yn bwynt pwysig iawn. Credaf nad fi yw'r unig Aelod Cynulliad i weld cynigion Southern Cross am effeithiolrwydd llafur—sef ei ymateb i'r stripio asedau gan gyfarwyddwyr blaenorol y cwmni. Fodd bynnag, er fy mod o'r farn bod y gofal a geir yn y cartref Southern Cross ar Heol Casnewydd yn fy etholaeth yn dda ar hyn o bryd, mae cynigion Southern Cross i orfodi aelodau o'i staff i dynnu yn ôl o'r gyfarwyddeb oriau gwaith a gweithio nosweithiau, penwythnosau a gwyliau banc yn ôl yr angen, ni waeth beth fo'u cyfrifoldebau teuluol, yn peri pryder mawr i mi. Yn ogystal, ni fydd rhwystro o ran gofyn rhywun i weithio goramser, am na thelir mwy na'r gyfradd safonol am oramser, ac ni fydd y cyflogwr yn talu unrhyw beth tuag at bensiynau cyfranddeiliaid y staff. Ei gynnig yw gostyngiad o 5 y cant yn y gwasanaethau gofal a nyrsio, 15 y cant yn y gwasanaethau glanhau ac arlwyo, a 25 y cant yn y gwasanaethau cynnal a chadw. Hoffwn bwysleisio bod gan awdurdodau lleol sy'n rhoi pobl fregus iawn mewn cartrefi gofal a redir gan Southern Cross ac eraill ddyletswydd glir i sicrhau, os ydynt yn talu am ofal o safon, mai hynny a geir.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** I thank Members for their interest in this debate.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Diolch i'r Aelodau am eu diddordeb yn y ddadl hon.

I will start with Lindsay Whittle's contribution. Thank you for your positive comments, Lindsay, and for your points about the rural provision. I think that you will be interested in what is happening between Ceredigion and Powys at present, and how that work is focusing on the needs of rural communities. I would like to join you in hugging a social worker. That is a nice way of putting it. I have not heard that before, but it will stick in my mind. You were right to refer to the career grades. In support of what you said, the professionalisation of social workers is key and we need to value the contribution of front-line workers.

Rwyf am ddechrau gyda chyfraniad Lindsay Whittle. Diolch am eich sylwadau cadarnhaol, Lindsay, ac am eich pwyntiau am y ddarpariaeth wledig. Credaf y bydd gennych ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd rhwng Ceredigion a Phowys ar hyn o bryd, a'r modd y mae'r gwaith yn canolbwyntio ar anghenion cymunedau gwledig. Hoffwn ymuno â chi parthed cofleidio gweithiwr cymdeithasol. Dyna ffordd braf o'i geirio. Ni chlywais hynny o'r blaen, ond bydd yn aros yn y cof. Yr oeddech yn iawn i gyfeirio at y graddfeydd gyrfa. I ategu eich geiriau, mae proffesiynoli gweithwyr cymdeithasol yn allweddol ac mae angen inni werthfawrogi cyfraniad gweithwyr yn y rheng flaen.

Kirsty mentioned the serious case reviews. As you know, the national safeguarding board will be independently chaired. The First Minister made clear last week, as I have done in this paper, that we intend to set up robust statutory frameworks for the protection of children and adults, and to move to a three-year improvement plan. One way of doing that is to establish a national social services partnership forum. As I have made absolutely clear, we will bring in stakeholders, service users and carers. Of course, what is happening in Ceredigion and Powys will also be of interest to you. We have examples of health and social services working together, where we have made it a statutory requirement; we have seen that in our Carers Strategies (Wales) Measure and in the development of integrated family support teams.

Soniodd Kirsty am yr adolygiadau o achosion difrifol. Fel y gwyddoch, bydd y bwrdd diogelu cenedlaethol dan gadeiryddiaeth annibynnol. Eglurodd y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, fel yr wyf innau yn y papur hwn, ein bwriad i sefydlu fframweithiau statudol cadarn i amddiffyn plant ac oedolion, ac i symud i gynllun gwella tair blynedd. Un ffordd o wneud hynny fyddai sefydlu fforwm partneriaeth gwasanaethau cymdeithasol cenedlaethol. Fe’i gwneuthum yn gwbl glir y byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid, defnyddwyr y gwasanaethau a gofalwyr. Wrth gwrs, bydd yr hyn sy’n digwydd yng Ngheredigion a Phowys hefyd o ddiddordeb i chithau. Mae gennym enghreifftiau o adrannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda’i gilydd, lle yr ydym wedi gwneud hynny’n ofyniad statudol; gwelsom hynny yn ein Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) ac yn y timau cymorth integredig i deuluoedd a ddatblygwyd.

Further to your point about privatisation, I refer you to the Social Care Institute for Excellence report, which I have previously mentioned in this Chamber. That evidence is now being added to. The real worry in England, with regard to personalisation, is that there is real difficulty with the delivery and that is evidence-based. Therefore, I would like to take some more time to consider that.

Ymhellach i’ch pwynt am breifateiddio, fe’ch cyfeiriaf at adroddiad y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, a grybwyllwyd gennyf eisoes yn y Siambr hon. Bellach, fe ychwanegir at y dystiolaeth honno. Y gwir bryder yn Lloegr, o ran personoli, yw bod anhawster go iawn o ran ei gyflwyno, ac mae hynny’n seiliedig ar dystiolaeth. Felly, hoffwn gymryd ychydig mwy o amser i ystyried hynny.

Janet Finch-Saunders mentioned direct payments and I am happy to accept amendment 3. I liked one thing that you said: people want to participate and not just be recipients. I think that that underlines our thinking. It was very well put. However, I refer you to your comments on reducing the budget. Last week, you seemed to suggest that we were reducing the social services budget by £8 million. That must have been in relation to the Welsh Government programme budgets. That was a transfer of £8.137 million into the revenue support grant covering the Children and Young Persons Act 2008, children court fees and the performance management development fund. That was not a reduction and it should not be seen as such.

Soniodd Janet Finch-Saunders am daliadau uniongyrchol, ac yr wyf yn fodlon cefnogi gwelliant 3. Hoffais un peth a ddywedwyd gennych: mae pobl am gymryd rhan ac am beidio â bod yn rhai sy’n derbyn yn unig. Credaf fod hynny’n ategu ein barn ar y mater. Fe’i rhoddwyd yn dda iawn. Fodd bynnag, rwy’n eich cyfeirio at eich sylwadau ar leihau’r gyllideb. Yr wythnos diwethaf, yr oeddech fel petaech yn awgrymu ein bod yn gostwng cyllideb gwasanaethau cymdeithasol £8 miliwn. Rhaid mai parthed cyllidebau rhaglenni Llywodraeth Cymru yr oedd hynny. Yn yr achos hwnnw, trosglwyddwyd £8.137 miliwn i’r grant cynnal refeniw at Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008, ffïoedd llysoedd plant a’r gronfa datblygu rheoli perfformiad. Nid oedd hynny’n ostyngiad ac nid felly y dylid ei ystyried.

Keith Davies, yr wyf wedi clywed yr hyn a ddywedaist am ddibynnu ar y farchnad, yr hyn a ddigwyddodd yn Llanelli a'r ffaith bod pobl wedi codi eu lleisiau'n uchel ynghylch hynny. Yr wyf yn credu bod lle i edrych ar fodelau eraill ac yr ydym yn dweud hynny yn y papur. Efallai bod lle i edrych ar fentrau cymdeithasol yn arbennig. Mae'r papur yn eithaf eglur y gallwn wneud hynny.

Keith Davies, I heard what you said about relying on the market, the events in Llanelli and the fact that people spoke out about that. I think that there is room to look at other models and we have said that in the paper. There may be room to look at social ventures in particular. The paper makes it quite clear that we are able to do that.

In response to Mark Isherwood, social workers deserve to be valued in the voluntary sector or wherever else they may be. I do not agree with you about the big society. This is about our society: our community, our children and our families. The basic difference between our society and the big society is that the big society sees Government withdrawing. Our society sees the participation of Government within our plans and the Government driving the improvement. I do not accept the point about the big society in England. However, I take on board the points that you made about direct payments.

Mewn ymateb i Mark Isherwood, mae gweithwyr cymdeithasol yn haeddu cael eu gwerthfawrogi yn y sector gwirfoddol neu ble bynnag y bônt. Nid wyf yn cytuno â chi am y gymdeithas fawr. Mae a wnelo hyn â'n cymdeithas ni: ein cymuned, ein plant a'n teuluoedd. Y gwahaniaeth sylfaenol rhwng ein cymdeithas ni a'r gymdeithas fawr yw bod y gymdeithas fawr yn gweld Llywodraeth yn cilio. Mae ein cymdeithas yn gweld y Llywodraeth yn cyfranogi o'n cynlluniau a'r Llywodraeth yn gyrru gwelliant. Nid wyf yn derbyn y pwynt am y gymdeithas fawr yn Lloegr. Fodd bynnag, byddaf yn ystyried eich pwyntiau am daliadau uniongyrchol.

In response to Mick Antoniw, reablement is absolutely crucial; it is one of the services that we can look at delivering better regionally. We know that there is evidence to show that good reablement can reduce the need for home care by 60 per cent. We must take that seriously and look at the contribution of the voluntary sector in the provision of the service. It is too patchy as it is. I promise to take away and think about the point that you made about an emergency fund.

Mewn ymateb i Mick Antoniw, mae ail-alluogi yn hanfodol; mae'n un o'r gwasanaethau y gallwn roi sylw iddynt i'w darparu'n well yn rhanbarthol. Gwyddom fod tystiolaeth sy'n dangos y gall ail-alluogi da leihau'r angen am ofal yn y cartref 60 y cant. Rhaid inni ystyried hynny o ddifrif ac edrych ar gyfraniad y sector gwirfoddol yn narpariaeth y gwasanaeth. Mae'n rhy dameidiog fel ag y mae. Rwy'n addo mynd ymaith â'ch pwynt am gronfa argyfwng a meddwl amdano.

Julie talked about childcare social workers; her experience showed in what she said and I am grateful for that. On the point that she made about the national leadership college, we are not proposing a new organisation as we do not think that that is needed. However, we are expecting key stakeholders to work together to make that ambition a reality. I meet regularly with BASW and that will be part of the development of the delivery and implementation of sustainable social services.

Siaradodd Julie am weithwyr cymdeithasol ym maes gofal plant; gwelir ei phrofiad yn yr hyn a ddywedodd, ac yr wyf yn diolch am hynny. O ran ei phwynt am y coleg arweinyddiaeth cenedlaethol, nid ydym yn cynnig sefydliad newydd gan nad ydym yn credu bod angen hynny. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i randdeiliaid allweddol weithio gyda'i gilydd i wireddu'r uchelgais hwnnw. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â BASW a bydd hynny'n rhan o'r gwaith datblygu i gyflwyno a gweithredu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.

Mike Hedges talked about extra pressures. I

Soniodd Mike Hedges am bwysau

think that early interventions are crucial. We need to intervene early so that we meet people's needs when they start to become ill, not when they become critically ill. That is also spelt in our paper. Portable assessments and national eligibility criteria within a national framework of outcomes are important and must underpin our thinking.

ychwanegol. Credaf fod ymyriadau cynnar yn hanfodol. Mae angen i ni ymyrryd yn gynnar fel ein bod yn diwallu anghenion pobl wrth iddynt ddechrau mynd yn sâl, ac nid pan fyddant yn ddifrifol wael. Mae hynny hefyd yn cael ei egluro yn ein papur. Mae asesiadau cludadwy a meini prawf cymhwysedd cenedlaethol dan fframwaith cenedlaethol ar gyfer canlyniadau yn bwysig a rhaid iddynt fod yn sail i'n ffordd o feddwl.

I thank Jenny for her kind words. You talked about a national framework contract for residential care. Off the top of my head, I cannot remember how many contracts we have at the moment—it is somewhere in the region of 29. That is ridiculous, as we need only one. We are committed to doing that so that people can more easily understand the contracts and also so that they make more sense to service users. I agree that standards are at the core of service delivery. I will make a statement on Southern Cross before the end of the week and I am in constant touch with the Care and Social Services Inspectorate Wales to ensure that it is doing what it can to ensure that standards do not fall.

Diolchaf i Jenny am ei geiriau caredig. Soniasoch am gontract fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal preswyl. Ni allaf gofio ar antur sawl contract sydd gennym ar hyn o bryd—mae oddeutu 29. Mae hynny'n hurt, gan nad oes angen ond un. Rydym wedi ymrwymo i wneud hynny fel y bydd y contractau yn haws i bobl eu deall a hefyd yn gwneud mwy o synnwyr i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Rwy'n cytuno mai safonau sydd wrth wraidd darparu gwasanaeth. Byddaf yn gwneud datganiad ar Southern Cross cyn diwedd yr wythnos ac yr wyf mewn cysylltiad cyson ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i sicrhau ei bod yn gwneud yr hyn y gall ei wneud i sicrhau nad yw safonau'n disgyn.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there are objections. I therefore defer all voting under this item until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebu. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Dadl ar yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen
## Debate on the Front-line Resources Review

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies and amendments, 2, 3 and 4 in the name of Peter Black.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Peter Black.

*Cynnig NDM4747 Jane Hutt*

*Motion NDM4747 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn cefnogi'r ymdrech y mae'r Llywodraeth yn ei gwneud, drwy'r adolygiad o adnoddau rheng flaen, i symud adnoddau oddi wrth*

*1. Supports the Government's drive, through the front-line resources review, to shift resources from administrative and support*

*swyddogaethau gweinyddol a chynorthwyol a'u trosglwyddo i reng flaen addysgu a dysgu, ac i wella perfformiad addysgol a chyflawniadau dysgwyr ledled Cymru.*

*functions to front-line teaching and learning, and to raise education performance and learner attainment across Wales.*

*2. Yn croesawu cyfraniad adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol ar strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru i'r adolygiad o adnoddau rheng flaen.*

*2. Welcomes the contribution to the front-line resources review of the report of the independent task and finish group on the structure of education services in Wales.*

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I move the motion.

**Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Cynigiaf y cynnig.

In July last year, I launched the front-line resources review, a one-year programme to develop and deliver a plan to shift education resources from back-office support functions to front-line services. This review was my response to the report that I had commissioned from PricewaterhouseCoopers on the cost of administering the education system in Wales, which found that 32 per cent of public expenditure on education in 2008-09 was spent on support services. The PwC report suggested that there was an opportunity to shift a significant proportion of that resource to front-line services and it set out 10 hypotheses for how that could be done. The aim of the front-line resources review was to turn those hypotheses into actions by identifying quick wins and by developing medium and longer term action to be mainstreamed across all sectors of education.

Ym mis Gorffennaf y llynedd, lansiais yr adolygiad o adnoddau rheng flaen, sef rhaglen flwyddyn i ddatblygu a chyflwyno cynllun i symud adnoddau addysg o weithgarwch cymorth cefn swyddfa i wasanaethau rheng flaen. Yr adolygiad hwn oedd fy ymateb i'r adroddiad a gomisiynwyd gennyf gan PricewaterhouseCoopers ar y gost o weinyddu'r system addysg yng Nghymru, a ganfu i 32 y cant o'r gwariant cyhoeddus ar addysg yn 2008-09 fynd ar wasanaethau cymorth. Awgrymodd adroddiad PwC bod cyfle i symud cyfran sylweddol o'r adnoddau hynny i wasanaethau rheng flaen, a nododd 10 rhagdybiaeth am wneud hynny. Nod yr adolygiad o adnoddau rheng flaen oedd troi'r rhagdybiaethau hynny'n gamau gweithredu drwy ddynodi camau cyflym ymlaen a thrwy ddatblygu camau gweithredu yn y tymor canolig a'r tymor hwy i'w prif ffrydio ar draws pob sector addysg.

I will shortly be publishing a one-year-on report that marks the completion of that programme. It will set out what has been done and what actions will now follow. A significant and ongoing resource shift has already been achieved through, for example, reconfiguring support services within higher education institutions, simplifying education grant schemes to local authorities, reducing the Estyn inspection regime and regional and national procurement of common services by further education institutions.

Cyn hir, byddaf yn cyhoeddi adroddiad am y flwyddyn a fu sy'n nodi cwblhau'r rhaglen honno. Bydd yn egluro pa bethau a wnaed a pha gamau gweithredu a fydd yn dilyn. Cyflawnwyd newid sylweddol a pharhaus yn yr adnoddau eisoes, er enghraifft, drwy ail-gyflunio gwasanaethau cymorth mewn sefydliadau addysg uwch, drwy symleiddio cynlluniau grantiau addysg i awdurdodau lleol, drwy leihau cyfundrefn arolygu Estyn, a thrwy i sefydliadau addysg bellach gaffael gwasanaethau cyffredin yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

The delivery plan will now go forward through the core business planning of my department and other stakeholders. Major medium-term programmes will include driving forward the development of local authority regional education consortia,

Bydd y cynllun gweithredu yn mynd yn ei flaen drwy'r cynllunio busnes craidd a wneir gan fy adran a gan randdeiliaid eraill. Bydd rhaglenni mawr tymor canolig yn cynnwys gyrru ymlaen y datblygiad o gonsortia addysg rhanbarthol awdurdodau lleol, gweithredu

implementing a major all-Wales national ICT programme, internal reconfiguration within higher education institutions and continuing and extending our all-age transformation programme.

rhaglen genedlaethol TGCh fawr i Gymru gyfan, ail-gyflunio mewnol i sefydliadau addysg uwch, a pharhau ac ymestyn ein rhaglen drawsnewid i bob oed.

The PwC report suggested that a resource shift to the front line in the range of £104 million to £192 million might be achievable. The one-year-on report, when published, will indicate that by 2013-14 the estimated annual resource shift is expected to reach or exceed that target.

Awgrymodd adroddiad PwC y gallai symud rhwng £104 miliwn a £192 miliwn o adnoddau i'r rheng flaen fod yn gyraeddadwy. Bydd yr adroddiad ar y flwyddyn a fu, pan y'i cyhoeddir, yn nodi'r disgwyl y bydd y ffigurau bras am symud adnoddau yn flynyddol yn cyrraedd y targed hwnnw erbyn 2013-14 neu'n rhagori arno.

**Simon Thomas:** The Minister said at the outset of his speech that the PwC report identified some 30 per cent going to support services. He has now outlined the amount of resources that may be directed to the front line. What percentage of education spending does that represent and what improvement can he tell schools and education institutions about with regard to the money that they will get for front-line services?

**Simon Thomas:** Dywedodd y Gweinidog ar ddechrau ei araith fod adroddiad PwC yn nodi bod tua 30 y cant yn mynd tuag at gefnogi gwasanaethau. Y mae bellach wedi amlinellu faint o adnoddau y gellir eu cyfeirio at y rheng flaen. Pa ganran o wariant addysg y mae hynny'n ei gynrychioli a pha welliant y gall e sôn wrth ysgolion a sefydliadau addysg amdano o ran yr arian y byddant yn ei gael ar gyfer gwasanaethau rheng-flaen?

4.00 p.m.

**Leighton Andrews:** The figure that we had when we published the PwC report was that achieving something like a 2 per cent shift to the front line would have meant around £83 million, if I remember rightly. I will write to him with more detail on that point.

**Leighton Andrews:** Y ffigur a oedd gennym pan gyhoeddwyd adroddiad PwC oedd y byddai cyflawni newid o ryw 2 y cant i'r rheng flaen wedi golygu tua £83 miliwn, os cofiaf yn iawn. Ysgrifennaf ato gyda rhagor o fanylion ar y pwynt hwnnw.

Alongside the front-line resources review, I also commissioned an independent task and finish group, chaired by the former director of Neath Port Talbot education services, Viv Thomas, to examine the structure of education services, except higher education, in Wales. I published its report at the end of March. The report is a significant contribution to the drive to shift resources to the education front line. However, it is also more than that. It takes a long-term, whole-system view. The review group's primary objective was to ensure that the education system is structured in a way that will deliver sustained improvement to learner attainment across Wales.

Ochr yn ochr â'r adolygiad o adnoddau rheng-flaen, comisiynais grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol hefyd, o dan gadeiryddiaeth cyn-gyfarwyddwr gwasanaethau addysg Castell-nedd Port Talbot, Viv Thomas, i archwilio strwythur gwasanaethau addysg, ac eithrio addysg uwch, yng Nghymru. Cyhoeddais yr adroddiad ddiwedd mis Mawrth. Mae'r adroddiad yn gyfraniad sylweddol at yr ymdrech i symud adnoddau i rheng flaen y byd addysg. Fodd bynnag, y mae hefyd yn fwy na hynny. Mae angen gweledigaeth hir-dymor o'r system yn ei chyfanrwydd. Prif amcan y grŵp adolygu oedd sicrhau bod y system addysg yn cael ei strwythuro mewn ffordd a fydd yn sicrhau gwelliant parhaus yng nghyrhaeddiad dysgwyr ledled Cymru.

The focus on learner attainment is crucial. In Wales, we have made progress on many fronts in education since devolution, but we all know that learner attainment has not improved quickly enough. The 2009 Programme for International Student Assessment painted a disappointing picture of our educational performance and progress. As I have said before, we must all take a level of responsibility for the problem and for resolving it. We need to refocus on higher standards, set our ambitions and expectations high, and look for improvement to every aspect of our system.

Mae canolbwyntio ar gyrhaeddiad dysgwyr yn hanfodol. Yng Nghymru, rydym wedi gwneud cynnydd mewn sawl maes ym myd addysg ers datganoli, ond rydym i gyd yn gwybod nad yw cyrhaeddiad dysgwyr wedi gwella'n ddigon cyflym. Mae Rhaglen Rhyngwladol Asesu Myfyrwyr 2009 yn cynnig darlun siomedig o'n perfformiad a'n cynnydd addysgol. Fel yr wyf wedi ei ddweud o'r blaen, mae'n rhaid i ni i gyd gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am y broblem ac am ei datrys. Mae angen i ni ail-ganolbwyntio ar safonau uwch, gosod uchelgeisiau a disgwyliadau uchel, a chwilio am welliannau i bob agwedd o'n system.

The report on the structure of education in Wales tackles these issues directly. It has some hard messages. Local education authorities in Wales are too small, when they operate individually, to provide consistently high-quality improvement services and professional support and challenge to schools. There has been insufficient clarity of accountability for performance, high-quality support and robust, well-informed challenge at all levels in the education system. There has been insufficient integration of education provision, particularly at post-16 level, where schools and colleges should be working more closely together.

Mae'r adroddiad ar strwythur addysg yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol. Mae rhai negeseuon anodd ynddo. Mae'r awdurdodau addysg lleol yng Nghymru yn rhy fach, pan fyddant yn gweithredu'n unigol, i ddarparu gwasanaethau gwelliannau cyson o ansawdd da a chefnogaeth broffesiynol a her i ysgolion. Ni fu digon o eglurder am atebolrwydd perfformiad, cefnogaeth o safon uchel a heriau cadarn, gwybodus ar bob lefel yn y system addysg. Ni fu digon o integreiddio'r ddarpariaeth addysg, yn enwedig ar gyfer ôl-16, pan ddylai ysgolion a cholegau fod yn cydweithio'n agosach.

In the past, there has not been sufficient clarity of mission and joined-up thinking about education at a national level. However, this report not only highlights problems, it points to solutions. It includes 33 specific recommendations for improvement, including a clear national mission for education in Wales, a national standards unit, a national IT data platform, a review of funding for 16-19 education, a further reduction in the number of separate further education institutions, driving forward the establishment of regional consortia of local authorities, and giving those consortia a leadership role in improving educational attainment, and better training and support for school governors. There is significant synergy between these recommendations and the action programmes arising from the front-line resources review. Shifting resources to the front line and improving learner attainment are not conflicting priorities; they are the same thing.

Yn y gorffennol, ni fu digon o eglurder am y genhadaeth na digon o feddwl cydgysylltiedig am addysg ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, nid yn unig bod yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at broblemau, mae'n tynnu sylw at atebion. Mae'n cynnwys 33 o argymhellion penodol ar gyfer gwella, gan gynnwys cenhadaeth genedlaethol glir ar addysg yng Nghymru, uned safonau cenedlaethol, llwyfan data TG cenedlaethol, adolygiad o gyllid ar gyfer addysg 16-19 oed, gostyngiad pellach yn nifer y sefydliadau addysg bellach ar wahân, sbarduno sefydlu consortia rhanbarthol o awdurdodau lleol, a rhoi rôl arweiniol i'r consortia wrth wella cyrhaeddiad addysgol, a chynnig gwell hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr ysgol. Mae synergedd sylweddol rhwng yr argymhellion hyn a'r rhaglenni gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad ar adnoddau rheng flaen. Nid yw symud adnoddau i'r rheng flaen a gwella cyrhaeddiad dysgwyr yn flaenoriaethau sy'n

gwrthdaro; yr un peth ydyn nhw.

I will be publishing a response to each of the recommendations in the report on the structure of education services, but I can announce today that I am accepting them all. Some will require further consideration of the detail of implementation. Where the recommendations are for my department to take forward, we will be doing so as part of our core business and part of our focus on the front line. I will be making further statements on some of the recommendations in due course. Where the recommendations are primarily for others to take forward, we will be encouraging, supporting and, where necessary, challenging.

Byddaf yn cyhoeddi ymateb i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad ar strwythur gwasanaethau addysg, ond gallaf gyhoeddi heddiw fy mod yn eu derbyn i gyd. Bydd rhai yn gofyn am ystyriaeth bellach o'r manylion gweithredu. Os fy adran i fydd yn bwrw ymlaen â'r argymhellion, byddwn yn gwneud hynny fel rhan o'n busnes craidd ac fel rhan o'n ffocws ar y rheng flaen. Byddaf yn gwneud datganiadau pellach ar rai o'r argymhellion maes o law. Os eraill fydd yn bwrw ymlaen â'r argymhellion, byddwn yn annog, yn cefnogi a, lle bo angen, yn heriol.

At a national level, there will be a strengthened national strategic framework to provide impetus, support and challenge to the work of regional consortia, local authorities and schools. The new school standards unit within my department will identify and promote best practice, and help education professionals across Wales to understand and implement it. There will be stronger support for school governors. Governors have a vital role in improving performance in their school. There will be national targets and strategic goals, including targets on surplus places. Estyn and the Wales Audit Office will undertake inspections on a regional basis. I am currently looking into whether we need further legislation to strengthen these provisions; if required, I hope that that will be included in the Welsh Government's proposed legislative programme.

Ar lefel genedlaethol, bydd fframwaith strategol genedlaethol gryfach i ddarparu ysgogiad, cymorth a her i waith consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion. Bydd yr uned safonau ysgolion newydd o fewn fy adran yn nodi ac yn hyrwyddo arfer gorau, ac yn helpu gweithwyr proffesiynol addysg ledled Cymru i ddeall a gweithredu arno. Bydd cefnogaeth gryfach i lywodraethwyr ysgolion. Mae gan lywodraethwyr rôl hanfodol wrth wella perfformiad yn eu hysgol. Bydd targedau cenedlaethol a nodau strategol, gan gynnwys targedau ar leoedd dros ben. Bydd Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliadau ar sail ranbarthol. Rwyf ar hyn o bryd yn edrych i weld a oes angen deddfwriaeth bellach i gryfhau'r darpariaethau hyn; os oes angen, rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n cael ei gynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth Cymru.

A key element of the front-line resources review—which also features strongly among the recommendations of the report on the structure of education services—is local authority regional consortia. The structures report tells us that 22 local authorities, each acting alone, cannot deliver the pace of improvement that we need. I will be looking to local authorities to drive forward consortia working rapidly. Local authorities that drag their feet will lose school effectiveness funding. Regional consortia will need to focus on both rationalising the support service and also, crucially, on improving

Un elfen allweddol o'r adolygiad adnoddau rheng-flaen—sydd hefyd yn nodwedd amlwg yn argymhellion yr adroddiad ar strwythur gwasanaethau addysg—yw consortia rhanbarthol yr awdurdodau lleol. Mae'r adroddiad ar strwythurau yn dweud wrthym na all 22 awdurdod lleol—pob un yn gweithredu ar ei ben ei hun—ddarparu gwelliant mor gyflym ag y mae arnom ei angen. Byddaf yn disgwyl i awdurdodau lleol i sbarduno'r consortia i weithio'n gyflym. Bydd awdurdodau lleol sy'n llusgo'u traed yn colli cyllid effeithiolrwydd ysgolion. Bydd angen i gonsortia rhanbarthol ganolbwyntio

performance across and within local education departments and individual schools. If the consortia have not delivered by 2013, further structural reform will be needed.

ar resymoli'r gwasanaeth cefnogi a hefyd, yn hollbwysig, ar wella perfformiad ar draws ac o fewn adrannau addysg lleol ac ysgolion unigol. Os nad yw'r consortia wedi cyflawni hyn erbyn 2013, bydd angen diwygio strwythurol pellach.

The final recommendation of the structures report was that there should be a further in-depth review of education in Wales in 2013, to take a hard look at progress and consider whether more fundamental structural change is needed. I do not intend to wait until 2013. The school standards unit is already operating. We will know how consortia are responding and I will have assessed their performance by the summer of 2012. Learner attainment in Wales, at all ages, must show improvement by then. I will be monitoring progress. If the current structures cannot deliver consistently across the whole of Wales, we will need to ask hard questions about whether the structures that we have in place are the right ones, as did the task and finish group.

Argymhelliad olaf yr adroddiad ar strwythurau oedd y dylid cael adolygiad manwl pellach ar addysg yng Nghymru yn 2013, i edrych yn fanwl ar y cynnydd ac ystyried a oes angen newid strwythurol mwy sylfaenol. Nid wyf yn bwriadu aros tan 2013. Mae'r uned safonau ysgolion eisoes yn gweithredu. Byddwn yn gwybod sut mae'r consortia yn ymateb a byddaf wedi asesu eu perfformiad erbyn haf 2012. Bydd rhaid i gyrhaeddiad dysgwyr yng Nghymru, o bob oed, ddangos gwelliant erbyn hynny. Byddaf yn monitro'r cynnydd. Os na all y strwythurau presennol gyflawni yn gyson ar draws Cymru gyfan, bydd angen i ni ofyn cwestiynau caled ynghylch a ydym yn gweithredu'r strwythurau cywir, fel y gwnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen.

Deputy Presiding Officer, this is a serious programme for school improvement and I recommend it to the Assembly.

Ddirprwy Lywydd, mae hon yn rhaglen o ddifri gyda'r nod o wella ysgolion ac rwy'n ei hargymell i'r Cynulliad.

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:*

*Insert at the end of point 1:*

*'gyda'r nod yn benodol o sicrhau bod plant sy'n gadael ysgol gynradd yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfri i'r safon ddisgwyliedig'.*

*'with the aim in particular of ensuring children leaving primary school are able to read, write and count to the expected standard'.*

**Simon Thomas:** I move amendment 1.

**Simon Thomas:** Cynigiaf welliant 1.

Amendment 1 seeks to make it clear that, in accepting the Government's motion today, Plaid Cymru wants to see greater concentration on bearing down on illiteracy and innumeracy in our schools over the next five years. We want that to be the focus of the work of the task and finish group and that of the education department and the Minister. I hope that the Minister will support that amendment, because the people of Wales expect us, in the fourth Assembly, to have the achievement of basic skills as the core aim of the next five years.

Mae gwelliant 1 yn ceisio gwneud yn glir, wrth dderbyn cynnig y Llywodraeth heddiw, bod Plaid Cymru eisiau gweld mwy o ganolbwyntio ar ostwng anllythrennedd ac anrhifogrwydd yn ein hysgolion dros y pum mlynedd nesaf. Rydym am i hynny fod yn ffocws i waith y grŵp gorchwyl a gorffen a gwaith yr adran addysg a'r Gweinidog. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn cefnogi'r gwelliant hwnnw, gan fod pobl Cymru yn disgwyl i ni, yn y pedwerydd Cynulliad, ystyried cyflawni sgiliau sylfaenol fel nod craidd y pum mlynedd nesaf.

I welcome much of what the Minister has said today. He has taken the recommendations of the group seriously, and I will turn to some of those shortly. I also want to put this in context. The report of the structures task and finish group looked at Wales in comparison with other parts of the UK and the world, and it found us to be, sadly, lacking. It found, particularly, that accountability for educational performance has become confused and overly complex in Wales and that we need greater transparency and accountability for the achievements of young people in our schools and colleges. We particularly want the view that children should be leaving our primary schools with the key ability to read and count to the expected levels to be at the core of the Government's hopes and ambitions for the next five years.

Rwyf yn croesawu llawer o'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud heddiw. Mae wedi cymryd argymhellion y grŵp o ddifrif, a byddaf yn sôn am rai o'r rheiny cyn bo hir. Rwyf hefyd yn awyddus i roi hyn mewn cyd-destun. Mae adroddiad y grŵp strwythurau gorchwyl a gorffen yn edrych ar Gymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU a'r byd, ac mae'n dod i'r casgliad, yn anffodus, ein bod yn ddiffygiol. Yn arbennig, mae'n dod i'r casgliad bod atebolrwydd am berfformiad addysgol wedi mynd yn ddryslyd ac yn rhy gymhleth yng Nghymru a bod angen mwy o dryloywder ac atebolrwydd am gyflawniadau pobl ifanc yn ein hysgolion a'n colegau. Rydym yn arbennig o awyddus i weld bod gallu plant i adael ein hysgolion cynradd gyda'r gallu allweddol i ddarllen a chyfrif i'r lefelau y disgwylir iddynt gael wrth wraidd gobeithion ac uchelgeisiau'r Llywodraeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

It is true to say that all parties—including my party and the Liberal Democrats—who have, at some time or another, been part of Government in Wales have to face up to the reality of this report, and the condemnation, to a certain extent, and hard messages that it has for the Government. These are not just hard messages; they are also hard and very real lessons. They are a wake-up call for the new Labour Government to get to grips with this and to ensure that progress is made.

Mae'n wir dweud bod yn rhaid i bob plaid—gan gynnwys fy mhlaid i a'r Democratiaid Rhyddfrydol—sydd, ar ryw adeg neu'i gilydd, wedi bod yn rhan o Lywodraeth yng Nghymru, wynebu realiti'r adroddiad hwn, a'r condemniad, i raddau, a'r negeseuon anodd sydd yno i'r Llywodraeth. Nid negeseuon anodd yn unig mo'r rhain; maent hefyd yn wersi caled a real iawn. Maent yn ysgytwad i'r Llywodraeth Lafur newydd i fynd i'r afael â hyn ac i sicrhau y bydd cynnydd yn cael ei wneud.

The Minister said that he would accept the recommendations. However, in the list of recommendations that he was looking to implement, he did not mention the introduction of some form of national literacy and numeracy tests for years 2 and 5, on a standardised basis, as a proper diagnostic test. He will know that the structures task and finish group says that this recommendation should be implemented in September 2011. Plaid Cymru wants to ensure that all the new recommendations, projects and processes to help children to read and write are in place by September. When the Minister replies to the debate, I hope that he will confirm that he will be introducing this approach from September, so that we know the basis on which we can judge progress for our school cohort, and on which we can see whether the Minister's proposals are working.

Dywedodd y Gweinidog y byddai'n derbyn yr argymhellion. Fodd bynnag, yn y rhestr o argymhellion yr oedd yn bwriadu eu gweithredu, ni soniodd am gyflwyno math o brofion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar gyfer blynyddoedd 2 a 5, ar sail safonol, fel prawf diagnostig priodol. Bydd yn gwybod bod y grŵp strwythurau gorchwyl a gorffen yn dweud y dylai'r argymhelliad hwn gael ei roi ar waith ym mis Medi 2011. Mae Plaid Cymru eisiau sicrhau bod yr holl argymhellion, prosiectau a phrosesau newydd i helpu plant i ddarllen ac ysgrifennu yn barod erbyn mis Medi. Pan fydd y Gweinidog yn ymateb i'r ddadl, rwyf yn gobeithio y bydd yn cadarnhau y bydd yn cyflwyno'r dull hwn ym mis Medi, fel y byddwn ni'n gwybod ar ba sail y gallwn farnu cynnydd ar gyfer ein carfan ysgolion, fel y gallwn weld a ydyw cynigion y Gweinidog yn gweithio.

Plaid Cymru made it clear at the last election that we wanted to see illiteracy rates for children leaving primary school halved by 2015. We felt strongly that the illiteracy of children leaving primary education in Wales could be eradicated, to all intents and purposes, by 2020. In particular, we want to see a safety-net programme introduced for those children within the 8-13 phase who are falling short; they could be identified at the age of seven, and then given extra and intensive tuition, as happened in West Dunbartonshire in Scotland, for example, where there was great success over a period of 10 years in eradicating illiteracy. Scotland does not have a statutory national curriculum, whereas we do, so the Scottish experiment has perhaps not been rolled out in the same way as it could be in Wales. However, when the Minister comes forward with further statements—perhaps not today—I hope to hear about further work being done on catch-up programmes for illiterate students. I give way to the Minister.

Gwnaeth Plaid Cymru yn glir yn yr etholiad diwethaf ei bod eisiau gweld cyfraddau anllythrennedd plant sy'n gadael yr ysgol gynradd yn haneru erbyn 2015. Rydym yn teimlo'n gryf y gallai anllythrennedd plant sy'n gadael addysg gynradd yng Nghymru gael ei ddileu, i bob pwrpas, erbyn 2020. Yn benodol, rydym am weld rhaglen ddiogel yn cael ei chyflwyno ar gyfer y plant hynny rhwng 8 a 13 nad ydynt yn cyrraedd y targed; gellid eu hadnabod yn saith oed, ac yna rhoddir hyfforddiant ychwanegol a dwys, fel a ddigwyddodd yng Ngorllewin Swydd Dunbarton yn yr Alban, er enghraifft, lle'r oedd llwyddiant mawr dros gyfnod o 10 mlynedd wrth ddileu anllythrennedd. Nid oes gan yr Alban gwricwlwm cenedlaethol statudol, ond mae gennym ni, felly efallai nad yw'r arbrawf yn yr Alban wedi ei gyflwyno yn yr un ffordd ag y gallai yng Nghymru. Fodd bynnag, pan fydd y Gweinidog yn gwneud datganiadau pellach—nid heddiw efallai—yr wyf yn gobeithio clywed am waith pellach yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag anllythrennedd myfyrwyr. Ildiaf i'r Gweinidog.

**Leighton Andrews:** I want to be sure that the Member is clear that, in developing the literacy proposals over the last 12 months, we have looked at best practice across the UK, including that in West Dunbartonshire. Professor Tommy MacKay, who was behind the West Dunbartonshire plans, which have had a serious impact on eroding illiteracy, has been one of the advisers to the Welsh Government.

**Leighton Andrews:** Rwyf am fod yn siŵr bod yr Aelod yn glir ein bod, wrth ddatblygu'r cynigion llythrennedd dros y 12 mis diwethaf, wedi edrych ar arferion gorau ar draws y DU, gan gynnwys yng Ngorllewin Swydd Dunbarton. Mae'r Athro Tommy MacKay, a oedd y tu ôl i'r cynlluniau yng Ngorllewin Swydd Dunbarton, sydd wedi gweld anllythrennedd yn gostwng yn sylweddol, wedi bod yn un o'r cynghorwyr i Lywodraeth Cymru.

**Simon Thomas:** I thank the Minister, and I certainly accept that. Of course, our own projects here in Wales have achieved an 87 per cent improvement over the last full year, in terms of people showing literacy advances, so I think that the Government's work is recognised. I would like to hold the Minister to account over the next five years so that we see achievements on the ground on this.

**Simon Thomas:** Diolch i'r Gweinidog, ac yr wyf yn sicr yn derbyn hynny. Wrth gwrs, mae ein prosiectau ein hunain yma yng Nghymru wedi cyflawni 87 y cant o gynnydd yn ystod y flwyddyn lawn ddiwethaf, o ran pobl sy'n dangos datblygiadau llythrennedd, felly yr wyf yn meddwl bod gwaith y Llywodraeth yn cael ei gydnabod. Hoffwn ddwyn y Gweinidog i gyfrif dros y pum mlynedd nesaf er mwyn i ni weld cyflawniadau ar lawr gwlad ar hyn.

The report of the task and finish group states clearly that Wales needs a culture of high expectations, and Plaid Cymru absolutely

Mae adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen yn datgan yn glir bod angen diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar Gymru, ac mae Plaid

agrees with that, and believes that we need a wider change in attitude within our schools and within society as a whole. The focus must be turned from the question of why the child is failing to a question of why the teaching method is failing.

We also need to see evidence that resources are being driven to the front line. The Minister said that he would write to me on that, and I look forward to him doing so, as we want to see exactly what the plans are. We want to ensure that it is delivered in the classroom, with the extra investment that that would mean for classroom-based training and mentoring for teachers to deliver these catch-up programmes.

Illiteracy will be a key test for this new Government. It is not only about resources; the higher spending local authorities in Wales do not achieve the best educational results, and those that spend less often do better. It is about the attitude in the classroom, training and the way that we treat our young people. I look forward to further work by the Minister on this.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cydnabod yr angen i ystyried daearyddiaeth unigryw Cymru wrth ffurfio unrhyw gonsortia addysg rhanbarthol yn y dyfodol.*

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cydnabod yr angen i fanteisio ar arbenigedd athrawon wrth ffurfio polisïau.*

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cydnabod bod gweithio mewn ffordd*

Cymru’n cytuno â hynny, ac yn credu bod arnom angen newid ehangach mewn agweddau o fewn ein hysgolion ac o fewn cymdeithas yn gyffredinol. Rhaid troi’r ffocws oddi ar ofyn pam y mae’r plentyn yn methu i ofyn pam y mae’r dull addysgu yn methu.

Mae angen inni hefyd weld tystiolaeth bod adnoddau yn cael eu gyrru i’r rheng flaen. Dywedodd y Gweinidog y byddai’n ysgrifennu ataf ynghylch hynny, ac edrychaf ymlaen iddo wneud hynny, gan ein bod eisiau gweld yn union beth yw’r cynlluniau. Rydym am sicrhau y caiff ei gyflwyno yn yr ystafell ddosbarth, gyda’r buddsoddiad ychwanegol y byddai hynny’n ei olygu ar gyfer hyfforddiant a mentora i athrawon i gyflwyno’r rhaglenni dal-i-fyny hyn yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd anllythrennedd yn brawf allweddol i’r Llywodraeth newydd. Nid yw hyn am adnoddau yn unig; Nid yw’r awdurdodau lleol yng Nghymru sy’n gwario mwy yn cael y canlyniadau addysgol gorau, a’r rhai hynny sy’n gwario llai sydd yn aml yn gwneud yn well. Mae’n ymwneud â’r agwedd yn yr ystafell ddosbarth, yr hyfforddiant a’r ffordd yr ydym yn trin ein pobl ifanc. Edrychaf ymlaen at waith pellach ar hyn gan y Gweinidog.

*Amendment 2 Peter Black*

*Insert as new point at end of motion:*

*Recognises the need to take into account Wales’ unique geography when forming any future regional education consortia.*

*Amendment 3 Peter Black*

*Insert as new point at end of motion:*

*Recognises the need to draw upon the expertise of teachers when formulating policy.*

*Amendment 4 Peter Black*

*Insert as new point at end of motion:*

*Recognises that a multi-agency approach is*

*amlasiantaethol yn hanfodol er mwyn gwella perfformiad addysgol Cymru.*

*crucial in improving Wales' educational performance.*

**Kirsty Williams:** I move amendments 2, 3 and 4 tabled in the name of Peter Black.

**Kirsty Williams:** Cynigiaf welliannau 2, 3 a 4 a gyflwynwyd yn enw Peter Black.

I welcome the report, and the hard work of those involved in delivering it to the Minister. I also welcome the Minister's acceptance of all the recommendations that were made in that report, and the outline of a way forward that he has given here this afternoon. There is much that I and my party could agree with.

Yr wyf yn croesawu'r adroddiad, a gwaith caled y rhai sy'n ymwneud â'i gyflawni i'r Gweinidog. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn derbyn yr holl argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwnnw, a'r amlinelliad o'r ffordd ymlaen y mae wedi ei gyflwyno yma y prynhawn yma. Mae llawer y gallwn i a'm plaid gytuno ag ef.

In the last 12 to 18 months, I believe that educational attainment issues have come to be the focus of this Assembly. I am reassured, by the Minister's actions, that he takes seriously the PISA report, Estyn's report and the indicators that have gone wrong in the last 18 months. He has set out a plan by which he feels confident that changes can be delivered. There are a couple of issues on which I would like some clarity, which are reflected in the amendments this afternoon. If we are to move to a regional consortia basis—I agree that, in some of our smaller local authorities, the ability to really drive change is limited—I would appeal to the Minister to recognise some of the geographical realities of Wales in setting up those consortia. I hope that he will also recognise that geographical uniqueness when looking at recommendation 7 on the target for school surplus places. I agree with the Minister that we need to bear down on the amount of surplus places. We need to spend our resources on real children in real classrooms. However, the reality is that, in some parts of Wales, there may be very good reasons as to why a facility with surplus places is kept open, such as to facilitate the access of a rural community to that service or because of an issue around the language. Therefore, there is a reason as to why we need to do that.

Yn ystod y 12 i 18 mis diwethaf, yr wyf yn credu bod materion cyrhaeddiad addysgol wedi datblygu'n ganolbwynt i'r Cynulliad hwn. Rwyf wedi fy modloni, gan weithredoedd y Gweinidog, ei fod yn cymryd o ddifrif adroddiad PISA, adroddiad Estyn a'r dangosyddion sydd wedi mynd o'u lle yn y 18 mis diwethaf. Mae wedi amlinellu cynllun y mae'n hyderus y gall arwain at newidiadau. Mae un neu ddau o faterion yr hoffwn rhywfaint o eglurder arnynt, sy'n cael eu hadlewyrchu yn y gwelliannau y prynhawn yma. Os ydym i symud i raglen gonsortia ranbarthol, cytunaf fod y gallu i gyflwyno newid gwirioneddol mewn rhai o'n hawdurdodau lleol llai yn gyfyngedig—byddwn yn apelio i'r Gweinidog i gydnabod realiti daearyddol Cymru wrth sefydlu'r consortia hynny. Gobeithiaf y bydd hefyd yn cydnabod y ddaearyddiaeth unigryw honno wrth edrych ar argymhelliad 7 ar y targed ar gyfer lleoedd gwag mewn ysgolion. Yr wyf yn cytuno â'r Gweinidog bod angen inni roi sylw arbennig i faint o leoedd sydd dros ben. Mae angen inni wario ein hadnoddau ar blant go iawn mewn ystafelloedd dosbarth go iawn. Fodd bynnag, y realiti yw, mewn rhai rhannau o Gymru, efallai bod rhesymau da iawn pam bod cyfleuster sydd â lleoedd dros ben yn cael ei gadw ar agor, er enghraifft i hwyluso mynediad o gymuned wledig i'r gwasanaeth hwnnw, neu oherwydd mater ynghylch yr iaith. Felly, mae rheswm pam y mae angen inni wneud hynny.

4.15 p.m.

**Simon Thomas:** I accept the point that Kirsty Williams has just made, but we on these benches cannot support her amendment

**Simon Thomas:** Yr wyf yn derbyn y pwynt y mae Kirsty Williams newydd ei wneud, ond ni allwn ni ar y meinciau hyn gefnogi ei

2 because we feel that the force behind reconfiguration or any kind of reorganisation must be attainment, and we cannot put geographical barriers in the way of that attainment. I sympathise with some of the points that she makes, but those matters should be addressed at the local level rather than by any amendments here or guidance by the Government.

gwelliant 2 oherwydd ein bod yn teimlo bod yn rhaid i'r grym y tu ôl i ail-gyflunio neu unrhyw fath o ad-drefnu fod yn gyrhaeddiad, ac ni allwn roi rhwystrau daearyddol yn y ffordd o'r cyrhaeddiad hwnnw. Yr wyf yn cydymdeimlo â rhai o'r pwyntiau y mae'n eu gwneud, ond dylai'r materion hynny gael sylw ar lefel leol yn hytrach na thrwy unrhyw welliannau yma neu ganllawiau gan y Llywodraeth.

**Kirsty Williams:** I welcome your clarification on Plaid Cymru's stance on this issue, but getting the consortia right will be crucial to driving up attainment. If we get the consortia and the mix within them wrong, then some of the decisions made could have a detrimental effect on the educational outcomes in an area. You cannot simply divorce the issues. Our guiding principles in all the measures that we take should, of course, always be improvement and attainment. However, that could be jeopardised if you get the consortia wrong.

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn croesawu eich eglurhad ar safbwynt Plaid Cymru ar y mater hwn, ond bydd cael y consortia'n gywir yn hanfodol i wella cyrhaeddiad. Os byddwn yn cael y consortia a'r cymysgedd y tu mewn iddynt yn anghywir, yna gallai rhai o'r penderfyniadau a wnaed gael effaith andwyol ar y canlyniadau addysgol yn yr ardal. Ni allwch wahanu'r materion. Dylai ein hegwyddorion arweiniol yn yr holl fesurau yr ydym yn eu cymryd, wrth gwrs, bob amser fod yn wellhad ac yn gyrhaeddiad. Fodd bynnag, gallai hynny gael ei beryglu os cewch y consortia yn anghywir.

The same applies to recommendation 8 and the Government's commitment to review funding at a post-16 level. In my constituency, post-16 learning has been subsidised by the local authority to ensure that a range of facilities are kept open. That is important in such a rural county as Powys, and it needs to be considered in other rural communities, as well as in some of the less populated urban communities in the Valleys, in order to keep educational establishments open. It is not a problem of rural constituencies alone. The same also applies to recommendation 17, which recognises the multi-agency support that is needed to drive educational attainment levels, which can be challenging.

Mae'r un peth yn berthnasol i argymhelliad 8 ac ymrwymiad y Llywodraeth i adolygu'r cyllid ar lefel ôl-16. Yn fy etholaeth i, mae dysgu ôl-16 wedi cael ei sybsideiddio gan yr awdurdod lleol i sicrhau bod ystod o gyfleusterau yn cael eu cadw ar agor. Mae hynny'n bwysig mewn sir wledig fel Powys, ac mae angen ei ystyried mewn cymunedau gwledig eraill, yn ogystal ag yn rhai o'r cymunedau trefol llai poblog yn y Cymoedd, er mwyn cadw sefydliadau addysgol ar agor. Nid problem i etholaethau gwledig yn unig mohono. Mae'r un peth hefyd yn berthnasol i argymhelliad 17, sy'n cydnabod y gefnogaeth aml-asiantaeth y mae ei angen i yrru lefelau cyrhaeddiad addysgol, a all fod yn heriol.

I very much welcome the Minister's acceptance of recommendation 18 on additional learning needs. However, how will he address the practicalities of that recommendation with regard to teacher training? One issue with identifying additional learning needs and putting the appropriate levels of support in place is the adequacy of additional learning needs teacher training and the amount of time that teachers get to look at these issues when they are

Croesawaf yn fawr iawn bod y Gweinidog yn derbyn argymhelliad 18 ar anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, sut y bydd yn mynd i'r afael ag agweddau ymarferol yr argymhelliad hwnnw gyda golwg ar hyfforddi athrawon? Un mater gyda nodi anghenion dysgu ychwanegol a rhoi'r lefelau priodol o gefnogaeth yn ei le yw digonolrwydd hyfforddiant athrawon mewn anghenion dysgu ychwanegol a faint o amser y mae athrawon yn ei gael i edrych ar y

training.

materion hyn pan fyddant yn hyfforddi.

Recommendation 22 sets rigorous targets, which I do not disagree with. However, what will happen to those educational establishments and their pupils if those targets are not met by 2012 and 2015?

Mae argymhelliad 22 yn gosod targedau trwyadl, ac nid wyf yn anghytuno ag ef. Fodd bynnag, beth fydd yn digwydd i'r sefydliadau addysgol hynny a'u disgyblion os nad yw'r targedau hynny'n cael eu bodloni erbyn 2012 a 2015?

Recommendation 27 talks about a bidding process, and the whole focus of the Minister's review has been about shifting resources. The Minister said that he has already taken steps to simplify grant structures and individual grants, and I would welcome further clarification as to exactly how many individual ring-fenced grants the Minister has already gotten rid of and whether he intends to get rid of them all.

Mae argymhelliad 27 yn sôn am broses ymgeisio, ac mae holl ffocws adolygiad y Gweinidog wedi bod ar symud adnoddau. Dywedodd y Gweinidog ei fod eisoes wedi cymryd camau i symleiddio strwythurau grant a grantiau unigol, a byddwn yn croesawu eglurhad pellach ynghylch yn union faint o grantiau unigol sydd wedi'u neilltuo y mae'r Gweinidog eisoes wedi cael gwared â hwy, ac a ydyw'n bwriadu cael gwared arnynt i gyd.

I very much welcome the Minister's acceptance of recommendation 30 with regard to governance. One of the most difficult issues that we must get to grips with is the adequacy of the current school governance arrangements and whether governors truly provide rigorous challenge, questioning and debate in the school. If we are honest, we know that governors can sometimes just act as cheerleaders for the school, rather than being the grit in the oyster that drives up performance, standards, and educational opportunity. We need to get to grips with whether the current arrangements are adequate in injecting that rigour.

Croesawaf yn fawr iawn bod y Gweinidog yn derbyn argymhelliad 30 mewn perthynas â llywodraethu. Un o'r materion mwyaf anodd y mae'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef yw digonolrwydd y trefniadau llywodraethu ysgolion ar hyn o bryd ac a ydyw llywodraethwyr yn wir yn rhoi her drylwyr, cwestiynu a dadl yn yr ysgol. Os ydym yn onest, rydym yn gwybod y gall llywodraethwyr weithiau weithredu fel 'codwyr hwyl' yn unig ar gyfer yr ysgol, yn hytrach na bod y graean yn y wystrys sy'n gyrru i fyny perfformiad, safonau, a chyfleoedd addysgol. Mae angen inni fynd i'r afael â'r trefniadau presennol i weld a ydynt yn ddigon i chwistrellu'r trylwyredd hwnnw.

**Angela Burns:** I thank the Minister for bringing forward this debate, which is of great interest and is absolutely a step in the right direction. It does not go as far philosophically as we on these benches would have liked it to have gone; we still maintain that the direct funding of educational establishments is the way forward. However, you will remember, Minister, that, when the leader of the opposition spoke for the first time in this new Assembly to the First Minister, we promised that we would be a constructive opposition. Therefore, in response to the debate today, the report of the independent task and finish group, and the ideas that are being presented today, we want to support you in so far as we

**Angela Burns:** Yr wyf yn diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r ddadl hon, sydd o ddiddordeb mawr ac yn bendant yn gam i'r cyfeiriad cywir. Nid yw'n mynd mor bell yn athronyddol ag y byddem ni ar y meinciau hyn wedi hoffi iddo fynd; rydym yn parhau i gredu mai cyllid uniongyrchol o sefydliadau addysgol yw'r ffordd ymlaen. Fodd bynnag, byddwch yn cofio, Weinidog, pan siaradodd arweinydd yr wrthblaid am y tro cyntaf yn y Cynulliad newydd hwn â Phrif Weinidog Cymru, addawsom y byddem yn wrthblaid adeiladol. Felly, wrth ymateb i'r ddadl heddiw, adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol, a'r syniadau sy'n cael eu cyflwyno heddiw, rydym eisiau eich cefnogi chi cyn belled ag y gallwn, ac mae'r hyn yr

can, and what we see here is something that we feel very able to support.

ydym yn ei weld yma yn rhywbeth y teimlwn y gallwn ei gefnogi'n fawr.

The amendments pick out certain areas and re-emphasise them. However, from reading the entire report of the task and finish group, I note that the issues raised in almost all of the amendments, with the exception of the Liberal Democrats' amendment 2 on geographical spread, are well covered. We did not table any amendments. What we want to say is that we will support you, Minister, in every way that we can in order to translate this report into strong action that teachers, educational institutions, local authorities, the Government and Assembly Members can take forward for the sake of our children.

Mae'r gwelliannau yn nodi rhai ardaloedd yn benodol ac yn eu hail-bwysleisio nhw. Fodd bynnag, o ddarllen adroddiad cyfan y grŵp gorchwyl a gorffen, yr wyf yn sylwi bod y materion a godwyd yn bron pob un o'r gwelliannau, ac eithrio gwelliant 2 gan y Democratiaid Rhyddfrydol ar ledaeniad daearyddol, yn cael eu cynnwys yn dda. Ni chyflwynasom unrhyw welliannau. Yr hyn yr ydym eisiau ei ddweud yw y byddwn yn eich cefnogi, Weinidog, ym mhob ffordd y gallwn er mwyn trosi'r adroddiad hwn yn weithred gref y gall athrawon, sefydliadau addysgol, awdurdodau lleol, y Llywodraeth ac Aelodau'r Cynulliad fwrw ymlaen ag ef er mwyn ein plant.

There are a few areas that I would like to touch upon briefly. Reports are terribly easy to write, but the absolute clarity that the education department seeks is that you spell out the direction and the mission for education. I note that, in the report, there are an awful lot of targets and objectives that are to be achieved in a short time. I do not normally say that you ought to slow down, and I am not saying that now. The process of change does have to be fairly swift and does need to be brutal at times. However, Minister, I am sure that you will be aware that we need to take people along with us, and many of your objectives need to be achieved by September or November of this year, or by January of next year. Do you believe that there is the capacity in the Department for Education and Skills and in the local education authorities to move at that pace while maintaining an educational environment for all students whatever their age?

Mae rhai meysydd yr hoffwn gyffwrdd â hwy yn fyr. Mae adroddiadau yn ofnadwy o hawdd i'w hysgrifennu, ond yr eglurder llwyr y mae'r adran addysg yn ei geisio yw eich bod yn nodi manylion y cyfarwyddyd a'r genhadaeth ar gyfer addysg. Nodaf, yn yr adroddiad, fod llawer iawn o dargedau ac amcanion i'w cyflawni mewn cyfnod byr. Nid wyf fel arfer yn dweud y dylech chi arafu, ac nid wyf yn dweud hynny yn awr. Mae'n rhaid i'r broses o newid fod yn weddol gyflym ac mae angen iddo fod yn greulon ar adegau. Fodd bynnag, Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol bod angen i ni fynd â phobl gyda ni, ac mae angen cyflawni llawer o'ch amcanion erbyn mis Medi neu fis Tachwedd eleni, neu erbyn mis Ionawr y flwyddyn nesaf. A ydych yn credu bod y gallu yn yr Adran Addysg a Sgiliau ac yn yr awdurdodau addysg lleol i symud ar y cyflymder hwnnw wrth gynnal amgylchedd addysgol i bob myfyriwr beth bynnag eu hoed?

I want to touch briefly on recommendation 13, which relates to four regional consortia. That is an interesting idea, and does in part meet our requirement that funding be brought directly to the front line, to the schools. However, it stops at that layer. Is this another layer of bureaucracy? What can you do to ensure that it is not another layer of bureaucracy and that it will not just end up costing us money? In addition, Minister, will you look at each of the four areas to see

Yr wyf am gyffwrdd yn fyr ag argymhelliad 13, sy'n ymwneud â phedwar consortiwm rhanbarthol. Mae hwnnw'n syniad diddorol, ac, yn rhannol, yn bodloni ein gofyniad i ddod ag arian yn uniongyrchol i'r rheng flaen, i'r ysgolion. Fodd bynnag, mae'n stopio ar yr haen honno. Ai haen arall o fiwrocratiaeth yw hyn? Beth allwch chi ei wneud i sicrhau nad haen arall o fiwrocratiaeth ydyw ac na fydd ond yn costio arian i ni yn y pen draw? Yn ogystal â hyn,

which consortia ideas might work? I am concerned that one size might not fit all and that if we try to make all four the same they will not work anywhere in Wales. Some consortia are working well together in a virtual network, and it would be a shame to throw the baby out with the bathwater. Therefore, I would like to hear your views on how strongly you will be pushing that forward.

Weinidog, a wnewch chi edrych ar bob un o'r pedwar maes i weld pa syniadau o ran y consortia a all weithio? Yr wyf yn bryderus na fydd un maint yn addas i bawb, ac os ydym yn ceisio gwneud pob un o'r pedwar yr un fath ni fyddant yn gweithio yn unman yng Nghymru. Mae rhai consortia yn gweithio'n dda gyda'i gilydd mewn rhwydwaith rhithwir, a byddai'n drueni i daflu'r babi allan gyda dŵr y baddon. Felly, hoffwn glywed eich barn ar ba mor gryf y byddwch yn gwthio hynny yn ei flaen.

I was delighted to see recommendation 17, which gives weight to the role of parents, guardians and carers. All too often, parents, guardians and carers are left out of discussions on these matters. I was delighted to see that they will be heavily involved. Therefore, Minister, you have our absolute support on that.

Yr oeddwn yn falch iawn o weld argymhelliad 17, sy'n rhoi pwysau i rôl rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr. Yn rhy aml, mae rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr yn cael eu gadael allan o drafodaethau ar y materion hyn. Yr oeddwn yn falch iawn o weld y byddant yn ymwneud yn helaeth â hyn. Felly, Weinidog, mae gennych ein cefnogaeth llwyr ar hynny.

Recommendation 25 goes to the heart of where we think the funding for schools should be. It states that

Mae argymhelliad 25 wrth wraidd yr hyn yr ydym yn credu y dylai'r cyllid ar gyfer ysgolion fod. Mae'n nodi y dylai

'85 per cent of the funding should go directly to school bank accounts'.

85 y cant o'r arian fynd yn uniongyrchol i gyfrifon banc yr ysgolion.

That is great. It does not happen everywhere in Wales. However, along with giving 85 per cent of funding to schools, you also have to give those schools the education and training on how to spend it well. There are other areas relating to children's additional learning needs, transportation issues and all of those areas and services that are currently held back by county councils but which may become the responsibility of the regional consortia, and that may have an impact on schools. The headmistresses and headmasters need to be equipped to deal with that.

Mae hynny'n wych. Nid yw'n digwydd ym mhob man yng Nghymru. Fodd bynnag, yn ogystal â rhoi 85 y cant o'r cyllid i ysgolion, rhaid i chi hefyd roi i'r ysgolion hynny yr addysg a'r hyfforddiant ar sut i'w wario'n dda. Mae yna feysydd eraill sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol plant, materion cludiant a'r holl feysydd a gwasanaethau hynny sy'n cael eu dal yn ôl ar hyn o bryd gan gynghorau sir, ond a allai ddod yn gyfrifoldeb y consortia rhanbarthol, a gallai hynny gael effaith ar ysgolion. Mae angen i brifathrawesau a phrifathrawon fod yn barod i ymdrin â hynny.

My last point is on recommendation 28, which states:

Mae fy mhwynt olaf ar argymhelliad 28, sy'n datgan:

'We recommend that national literacy and numeracy tests should be introduced at the beginning of Year 2 and Year 5.'

Yr ydym yn argymell y dylai profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol gael eu cyflwyno ar ddechrau Blwyddyn 2 a Blwyddyn 5.

Could you clarify whether the report is referring to years 2 and 5 or key stages 2 and

A allech egluro a ydyw'r adroddiad yn cyfeirio at flynyddoedd 2 a 5 neu gyfnodau

5? That would have an impact on the foundation phase. We have made a huge commitment in this country to the foundation phase, which involves unstructured learning. If children pop out of the foundation phase at age seven and have to face a test, because they have learned according to their own skills and levels in conjunction with their teacher, they will not all be at the same level. Therefore, if there is a universal test, many children may well fail it even though what they are learning in the foundation phase is exactly what is needed. We need to make sure that there is no confusion and that there is no contradiction between the ethos of the foundation phase and wanting to judge children at the ages of five, seven and 11.

allweddol 2 a 5? Byddai hynny'n cael effaith ar y cyfnod sylfaen. Rydym wedi gwneud ymrwymiad enfawr yn y wlad hon i'r cyfnod sylfaen, sy'n ymwneud â dysgu di-strwythur. Os ydyw plant yn dod allan o'r cyfnod sylfaen yn saith oed ac yn gorfod wynebu prawf am eu bod wedi dysgu yn ôl eu sgiliau a'u lefelau eu hunain ar y cyd gyda'u hathro, ni fyddant i gyd ar yr un lefel. Felly, os oes prawf cyffredinol, gall llawer o blant ei fethu hyd yn oed pan mai'r hyn y maent yn ei ddysgu yn y cyfnod sylfaen yw'r union beth y mae ei angen. Mae angen i ni wneud yn siŵr nad oes unrhyw ddryswch ac nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng ethos y cyfnod sylfaen a'r awydd i farnu plant sy'n bump, saith ac 11 oed.

**Keith Davies:** Croesawaf yr adroddiad hwn yn fawr. Mae gan y bobl sydd wedi ei ysgrifennu brofiad helaeth ym myd addysg.

**Keith Davies:** I very much welcome this report. The people who have written it have vast experience in education.

Efallai y dylwn ddatgan buddiant, gan fy mod yn llywodraethwr mewn ysgol gynradd ac mewn ysgol uwchradd yn Llanelli. Yr wyf hefyd yn gadeirydd ar rwydwaith 14-19 yn ardal Llanelli.

I ought perhaps to declare an interest, as I am a governor of a primary school and secondary school in Llanelli. I am also chair of the 14-19 network in the Llanelli area.

Croesawaf y Mesur a ddaeth i mewn ddechrau'r flwyddyn i gynnig o leiaf 30 pwnc i blant 14 oed ac i blant 15 oed. Mae sôn yn yr adroddiad am gydweithio—mae'n rhaid wrth gydweithio.

I welcome the Measure that came in at the start of the year to offer at least 30 subjects to 14-year-olds and to 16-year-olds. The report mentions collaboration, and we must ensure collaboration.

Mae dau bwynt yr wyf am eu tanlinellu. Wrth sôn am gostau canolog, pan oeddwn yn gyfarwyddwr addysg mewn dau awdurdod, yr oedd 30 y cant o gyllid yr adran addysg yn mynd i'r adrannau canolog, y prif weithredwyr, y trysoryddion ac ati. Gobeithio y byddwch yn gweithio'n agos gyda Carl Sargeant, gan ei fod yn edrych ar y costau ychwanegol hyn. Yr oeddwn yn cwestiynu faint o werth a ddaeth o roi 30 y cant o'm cyllid i'r adrannau hynny, gan nad oeddwn yn siŵr o werth gwneud hynny, a chredaf fod angen gofyn y cwestiwn hwnnw o hyd. Down wedi hynny at ddosrannu'r arian i'r ysgolion. Croesawaf y ffaith y byddwch yn gweithio at roi 85 y cant yn uniongyrchol i'r ysgolion.

I have two points that I wish to highlight. To talk about central costs, when I was a director of education in two authorities, 30 per cent of the education department's budget went to the central departments, the chief executives, the treasurers and so on. I hope that you will work closely with Carl Sargeant, because he is looking at these additional costs. I used to question the benefit to me of giving 30 per cent of my budget to those departments, because I was not sure of the benefit of doing so, and I think that that question still needs to be asked. We then come to the allocation of funding to schools. I welcome the fact that you will work towards giving 85 per cent directly to schools.

Yr ail beth i ddweud yw bod nifer o awdurdodau, fel yr oeddech yn sôn, yn rhy fach. O'r herwydd, maent yn methu â chynnal arbenigedd i blant. Er enghraifft,

The second point to mention is that some authorities, as you mentioned earlier, are too small. As a result, they cannot maintain expertise for children. For example, someone

daeth rhywun i'm gweld yr wythnos diwethaf ynglŷn â phlentyn ag anghenion arbennig oedd heb gael cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sir Gâr yn sir fawr o gymharu â rhai o siroedd Cymru, ac os na all sir Gâr roi'r adnoddau at ei gilydd, nid wyf yn siŵr beth mae'r siroedd bach yn gallu ei wneud. Felly, mae'n bwysig cael cydweithio a bod y consortia yn gweithio. Pan ddechreuais i, 17 awdurdod oedd yng Nghymru. Gweithiais wedyn yn y Gymru o wyth awdurdod. Yn awr, mae 22. Pan oedd wyth gennym, yr oedd consortia gennym, yn debyg i'r hyn yr ydych yn ei gynnig yn awr. Canmolaf Cynnal, y gwasanaeth cynnal ysgolion yng Ngwynedd, achos, nid yn unig mae'n cynnig gwasanaeth i ysgolion yn y gogledd, mae'n cynnig gwasanaeth i ysgolion yn y de. Mae cydweithio yn gallu ateb nifer fawr o ofynion, felly.

came to see me last week about a child with special needs who had not received support through the medium of Welsh. Carmarthenshire is a large county compared to some Welsh counties, and, if Carmarthenshire cannot get the resources together, I am not sure what the smaller counties can do. Therefore, it is important to get collaboration and that the consortia work. If you go back to the time when I started, there were 17 authorities in Wales. I then worked in a Wales of eight authorities. Now there are 22. When there were eight, there were consortia similar to what you propose now. I applaud Cynnal, the school support service in Gwynedd, because it not only provides a service to schools in north Wales, but provides a service to schools in south Wales. Collaboration can meet many requirements, therefore.

Y rheswm arall y credaf fod angen consortia yw er mwyn cael arbenigedd i athrawon, achos mae'n anodd iawn i bob sir benodi ymgynghorwyr sydd wedi meistroli'r pynciau llai. Felly, mae'n bwysig bod y consortia'n gweithio, ac, fel y mae nifer wedi ei ddweud, mae'n rhaid sicrhau bod aelodau'r consortia yn gwybod beth yw'u cyfrifoldebau a'u bod yn gweithio i wella addysg yn ardaloedd y consortia.

The other reason why I think that the consortia are needed is for expertise for teachers, because it is very difficult for every county to appoint consultants who have expertise in non-core subjects. Therefore, it is important that the consortia work and, as many have said, we need to ensure that the consortia members know what their responsibilities are and that they are working to improve education in the consortia areas.

Croesawaf yr adroddiad hwn. Mae'n adroddiad gwych, ac mae'n dangos y ffordd ymlaen i ni i wella safon ein haddysg.

I welcome this report. It is an excellent report, and it shows us the way forward to improve the standard of our education.

**Antoinette Sandbach:** Minister, I echo what Angela Burns said to you about the Welsh Conservatives welcoming this report. I am happy that the Welsh Labour Government will accept the independent recommendations of the task and finish group.

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, yr wyf yn ategu'r hyn a ddywedodd Angela Burns wrthych ynglŷn â Cheidwadwyr Cymru yn croesawu'r adroddiad hwn. Yr wyf yn fodlon y bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn derbyn argymhellion annibynnol y grŵp gorchwyl a gorffen.

Shifting education funding to the front line was one of our manifesto commitments. I welcome the fact that you appear to be committed to cutting bureaucracy. The fact that a 2 per cent cut in bureaucracy will lead to a saving of £83 million that will go to the front line is perhaps an indication of the benefit that can be achieved by directing resources to the front line.

Roedd symud cyllid addysg i'r rheng flaen yn un o ymrwymiadau ein maniffesto. Croesawaf y ffaith eich bod yn ymddangos yn ymroddedig i dorri biwrocratiaeth. Mae'r ffaith y bydd toriad o 2 y cant mewn biwrocratiaeth yn arwain at arbediad o £83 miliwn a fydd yn mynd i'r rheng flaen, efallai, yn arwydd o'r budd-dal y gellir ei gyflawni drwy gyfeirio adnoddau i'r rheng flaen.

I echo the concerns expressed by Kirsty Williams with regard to rural schools. As there is no longer a Minister for rural affairs, I would invite you to comment on how you will rural-proof these policies to ensure that pupils in those communities do not find themselves travelling long distances in order to obtain an education. In addition, I would like you to indicate what sort of journey times you would expect for pupils in rural communities, bearing in mind the type of consolidation that is recommended in this report.

Yr wyf yn ategu'r pryderon a fynegwyd gan Kirsty Williams ynglŷn ag ysgolion gwledig. Gan nad oes Gweinidog dros faterion gwledig mwyach, byddwn yn eich gwahodd i roi sylwadau ar sut y byddwch yn gwneud prawf mesur gwledig o ran y polisïau hyn i sicrhau nad yw disgyblion yn y cymunedau hynny'n gorfod teithio pellteroedd hir er mwyn cael addysg. Hoffwn i chi nodi pa fath o amseroedd teithio y byddech yn eu disgwyl ar gyfer disgyblion mewn cymunedau gwledig, gan gadw mewn cof y math o gyfnerthu a argymhellir yn yr adroddiad hwn.

4.30 p.m.

I am delighted that you are accepting the recommendation that continuing professional development should be handled by headteachers, who, as the report indicates, are best placed to allocate resources. We need to trust our teachers to teach and our heads to run schools.

Yr wyf wrth fy modd eich bod yn derbyn yr argymhelliad y dylai datblygiad proffesiynol parhaus gael ei drin gan benaethiaid, sydd, fel y mae'r adroddiad yn ei nodi, yn y sefyllfa orau i ddyrannu adnoddau. Mae angen inni ymddiried yn ein hathrawon i addysgu a'n penaethiaid i redeg ysgolion.

I also ask the Minister to comment on reducing the funding gap, which is something that I have already raised in the Assembly. You will recall that I raised, in questions to the First Minister, the issue of closing the £604 funding gap between Welsh and English students. In his reply, the First Minister indicated that the difference was largely due to PFI finance. However, it has been indicated by the research service that this is not correct and that expenditure in relation to PFI capital costs are not included in the funding gap. Minister, bearing in mind that that figure does not reflect capital costs, will you be looking at that funding gap? Will you look at making further savings in the area of bureaucracy and reducing that 30 per cent, to close that funding gap and redirect resources to the front line?

Gofynnaf hefyd i'r Gweinidog roi sylwadau ar leihau'r bwlch cyllido, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf eisoes wedi'i godi yn y Cynulliad. Byddwch yn cofio i mi godi'r mater yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, sef cau'r bwlch cyllido o £604 rhwng myfyrwyr Cymraeg a Saesneg. Yn ei ateb, dywedodd y Prif Weinidog fod y gwahaniaeth yn bennaf o ganlyniad i gyllid PFI. Fodd bynnag, mae wedi cael ei nodi gan y gwasanaeth ymchwil nad yw hyn yn gywir ac nad yw gwariant mewn perthynas â chostau cyfalaf PFI yn cael eu cynnwys yn y bwlch cyllido. Weinidog, o gofio nad yw'r ffigur yn adlewyrchu costau cyfalaf, a fyddwch yn edrych ar y bwlch cyllido? A wnewch chi edrych ar wneud arbedion pellach ym maes biwrocratiaeth a lleihau'r 30 y cant hwnnw, i gau'r bwlch cyllido ac ailgyfeirio adnoddau i'r rheng flaen?

I need only to refer to the recent PISA results to show the consequences of ignoring the fundamental failures in education policy. The report states that,

Nid oes ond angen imi gyfeirio at y canlyniadau PISA yn ddiweddar i ddangos canlyniadau anwybyddu methiannau sylfaenol mewn polisi addysg. Mae'r adroddiad yn nodi

'With regards to the OECD's internationally accepted PISA assessment, we are going backwards in terms of performance compared to other countries within the UK'.

O ran asesiad PISA yr OECD a dderbynnir yn rhyngwladol, rydym yn mynd tuag yn ôl o ran perfformiad o'i gymharu â gwledydd eraill o fewn y DU.

I urge the Minister to consider giving greater educational freedom for teachers to make decisions and address the matter of sustained underfunding. I hope that, having accepted the benefit of more education money being transferred to front-line teachers and headteachers, the Welsh Labour Government will also look into another policy of the Welsh Conservatives, namely the direct funding of schools, so that wasteful education bureaucracy can be cut out altogether and so that quicker progress is made in closing that funding gap.

Yr wyf yn annog y Gweinidog i ystyried rhoi mwy o ryddid addysgol i athrawon i wneud penderfyniadau a mynd i’r afael â’r mater o danariannu parhaus. Yr wyf yn gobeithio, ar ôl derbyn y budd o fwy o arian addysg yn cael ei drosglwyddo i athrawon a phenaethiaid rheng-flaen, y bydd Llywodraeth Lafur Cymru hefyd yn edrych i mewn i bolisi arall y Ceidwadwyr Cymreig, sef cyllido ysgolion yn uniongyrchol, fel y gall biwrocratiaeth addysg wastraffus gael ei dorri allan yn gyfan gwbl, ac fel bod cynnydd cyflymach yn cael ei wneud o ran cau’r bwlch cyllido hwnnw.

**Jenny Rathbone:** The Conservatives’ proposal for the complete direct funding of schools works swimmingly when things are going well, but, unfortunately, there has to be a role for local education authorities when things are not going as well. As part of our commitment to an inclusive society, we have a commitment to the integration and inclusion of pupils with particular needs in our schools. Teachers have a right to expect specialist support, whether they are dealing with children who may have epilepsy or diabetes, or complex learning needs, and devolving all money directly to schools will not enable that shared expertise. It is only needed in small quantities, but it is hard to predict where that child will turn up.

**Jenny Rathbone:** Mae cynnig y Ceidwadwyr ar gyfer ariannu ysgolion yn hollol uniongyrchol yn gweithio’n dda pan fydd pethau’n mynd yn dda, ond, yn anffodus, mae’n rhaid cael rôl ar gyfer awdurdodau addysg lleol pan nad yw pethau’n mynd yn dda. Fel rhan o’n hymrwymiad i gymdeithas gynhwysol, mae gennym ymrwymiad i integreiddio a chynnwys disgyblion ag anghenion penodol yn ein hysgolion. Mae gan athrawon yr hawl i ddisgwyl cymorth arbenigol, boed iddynt ymdrin â phlant a allai fod ag epilepsi neu ddiabetes, neu anghenion dysgu cymhleth, ac ni fydd datganoli’r holl arian yn uniongyrchol i ysgolion yn galluogi’r arbenigedd hwnnw a rennir. Dim ond mewn symiau bach y mae ei angen, ond mae’n anodd rhagweld lle bydd y plentyn hwnnw’n ymddangos.

Therefore, there is an important role for local education authorities, as well as consortia of local education authorities, to ensure that schools get the expert support that they need, in line with the needs of the individual pupils that they are endeavouring to serve. That is an important role for these consortia, but all schools must have the expertise required to ensure that all children are making appropriate progress, particularly around literacy and numeracy. Where they are not making sufficient progress, in line with their chronological age, governors have a hugely important role in asking why. If governing bodies fail to challenge the senior management team when pupils are not making the expected progress, the local education authority has a responsibility to intervene. There is a school not very far away

Felly, mae rôl bwysig i awdurdodau addysg lleol, yn ogystal â chonsortia o awdurdodau addysg lleol i sicrhau bod ysgolion yn cael y cymorth arbenigol y mae arnynt ei angen, yn unol ag anghenion y disgyblion unigol y maent yn ymdrechu i’w gwasanaethu. Mae hynny’n rôl bwysig i’r consortia hyn, ond rhaid i bob ysgol gael yr arbenigedd y mae ei angen i sicrhau bod pob plentyn yn gwneud cynnydd priodol, yn enwedig o ran llythrennedd a rhifedd. Lle nad ydynt yn gwneud digon o gynnydd, yn unol â’u hoedran cronolegol, mae gan lywodraethwyr rôl bwysig iawn i ofyn pam. Os yw cyrff llywodraethu yn methu â herio’r uwch dîm rheoli pan nad yw disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, mae gan yr awdurdod addysg lleol gyfrifoldeb i ymyrryd. Mae ysgol nad yw’n bell i ffwrdd o’r fan hon lle

from here at which staff have been suspended on full pay for two years. It took nearly two years for the local education authority to wake up to this problem, and individual pupils lost out. You wonder what they were thinking and why the local education authority, or, indeed, the LEA governors, did not blow the whistle when things were going very badly wrong. Therefore, it is hugely important that local education authorities use the clerk to the governing body as an early warning signal when governing bodies are not performing their appropriate duties and that councillors ensure that they are fulfilling their duties to have appropriately qualified and committed LEA governors in order to ensure that governing bodies are operating in the way that they should.

As for the emotional maturity of all children, do we think hard enough about what children are going through at this tender age? Puberty does not happen overnight; it often takes three or four years to complete. This is a difficult transition period, during which boys and girls acquire the physical characteristics of adult men and women, and because the physical changes—deepening voices, changing shapes, hair growth and acne—are so noticeable, we often forget about the rest of it. The hormones that charge through us all

O safbwynt aeddfedrwydd emosiynol pob plentyn, a ydym yn ystyried yn ddigon gofalus y profiadau y mae plant yn eu hwynebu pan fyddant yn cyrraedd yr oedran hwn? Nid yw'r glasoed yn digwydd dros nos; mae'n aml yn para tair neu bedair blynedd. Mae hwn yn gyfnod pontio anodd, pan fydd bechgyn a merched yn datblygu'n gorfforol i fod yn ddynion a menywod sy'n oedolion, ac oherwydd bod y newidiadau corfforol mor amlwg—lleisiau'n dyfnhau, cyrff yn newid eu siâp, blew yn tyfu ac acne—rydym yn aml

in our early teens must also impact forcibly on our minds, brains and emotions. During puberty, many children feel confused and strongly emotional. They will be anxious about their body image and their relationships with others, and they might find it difficult to express themselves. In terms of social development, 11 years of age is the start of what psychologists call identity formation. These early teens are struggling to work out who they are and what their role is supposed to be. Their egos are beginning to try to move on from the development of the individual to the broader context of society and what that means.

yn anghofio am weddill y newidiadau sy'n mynd rhagddynt. Mae'n rhaid bod yr hormonau sy'n rhuthro drwy ein cyrff yn ein harddegau cynnar hefyd yn cael effaith rymus ar ein meddyliau, ein hymennydd a'n hemosiynau. Pan fyddant yn dod i'w glasoed, mae llawer o blant yn teimlo'n ddryslyd ac yn emosiynol iawn. Byddant yn poeni am ddelwedd y corff a'u perthynas ag eraill, ac efallai y byddant yn ei chael yn anodd mynegi eu hunain. O ran datblygiad cymdeithasol, mae'r broses a elwir gan seicolegwyr yn 'ffurfio hunaniaeth' yn dechrau pan fydd plant yn cyrraedd 11 oed. Mae'r bobl ifanc hyn yn eu harddegau cynnar yn ei chael yn anodd gweithio allan pwy ydyn nhw a pha rôl y dylent ei chwarae. Mae'r ego yn dechrau ceisio symud ymlaen o ddatblygiad yr unigolyn i gyd-destun ehangach y gymdeithas a holl oblygiadau hynny.

Looking at various studies on human development, there are some strong commonalities indicating that the social and emotional development of an 11-year-old results in a person who tends to be egocentric—this could be for a seven-year-old, speaking from personal experience—critical, uncooperative, fearful, tearful and full of worries and who finds relationships hard. They pull and push at parents, exhibiting very physical displays of anger—biting, kicking, punching and slamming doors. They still maintain strong friendships, but they are far more subject to quarrels. However, a 12-year-old, just one year on, is generally far more pleasant, good natured and even tempered. They are far more settled and convinced about their likes and dislikes; they have a stronger need to conform to their peers and their friendships are calmer—they do not have the turmoil of an 11-year-old.

Gan edrych ar wahanol astudiaethau ar ddatblygu dynol, mae rhai ffactorau cyffredin cryf sy'n dangos bod datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plentyn 11 oed yn arwain at berson sy'n tueddu i fod yn egosentrig—mae hyn yn wir am blentyn saith oed hefyd, o brofiad personol—yn feirniadol, yn amharod i gydweithredu, yn ofnus, yn ddagreuol ac yn llawn pryder ac sy'n ei chael yn anodd cynnal perthnasau. Maent yn ymrafael â'u rhieni, gan ddangos eu dicter mewn ffordd gorfforol iawn—cnoi, cicio, dyrnu a chau drysau'n glep. Maent yn parhau i gynnal perthnasau cryf â'u cyfeillion, ond maent yn llawer mwy tebygol o ffraeo. Fodd bynnag, mae plant 12 oed, flwyddyn yn unig yn ddiweddarach, yn llawer mwy dymunol, hynaws a phwyllog eu tymer ar y cyfan. Maent yn llawer mwy sefydlog a sicr am eu hoff bethau a'u cas bethau; mae'r angen iddynt gydymffurfio â'u cyfoedion yn gryfach ac mae eu perthnasau â'u cyfeillion yn dawelach—maent yn wynebu llai o gythrwfl na phlant 11 oed.

Finally, science shows us that the brain of an adolescent goes through significant physiological changes: behaviours become hard-wired over the next few years, literally and figuratively, and age 11 is just the start.

Yn olaf, mae gwyddoniaeth yn dangos inni fod ymennydd person ifanc yn mynd drwy newidiadau ffisiolegol sylweddol: mae eu hymddygiad yn cael ei gadarnhau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac mae'r broses ond megis dechrau pan fyddant yn 11 oed.

5.00 p.m.

To recap, Minister: at a time of their lives when, emotionally, physically and psychologically, children are undergoing the biggest and most confusing of changes in their development, we ask them to also deal with a complete change in the structure of the world in which they spend the majority of the year—a fairly ordered world where they have an intensely personal relationship with key people who have a strong influence on their lives. Do we need to keep these children in a more pastoral setting for one more crucial year, so that they may be able to start their journey through puberty without having to face other major changes? Would that one extra year give them more time to settle, and interventions to take effect? Why do we change school at age 11? There appears to be no reason for the 11—plus other than as a testing mechanism. I know that we no longer use it, but this is the hangover—we change school at 11 because of the 11—plus, which was a testing mechanism to see which type of secondary school a child should go to. It was created by Rab Butler’s Education Act 1944 and was intended to match the secondary school with the child’s abilities and further career chances. Despite extensive research, Minister, I am unable to find a concrete reason as to why the age of 11 was picked rather than 10 or 12. Education has changed wholesale since 1944, yet we still predicate our entire educational structure on the age of 11. It is an age that appears to have been chosen from thin air, and the overwhelming evidence points to the fact that it should be 12 or perhaps even 14.

I grynhoi, Weinidog: ar adeg yn eu bywydau pan, yn emosiynol, yn gorfforol ac yn seicolegol, mae plant yn cael y newidiadau mwyaf a mwyaf dryslyd yn eu datblygiad, rydym yn gofyn iddynt hefyd ddelio â newid llwyr yn strwythur y byd lle maent yn treulio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn—byd cymharol drefnus lle mae ganddynt berthynas bersonol ddwys gyda phobl allweddol sy'n cael dylanwad cryf ar eu bywydau. A oes angen inni gadw’r plant hyn mewn lleoliad mwy bugeiliol ar gyfer un flwyddyn dyngedfennol arall, fel y gallant ddechrau eu taith drwy lasoed heb orfod wynebu newidiadau mawr eraill? A fyddai’r un flwyddyn ychwanegol honno’n rhoi mwy o amser iddynt setlo, ac i ymyriadau ddod i rym? Pam rydym yn newid ysgol yn 11 oed? Ymddengys nad oes unrhyw reswm dros yr ‘11-plus’ ar wahân i fod yn fecanwaith profi. Gwn nad ydym bellach yn ei ddefnyddio, ond dyma’r effaith—yr ydym yn newid ysgol yn 11 oed oherwydd yr ‘11-plus’, a oedd yn fecanwaith profi i weld pa fath o ysgol uwchradd y dylai plentyn fynd iddi. Cafodd ei greu gan Ddeddf Addysg 1914 Rab Butler a’r bwriad oedd cyfateb yr ysgol uwchradd â galluoedd a chyfleoedd gyrfa pellach y plentyn. Er gwaethaf ymchwil helaeth, Weinidog, ni allaf ddod o hyd i reswm pendant ynglŷn â pham y dewiswyd 11 oed yn hytrach na 10 neu 12 oed. Mae addysg wedi newid yn llwyr ers 1944, ac eto rydym yn dal i briodoli ein strwythur addysgol cyfan ar 11 oed. Mae'n oedran sy'n ymddangos ei fod wedi’i ddewis o’r gwynt, ac mae'r dystiolaeth yn llethol at y ffaith y dylai fod yn 12 neu efallai hyd yn oed 14 oed.

Tomorrow, there is a Welsh Conservative debate on our ideas for the education of eight to 13—year—olds, but today I specifically want to address the current problem faced by little kids going to a big school. Should we consider some of the best practice from Europe, keeping our children in a nursery environment for one more year, and then keeping them in primary school until they reach the age of 12? I understand the pressure from those who want to or must work, but what price the incredibly positive effect that one year could have on the life of the child, even into adulthood? Do we weigh up the long—term cost for the state in having so

Yfory, mae dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar ein syniadau ar gyfer addysg plant sydd rhwng 8 a 13 mlwydd oed, ond heddiw yr wyf yn benodol am fynd i'r afael â'r broblem bresennol a wynebir gan blant bach sy’n mynd i ysgol fawr. A ddylem ystyried rhai o'r arferion gorau o Ewrop, gan gadw ein plant mewn amgylchedd feithrin am un flwyddyn arall, ac yna eu cadw yn yr ysgol gynradd hyd nes eu bod yn cyrraedd 12 oed? Yr wyf yn deall y pwysau gan y rhai sydd am weithio neu y mae'n rhaid iddynt weithio, ond pa bris y gallai’r effaith anhygoel o gadarnhaol o un flwyddyn ei chael ar fywyd y plentyn, hyd yn oed pan fydda yn oedolyn? A ydym yn

many children not make it through school, with a consequent disengagement from society, and the continuation of damaging trends into their children’s generation, and their children’s children? Or do we bite the bullet by building an extra year into our primary schools, and then manage the changes in size in secondary schools? Can we do it a bit at a time, and have pilot schemes for different methods in areas where we lose most kids? Do we carve out a specialist year in secondary school, which is then run on primary lines with a dedicated form teacher, and subject teachers moving from one classroom to the next? Do we continue as we do now with the educational change at age 11, but retain or increase the social support to families of children who might get lost in transition?

pwyso a mesur y gost hirdymor ar gyfer y wladwriaeth o gael cymaint o blant sydd ddim yn gorffen eu cyfnod yn yr ysgol, gydag ymddieithrio o gymdeithas o ganlyniad i hynny, a pharhad o dueddiadau niweidiol i genhedlaeth eu plant, a phlant eu plant? Neu a ydym yn gwasgu ein dannedd drwy ychwanegu blwyddyn at ein hysgolion cynradd, ac yna rheoli'r newidiadau mewn maint mewn ysgolion uwchradd? Allwn ni wneud hynny ychydig ar y tro, a chael cynlluniau peilot ar gyfer dulliau gwahanol mewn ardaloedd lle rydym yn colli’r rhan fwyaf o blant? Ydyn ni'n naddu blwyddyn arbenigol yn yr ysgol uwchradd, sydd wedyn yn cael ei rhedeg ar linellau cynradd gydag athro dosbarth penodol, ac athrawon pwnc yn symud o un dosbarth i'r llall? A ydym yn parhau fel rydym yn ei wneud nawr gyda'r newid addysgol yn 11 oed, ond yn cadw neu’n cynyddu'r cymorth cymdeithasol i deuluoedd plant a allai fynd ar goll yn ystod y cyfnod pontio?

Minister, the research papers, evidence and evaluation that I have read in connection with this issue are three, four or even five years old. I would like you to consider undertaking some work to look at the evidence on children who get lost in transition, and those who do not get lost but find those first few years of secondary school an uphill struggle, with consequent changes to their educational chances. I would like this work to be comprehensive, but not to take an eternity, and I would like it to map out what we could do now, and what it would cost—in other words, some running repairs to the current system. It should show what we should do in the future, with a proper road map, complete with cost, so that you, the Government, the Assembly and the educators, can work out exactly how we can do this.

Weinidog, mae’r papurau ymchwil, y dystiolaeth a’r gwerthusiad yr wyf wedi’u darllen mewn cysylltiad â'r mater hwn yn dair, pedair neu hyd yn oed bum mlwydd oed. Hoffwn ichi ystyried gwneud rhywfaint o waith i edrych ar y dystiolaeth ar blant sy'n mynd ar goll yn ystod y cyfnod pontio, a'r rhai nad ydynt yn cael eu colli ond eu bod yn cael yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn yr ysgol uwchradd yn anodd, gyda newidiadau i'w cyfleoedd addysgol o ganlyniad i hynny. Hoffwn i'r gwaith hwn fod yn gynhwysfawr, ond ni ddylai gymryd tragwyddoldeb, a hoffwn iddo fapio allan beth y gallem ei wneud yn awr, a'r hyn y byddai'n ei gostio—mewn geiriau eraill, rhai atgyweiriadau cyson i'r system bresennol. Dylai ddangos beth y dylem ei wneud yn y dyfodol, gyda map ar y ffordd briodol, gan gynnwys cost, fel y gallwch chi, y Llywodraeth, y Cynulliad a'r addysgwyr, weithio allan yn union sut y gallwn wneud hyn.

We know that we are losing a significant minority of our children in the process of moving from primary to secondary school. To perpetuate this problem is not only highly damaging to society, and extremely costly for the state, but will also become a measure of just how poorly we value the life of the child. As you and I know, Minister, all children are

Rydym yn gwybod ein bod yn colli lleiafrif sylweddol o'n plant yn y broses o symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae parhau'r broblem hon nid yn unig yn niweidiol iawn i gymdeithas, ac yn hynod o gostus i’r wladwriaeth, ond bydd hefyd yn dod yn fesur o ba mor wael yr ydym yn gwerthfawrogi bywyd y plentyn. Fel rydych

valuable.

chi a minnau'n gwybod, Weinidog, mae pob plentyn yn werthfawr.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I start by thanking the Conservative spokesperson for the way in which she has approached this subject. She has raised an interesting series of issues. I am not here with a prepared speech—I am here to respond in kind, if you like. She took us on a kind of European tour to begin with, looking at practice in a number of areas, and the questions that she raised were interesting, and quite deep and philosophical in some respects. I would throw back one question at her: are the challenges that she has identified necessarily challenges of transition, or challenges that face particular categories of pupils? That is an open question, and I do not come to this debate with a closed mind on the issue. Are there challenges in transition from primary to secondary? Yes; clearly, there are challenges for all pupils. Are there challenges for pupils from more deprived backgrounds? In some cases, yes, but not necessarily for all. There are challenges for pupils with additional learning needs, which may be more significant. Therefore, there is a series of issues that we need to contend with. We need to reflect on whether the challenges that face us are about transition or about those particular categories of pupils.

**Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i lefarydd y Ceidwadwyr am y ffordd y mae wedi ymdrin â'r pwnc hwn. Mae wedi codi cyfres ddiddorol o faterion. Nid wyf yma gydag araith wedi'i pharatoi—yr wyf yma i ymateb mewn ffordd wahanol, os ydych yn dymuno. Aeth â ni ar ryw fath o daith o amgylch Ewrop i ddechrau, gan edrych ar arfer mewn nifer o feysydd, ac roedd y cwestiynau a godwyd ganddi yn ddiddorol, ac yn eithaf dwfn ac athronyddol mewn rhai ffyrdd. Byddwn yn gofyn un cwestiwn iddi: a yw'r heriau y mae wedi'u nodi o reidrwydd yn heriau pontio, neu'n heriau sy'n wynebu categorïau penodol o ddisgyblion? Mae hwnnw'n gwestiwn agored, ac nid wyf yn dod i'r ddadl hon gyda meddwl caeëdig ar y mater. A oes heriau yn y cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd? Oes, yn amlwg, mae heriau ar gyfer pob disgybl. A oes heriau ar gyfer disgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig? Mewn rhai achosion, oes, ond nid o reidrwydd i bawb. Mae heriau ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a allai fod yn fwy sylweddol. Felly, ceir cyfres o faterion y mae angen inni ymdopi â hwy. Mae angen inni ystyried a yw'r heriau sy'n ein hwynebu yn ymwneud â newid neu'r categorïau penodol hynny o ddisgyblion.

Over the past year or so, I have been looking at the reasons why young people end up in a position of not being in education, employment or training; I know that the Enterprise and Learning Committee in the previous Assembly also looked at these issues. It is quite clear that these problems cannot simply be dealt with at the age of 16, because they are usually deep—rooted problems that have taken shape at an early stage. When I look at the amount of money that is being spent by us, as a Government, whether through the careers service, the youth service or a variety of third sector agencies, or through other services, such as children's social services, I see that it runs into hundreds of millions of pounds.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, yr wyf wedi bod yn edrych ar y rhesymau pam fod pobl ifanc yn cyrraedd sefyllfa o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; gwn fod y Pwyllgor Menter a Dysgu yn y Cynulliad blaenorol hefyd wedi edrych ar y materion hyn. Mae'n gwbl glir nad oes modd trin y problemau hyn pan fydd disgyblion yn 16 oed, gan eu bod fel arfer yn broblemau sylfaenol sydd wedi ffurfio ar gam cynnar. Pan fyddaf yn edrych ar yr arian sy'n cael ei wario gennym ni, fel Llywodraeth, boed hynny drwy'r gwasanaeth gyrfaoedd, y gwasanaeth ieuenctid neu amrywiaeth o asiantaethau yn y trydydd sector, neu drwy wasanaethau eraill, fel gwasanaethau cymdeithasol plant, yr wyf yn gweld ei fod yn rhedeg i mewn i gannoedd o filiynau o bunnoedd.

Some of the third sector agencies that came to the Enterprise and Learning Committee stated that they did not have a problem accessing funding to address the problems of young people not in education, employment or training, but that they were competing with other agencies for the young people who are not in education, employment or training. Therefore, I wonder whether the issue here is not so much about transition—I will say a little about transition, specifically, in a moment—but about the failure to personalise the necessary support for particular pupils at an early enough stage in their education, and then to follow through systematically as they move through the education system. That is the really big challenge that we must consider, and my colleague Jeff Cuthbert, the Deputy Minister for Skills, and I have been talking about this.

Dywedodd rhai o'r asiantaethau trydydd sector a ddaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu nad oeddent yn cael problem cael gafael ar gyllid i fynd i'r afael â phroblemau pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ond eu bod yn cystadlu ag asiantaethau eraill am y bobl ifanc hynny. Felly, yr wyf yn meddwl tybed nad yw’r mater dan sylw yma yn ymwneud â’r cyfnod pontio—byddaf yn dweud ychydig am y cyfnod pontio, yn benodol, mewn eiliad—ond am y methiant i bersonoli'r cymorth angenrheidiol ar gyfer disgyblion penodol yn ddigon cynnar yn eu haddysg, ac yna i ddilyn hynny’n systematig wrth iddynt symud drwy'r system addysg. Dyna'r her fawr iawn y mae'n rhaid inni ei hystyried, ac mae fy nghydweithiwr Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, a minnau wedi bod yn trafod hyn.

On the issue of whether the break should be at the age of 11 or 14, I have had headteachers say to me that they do not know why it was ever at the age of 11 and that, from their point of view, 14 might be a more sensible age to make judgments about potential career paths, opportunities and those kinds of questions, because young people are in a more mature position to do that at that stage. If you were to undertake a fundamental re—evaluation of the organisation of the school system, it would not be something that you would want to do overnight or in a year or possibly even two or three years. This is a subject for quite profound exchange and engagement. I will leave aside the whole question of the notion of 8—13 or 8—14, as we will return to that subject in more detail tomorrow, but the question of the transition at the age of 11 or 14 is interesting and is one that we should perhaps investigate more thoroughly.

O ran y mater ynghylch a ddylai'r toriad fod yn 11 oed neu’n 14 oed, yr wyf wedi cael penaethiaid yn dweud wrthyf nad ydynt yn gwybod pam yr oedd erioed yn 11 oed ac y gallai 14 oed, o'u safbwynt, fod yn oedran mwy synhwyrol i wneud penderfyniadau ar lwybrau gyrfa posibl, cyfleoedd a’r mathau hynny o gwestiynau, gan fod pobl ifanc mewn sefyllfa fwy aeddfed i wneud hynny ar yr adeg honno. Pe byddech yn ymgymryd ag ail—arfarniad sylfaenol o drefniant y system ysgol, ni fyddai'n rhywbeth y byddech am ei wneud dros nos neu mewn blwyddyn neu o bosibl hyd yn oed mewn dwy neu dair blynedd. Mae hwn yn bwnc ar gyfer cyfnewid barn ac ymgysylltu dwys. Yr wyf am adael o'r neilltu y cwestiwn cyfan o syniad o 8—13 neu 8—14, gan y byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwnnw yn fanylach yfory, ond mae’r cwestiwn ynghylch y cyfnod pontio yn 11 neu’n 14 oed yn ddiddorol ac yn un y dylem ei ymchwilio’n fwy trylwyr.

There has been some very good experience in respect of transition. Your colleague William Graham is not here tonight, but he has raised before the example of Newport High School, which I have visited. That school has been able to replicate the primary environment for the first two years of secondary school—it is fortunate, in this respect, that it is a new school—so that young people coming into

Bu rhywfaint o brofiad da iawn o ran y cyfnod pontio. Nid yw eich cydweithiwr William Graham yma heno, ond mae wedi codi o'r blaen yr enghraifft o Ysgol Uwchradd Casnewydd, yr wyf wedi ymweld â hi. Mae’r ysgol honno wedi llwyddo i atgynhyrchu amgylchedd yr ysgol gynradd am y ddwy flynedd gyntaf o ysgol uwchradd— mae’n ffodus, yn y cyswllt hwn,

the school are, essentially, in a separate part of the school. The youngest pupils eat at different times and their classroom environment is more akin to primary school, where teachers move around, rather than pupils. Therefore, I have seen that good example of how transition can be handled in a modern school environment.

ei bod yn ysgol newydd—fel bod pobl ifanc sy’n dod i mewn i'r ysgol, yn y bôn, mewn rhan ar wahân o’r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn bwyta ar adegau gwahanol ac mae eu hamgylchedd ystafell ddosbarth yn fwy tebyg i'r ysgol gynradd, lle mae athrawon yn symud o gwmpas, yn hytrach na disgyblion. Felly, yr wyf wedi gweld yr enghraifft dda honno o sut y gellir ymdrin â’r cyfnod pontio mewn amgylchedd ysgol modern.

There are other good examples throughout Wales of where primary clusters around secondary schools are actively engaging with secondary schools. Secondary schools send teachers in and, in many cases, work on a curriculum with feeder primary schools, developing relationships and bringing in pupils. To go back to the example of Newport High School, pupils from its feeder primary schools visit the secondary school to meet the teacher in whose class they are likely to be. Therefore, there are many examples of good transition.

Ceir enghreifftiau da eraill ledled Cymru lle mae clystyrau o ysgolion cynradd o gwmpas ysgolion uwchradd yn mynd ati i ymgysylltu ag ysgolion uwchradd. Mae ysgolion uwchradd yn anfon athrawon i mewn ac, mewn llawer o achosion, yn gweithio ar gwricwlwm gyda’r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, yn datblygu cydberthnasau ac yn dod â disgyblion i mewn. I fynd yn ôl at yr enghraifft o Ysgol Uwchradd Casnewydd, mae disgyblion o’r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo yn ymweld â'r ysgol uwchradd i gwrdd â'r athrawon yn y dosbarthiadau lle maent yn debygol o fod. Felly, mae llawer o enghreifftiau o gyfnodau pontio da.

**Kirsty Williams:** I thank Angela and the Minister for their contributions. Would you agree that one success of the schemes that involve greater joint working between primary schools and secondary schools is that there are now members of staff in secondary schools who see it very much as their career goal to be experts in dealing with children during the period of transition? Traditionally, perhaps, teachers found that kudos was derived from teaching examination classes for GCSEs or A—levels, whereas we could ensure that there is kudos associated with those teachers who feel that it is their career goal to be specialists in managing those crucial years. If we can get those crucial years right for pupils, their chances of success at GCSE and at A—level are greatly enhanced. We should give kudos to those teachers who specialise in those crucial first years, rather than focusing on GCSE and A—level teachers as being the glory of the teaching profession.

**Kirsty Williams:** Diolchaf i Angela a'r Gweinidog am eu cyfraniadau. A fyddech yn cytuno mai un llwyddiant y cynlluniau sy'n cynnwys mwy o weithio ar y cyd rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yw bod aelodau o staff mewn ysgolion uwchradd bellach yn ystyried mai nod eu gyrfa yw bod yn arbenigwyr wrth ymdrin â phlant yn ystod y cyfnod pontio? Yn draddodiadol, efallai y canfu'r athrawon bod clod yn deillio o addysgu dosbarthiadau arholiad ar gyfer TGAU neu Safon Uwch, ond gallem sicrhau bod clod sy'n gysylltiedig â'r athrawon hynny sy'n teimlo mai nod eu gyrfa yw bod yn arbenigwyr wrth reoli’r blynyddoedd hanfodol hynny. Os gallwn gael y blynyddoedd hanfodol hynny’n iawn ar gyfer disgyblion, bydd eu siawns o lwyddo mewn TGAU a Safon Uwch-yn cael ei wella'n fawr. Dylem roi clod i'r athrawon hynny sy'n arbenigo yn y blynyddoedd cyntaf hollbwysig hynny, yn hytrach na chanolbwyntio ar athrawon TGAU a Safon Uwch fel gogoniant y proffesiwn addysgu.

**Leighton Andrews:** You raise an important point, which chimes with things that I have

**Leighton Andrews:** Yr ydych yn codi pwynt pwysig, sy'n cyd—fynd â'r pethau yr wyf

said before about the need for all teachers to see themselves as teachers of literacy, as that should run through every subject. I suppose that that is why we have moved more towards a skills—based approach to education in Wales in recent years.

wedi'u dweud o'r blaen am yr angen i bob athro gael gweld ei hun fel athro llythrennedd, gan y dylai redeg drwy bob pwnc. Mae'n debyg mai dyna pam yr ydym wedi symud fwy tuag at ddull sy'n seiliedig ar sgiliau i addysg yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

There are a number of areas for further inquiry, which takes me into areas such as the provision of initial teacher training, which, as you know, we are looking at reviewing in any case. There are also some attainment—related issues. It has been said in Wales for some years that there is been a dip in performance between key stage 2 and key stage 3. I have said, however, that I do not believe that that is the case. I am not persuaded that our performance at key stage 2 is as good as we think it is. That is one issue that we have faced since the abolition of standard assessment tests—I may have said something about that on a programme that was broadcast on Sunday. I said that we may have taken our eye off the ball in respect of proposals that came out of the Docherty review. When recommending the abolition of SATs, it did not suggest that we should avoid the moderation of teacher assessment. We know from Estyn reports and from the experience of secondary school teachers who look at the performance of pupils coming out of primary school that those secondary schools that have developed cognitive abilities tests often find major divergences with the results of teacher assessments at key stage 2. Therefore, there are some big issues with which we are engaging, as I said in my statement in February.

Mae nifer o feysydd ar gyfer ymchwiliad pellach, sy'n fy symud i feysydd fel darparu hyfforddiant cychwynnol i athrawon, yr ydym, fel y gwyddoch, yn edrych ar ei adolygu beth bynnag. Mae rhai materion yn ymwneud â chyrhaeddiad hefyd. Mae wedi cael ei ddweud yng Nghymru ers rhai blynyddoedd bod gostyngiad wedi bod mewn perfformiad rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, yr wyf wedi dweud nad wyf yn credu bod hynny'n wir. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod ein perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 cystal ag yr ydym yn meddwl ei fod. Mae hynny'n un mater yr ydym wedi'i wynebu ers diddymu profion asesu safonol—efallai fy mod wedi dweud rhywbeth am hynny ar raglen sy'n cael ei darlledu ar ddydd Sul. Dywedais y gallwn fod wedi cymryd ein llygad oddi ar y bêl mewn perthynas â chynigion a ddaeth allan o'r adolygiad Docherty. Wrth argymell diddymu TASau, nid oedd yn awgrymu y dylem osgoi safoni asesiadau athrawon. Rydym yn gwybod o adroddiadau Estyn ac o brofiad athrawon ysgolion uwchradd sy'n edrych ar berfformiad y disgyblion sy'n dod allan o'r ysgol gynradd bod yr ysgolion uwchradd hynny sydd wedi datblygu profion galluoedd gwybyddol yn aml yn canfod gwahaniaethau mawr yng nghanlyniadau asesiadau'r athrawon yng nghyfnod allweddol 2. Felly, mae rhai materion mawr yr ydym yn ymgysylltu â hwy, fel y dywedais yn fy natganiad ym mis Chwefror.

In respect of transition, in 2006 we introduced a requirement that governing bodies of secondary schools and their feeder primary schools draw up and maintain transition plans to facilitate the transition of pupils from primary to secondary school. That was based on advice from Estyn about the need for good pastoral links for pupils transitioning from key stage 2 to key stage 3, and the need for greater continuity in curriculum planning. Therefore, transition

O ran y cyfnod pontio, yn 2006, fe wnaethom gyflwyno gofyniad bod cyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn llunio ac yn cynnal cynlluniau pontio i hwyluso'r broses o drosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Roedd hynny'n seiliedig ar gyngor gan Estyn ar yr angen am gysylltiadau bugeiliol da ar gyfer disgyblion sy'n symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, a'r angen am fwy o barhad wrth gynllunio'r

plans have to set out the detail on the actions that are being taken by the secondary school, working with its feeder primary schools, to improve curriculum planning, align classroom practice and achieve consistency of assessment. The initial plans were in place in September 2007, and, between 2007 and 2010, we provided specific guidance, published guidance on good practice, provided ring—fenced funding for transition plans, provided additional in—service training days, gave additional grants to local authorities to support the development of exemplar project, and commissioned Estyn to monitor and report on progress. Estyn's report on the impact of transition plans in May 2010 concluded that schools and local authorities had improved their earlier arrangements, and that transition plans were becoming embedded in schools' planning arrangements and were forming greater collaboration and understanding between key stage 2 and key stage 3 teachers, contributing to a higher percentage of pupils achieving the expected level at the end of key stage 2 and 3.

cwricwlwm. Felly, mae'n rhaid i gynlluniau pontio nodi manylion am y camau sy'n cael eu cymryd gan yr ysgol uwchradd, gan weithio gyda'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, i wella'r gwaith o gynllunio cwricwlwm, alinio arfer ystafell ddosbarth a sicrhau cysondeb o ran asesu. Roedd y cynlluniau cychwynnol ar waith ym mis Medi 2007, a, rhwng 2007 a 2010, gwnaethom ddarparu canllawiau penodol, cyhoeddi canllawiau ar arfer da, darparu arian wedi'i neilltuo ar gyfer cynlluniau pontio, darparu diwrnodau hyfforddiant ychwanegol mewn swydd, rhoi grantiau ychwanegol i gefnogi datblygiad prosiectau enghreifftiol, a chomisiynu Estyn i fonitro ac adrodd ar gynnydd. Daeth adroddiad Estyn ar effaith y cynlluniau pontio ym mis Mai 2010 i'r casgliad bod ysgolion ac awdurdodau lleol wedi gwella eu trefniadau cynharach, a bod cynlluniau pontio yn dod yn rhan annatod o drefniadau cynllunio ysgolion a bod mwy o gydweithredu a dealltwriaeth rhwng athrawon cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, gan gyfrannu at ganran uwch o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel a ddisgwylir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a 3.

5.15 p.m.

We also now have some pilot work in place for the external moderation of the end of key stage 2 assessments of English and Welsh in this school year. The central feature of this work will be the cluster group working to ensure a shared understanding of standards among practitioners in secondary schools and partner primary schools and to exchange assessment information.

Mae gennym bellach rywfaint o waith peilot ar droed ar gyfer y cymedroli allanol ar ddiwedd asesiadau cyfnod allweddol 2 o Saesneg a Chymraeg yn y flwyddyn ysgol hon. Nodwedd ganolog y gwaith hwn fydd grŵp gwaith clwstwr er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth wedi ei rannu o'r safonau ymysg ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd partner ac er mwyn cyfnewid gwybodaeth asesu.

We have taken a number of steps down this route. This debate has certainly provided me with food for thought, and is a trigger for future policy exploration, but the question that I would return to the end of it is whether the challenges that the Conservative spokesperson throws out today are ones that are a result of the transition move itself, or whether they are the result of deeper challenges that we face in the education system. That is something that I would like to explore more widely.

Rydym wedi cymryd nifer o gamau ar y trywydd hwn. Mae'r ddadl hon yn sicr wedi rhoi deunydd i mi feddwl amdano, ac yn sbardun i archwilio polisi yn y dyfodol, ond y cwestiwn y byddwn yn dychwelyd ato ar ei ddiwedd yw a ydyw'r heriau y mae llefarydd y Ceidwadwyr yn eu codi heddiw yn ganlyniad i'r symud pontio ei hun, neu a ydynt yn ganlyniad i heriau dyfnach a wynebwn yn y system addysg. Mae hynny'n rhywbeth yr hoffwn ei archwilio yn ehangach.

**Angela Burns:** I listened very carefully,

**Angela Burns:** Gwrandewais yn astud,

Minister, to what you were saying about all the efforts that are being made to ensure successful transition, and it struck me that one of the disconnects that could be occurring may have very little to do with the education system, although, of course, the education system reaps the fruit of it, and that is to do with the psychological development of a human being at that particular point in life, at the ages of 11 to 14. That is the age at which self-harm starts and the age at which children develop anorexia—not all of those children come from deprived backgrounds. It is at that point that children might begin to consider suicide, and the point at which depression can kick in. It is the point at which boys can become disengaged and when violence can really start. You seem to have an awful lot of effort going into reading, writing and arithmetic, but perhaps that other side of things should be considered. I do not know what the answer is, but perhaps we could bring in psychologists to look at that other softer side. If we can get their minds right, children will learn anyway—that will be a natural consequence—but they cannot possibly learn if their minds are clouded.

Weinidog, i'r hyn yr oeddech yn ei ddweud fod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau pontio llwyddiannus, ac mae'n fy nharo y gallai un o'r datgysylltiadau a allai fod yn digwydd fod fawr i'w wneud â'r system addysg, er bod y system addysg, wrth gwrs, yn gweld ei fantais, sef datblygiad seicolegol bod dynol ar yr adeg honno mewn bywyd, rhwng 11 a 14 oed. Dyna'r oedran pryd mae hunan-niweidio yn cychwyn a'r oedran lle mae plant yn datblygu anorecsia—nid yw'r plant hynny i gyd yn dod o gefndir difreintiedig. Dyma'r adeg lle gallai plant ddechrau ystyried hunan-laddiad, a'r adeg lle gallai iselder ddechrau. Dyma'r adeg lle gall bechgyn ymddieithrio a phan y gall trais ddechrau o ddifrif. Ymddengys bod gennych lawer o ymdrech yn mynd i fewn i ddarllen, ysgrifennu a rhifyddeg, ond efallai y dylid ystyried yr ochr arall honno i bethau. Nid wyf yn gwybod beth yw'r ateb, ond efallai y gallem ddod â seicolegwyr i mewn i edrych ar yr ochr feddalach honno. Os gallwn gael eu meddyliau'n gywir, bydd plant yn dysgu pa un bynnag—bydd hynny'n digwydd yn naturiol—ond nid oes modd iddynt ddysgu os yw eu meddyliau wedi cymylu.

**Leighton Andrews:** I accept that up to a point, but the majority of young people do manage the transition. That is why I said that the transition itself is not necessarily the problem. It may be that there are wider issues. If we were to develop this as a programme of policy development, then I would want some of our specialist advisers, academics and others to scope what is the real problem here that we are trying to solve. At the moment, we are already throwing quite a lot of money in different ways at this problem from different angles without necessarily cracking it.

**Leighton Andrews:** Rwy'n derbyn hynny i ryw raddau, ond mae'r rhan fwyaf o bobl yn llwyddo i bontio. Dyna pam y dywedais nad y pontio ei hun yw'r broblem o anghenraid. Efallai bod problemau ehangach. Pe baem yn datblygu hyn fel rhaglen bolisi i'w datblygu, yna byddem am i rai o'n hymgynghorwyr arbenigol, academyddion ac eraill i edrych ar beth yw'r broblem go iawn yr ydym yn ceisio ei datrys yn y fan hon. Ar hyn o bryd, rydym eisoes yn taflu cryn dipyn o arian mewn ffyrdd gwahanol at y broblem hon o gyfeiriadau gwahanol heb, o anghenraid, ei datrys.

**Simon Thomas:** Will the Minister give way?

**Simon Thomas:** A wnaiff y Gweinidog dderbyn ymyriad?

**Leighton Andrews:** In a second.

**Leighton Andrews:** Mewn eiliad.

What I would not want do is to open up a new avenue for investment without being clear that we are taking the right route. I will give way.

Yr hyn na fyddwn am ei wneud yw agor llwybr newydd ar gyfer buddsoddi heb fod yn glir ein bod yn dilyn y llwybr cywir. Gwnaf dderbyn ymyriad.

**The Deputy Presiding Officer:** The clock is not our master, but we are running fairly

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid y cloc yw ein meistr, ond rydym bron â rhedeg allan o

close to time.

amser.

**Simon Thomas:** I am grateful to the Minister for giving way, and to the Member who introduced this debate. It is a very interesting and challenging debate, and I just want to throw in an alternative view, which is that many children develop and gain confidence in moving up to secondary school. I have seen for myself that that has been the making of a child and they would not have wanted to be held back. Also, boys and girls mature at different rates at that age. Certainly, girls at that age are ready to move to secondary school, while sometimes boys are not.

**Simon Thomas:** Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am dderbyn ymyriad, ac i'r Aelod a gyflwynodd y ddadl hon. Mae'n ddadl ddiddorol a heriol iawn, ac rwyf am gyflwyno safbwynt amgen, sef bod llawer o blant yn datblygu a magu hyder wrth symud i fyny i ysgol uwchradd. Gwelais drosof fy hun y bu hynny yn fodd o roi hyder i'r plentyn ac na fyddent am gael eu dal yn ôl. Mae bechgyn a merched hefyd yn aeddfedu ar gyflymder gwahanol yn yr oedran hwnnw. Mae merched yn sicr yn yr oedran hwnnw yn barod i symud i'r ysgol uwchradd, tra bod bechgyn weithiau ddim.

The interesting point in this regard is whether we are doing enough in schools with regard to counselling. Peer-led counselling and independent counselling in schools can help in the transition phase, and perhaps we should factor that in a bit more before we start looking at more expensive solutions to the issue.

Y pwynt diddorol yn hyn o beth yw pa un a ydym yn gwneud digon mewn ysgolion o ran cwnsela. Mae cwnsela a arweinir gan gymheiriaid a chwnsela annibynnol mewn ysgolion yn gallu helpu yn y cyfnod pontio, ac efallai y dylem gymryd hynny yn fwy i ystyriaeth cyn inni ddechrau edrych ar atebion fwy drud i'r broblem.

**Leighton Andrews:** Deputy Presiding Officer, I will try to conclude, because otherwise you will rule me out of time in any case, by saying that I think that this is a subject to which we will return.

**Leighton Andrews:** Ddirprwy Lywydd, ceisiaf ddod i ben, neu fel arall byddwch yn dweud bod fy amser ar ben pa un bynnag, drwy ddweud y credaf fod hwn yn bwnc y byddwn yn dychwelyd ato.

**The Deputy Presiding Officer:** I will give you a 'Euro-minute'—they are elastic. [*Laughter.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Rhoddaf 'Ewro-funud' i chi—maent yn hyblyg. [*Chwerthin.*]

**Leighton Andrews:** I think that we will return to this subject, but this has been one of the more interesting short debates that we have had in the Assembly.

**Leighton Andrews:** Credaf y byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn, ond bu hon yn o'r dadleuon byr mwy diddorol a gawsom yn y Cynulliad.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you. We will end on that happy note. That brings today's proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch. Down i ben ar y nodyn llawen hwnnw. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.19 p.m.*
*The meeting ended at 5.19 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)